



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Environment
Agency

Dŵr at fyw a bywoliaeth



Rhan 1: Ardal basn afon Hafren
Cynllun rheoli basn afon
Diweddarwyd: Rhagfyr 2015



discover
enjoy
protect

Asiantaeth yr Amgylchedd

Ni yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn cefnogi ac yn gwella'r amgylchedd ac yn ei wneud yn lle gwell i bobl ac i fywyd gwyllt.

Rydym yn gweithredu lle mae newid amgylcheddol yn cael yr effaith mwyaf ar fywydau pobl. Rydym yn lleihau'r peryglon o lifogydd i bobl ac i eiddo; yn gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr i bobl a bywyd gwyllt; yn gwarchod ac yn gwella ansawdd yr aer, tir a dŵr ac yn defnyddio'r safonau amgylcheddol y gall diwydiant weithio ynddynt.

Mae gweithredu i leihau newid hinsawdd ac i helpu pobl a bywyd gwyllt addasu i'w ganlyniadau yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y llywodraeth, busnesau, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, grwpiau cymdeithas sifil a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru yn cael eu cadw, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio ar gyfer cymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi gymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddeall, defnyddio a manteisio ar gyfoeth naturiol Cymru.

Byddwn yn gweithio ar gyfer economi Cymru ac yn galluogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn i newid hinsawdd a phwysau eraill.

Cysylltiadau

Am fwy o fanylion ar gynlluniau rheoli basn afon cysylltwch â:

Richard Stockdale, Rheolwr Rhanbarth

E-bost: Severnrbd@environment-agency.gov.uk

Gallwch hefyd ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cwsmer Cenedlaethol:

Severn River Basin Management Plan

Bradmarsh Business Park, PO Box 544 Rotherham, S60 1BY

03708 506506 (cyfradd leol) Llun i Gwener 8am i 6pm

© Hawlfraint llun: Wintours Leap gan Nick Stewart ac wedi'i drwyddedu i'w aildefnyddio dan [Drwydded Greadigol Gyffredin](#)

Cyhoeddwyd gan:
Environment Agency
Horizon House
Deanery Road
Bristol
BS1 5AH

www.gov.uk/environment-agency

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad ar gael ar [dudalennau gwe cynllun rheoli basn afon](#)

(<https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015>).

**neu o'n Canolfan Cyswllt Cwsmer Cenedlaethol:
Ff: 03708 506506**

E-bost:
enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2016

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cynnwys

Defnyddio'r cynllun: cael gafael ar yr wybodaeth fwyaf perthnasol	5
1. Cyflwyniad.....	6
1.1. Diben cynllun rheoli basn afon.....	7
1.2. Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun hwn	9
1.3. Ardal basn afon Hafren.....	11
1.4. Materion pwysig o ran rheoli dŵr	13
1.5. Gweithio gydag eraill	16
1.6. Cysylltiadau â chynlluniau pwysig eraill sy'n effeithio ar reoli dŵr	19
1.7. Adrodd ynghylch cynnydd mewn perthynas â'r cynllun	21
2. Cyflwr presennol yr amgylchedd, amcanion a chanlyniadau	22
2.1. Cyflwr presennol yr amgylchedd.....	23
2.2. Amcanion amgylcheddol.....	25
2.3. Rhwystro dirywiad	26
2.4. Ardaloedd gwarchoddedig – cydymffurfio ac amcanion	27
2.5. Amcanion yr ardaloedd dyfrol	34
2.6. Gwyrdroi tueddiadau.....	37
2.7. Lleihau llygru dŵr daear yn gynyddol.....	37
2.8. Canlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021	38
3. Mesurau i gyflawni'r amcanion amgylcheddol.....	43
3.1. Rhaglen o fesurau: cefndir.....	44
3.2. Mesurau i atal dirywiad	46
3.3. Prif raglenni o fesurau ar gyfer canlyniadau 2021	60
3.4. Mesurau Lleol	72
3.5. Edrych ar fesurau tu hwnt i 2021	84
3.6. Mesurau ychwanegol er mwyn cyflawni amcanion ardal warchoddedig.....	89
4. Newidiadau rhwng 2009 a 2015.....	91
4.1. Tystiolaeth well	92
4.2. Mesurau a weithredwyd.....	94
4.3. Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion amgylcheddol yng nghynllun 2009	98
5. Crynodeb o'r ystadegau	102

Defnyddio'r cynllun: cael gafael ar yr wybodaeth fwyaf perthnasol

Mae'r cynllun rheoli basn afon yn cynnwys nifer o ddogfennau, mapiau a setiau data, ac un ohonynt yw hwn. Isod, ceir crynodeb o'r rhannau statudol o'r cynllun rheoli basn afon (yn y glas) ynghyd â dogfennau cysylltiol a ffynonellau data y tu allan i'r cynllun swyddogol ond sy'n cefnogi'r cynllun (yn y brown):

Y Cynllun: Crynodeb o'r ardal basn afon	<ul style="list-style-type: none">•Sefyllfa bresennol yr amgylchedd a'r pwysau arno. Amcanion amgylcheddol, rhaglen o fesurau a chynnydd ers cynllun 2009 (Y ddogfen hon. Cyfeirir ati fel 'Rhan 1' yn Lloegr).
Y Cynllun: Trosolwg o gynllunio cenedlaethol a gwybodaeth ychwanegol	<ul style="list-style-type: none">•Crynodeb o'r prosesau cenedlaethol technegol, economaidd ac ymgysylltu a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun hwn. Cyfeirir ato fel 'Part 2: RBMP overview' yn Lloegr ac fel 'Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd' yng Nghymru.
Y Cynllun: Mapiau, data a gwybodaeth ategol	<ul style="list-style-type: none">•Ymhob rhan o ddogfennau'r ardal basn afon a'r crynodeb cenedlaethol ceir dolenni i fapiau rhyngweithiol, gwybodaeth fanwl a datganiadau dulliau sy'n rhan o'r cynllun.
<ul style="list-style-type: none">•Peryglon a risgiau llifogydd, amcanion rheoli perygl llifogydd a mesurau i gyflawni'r amcanion hynny.	Cynllun rheoli perygl llifogydd
<ul style="list-style-type: none">•Mae'r 'catchment data explorer' ac Arsylwi Dyfroedd Cymru yn rhaglenni gwe i'ch helpu i archwilio a chael gwybodaeth fanwl am ddalgylchoedd lleol yn Lloegr ac ardaloedd dyfrol unigol yng Nghymru.	Y 'catchment data explorer' ac Arsylwi Dyfroedd Cymru

Drwy'r ddogfen hon ceir blychau gwyrdd golau sy'n cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth sy'n berthnasol i bob dogfen.

Gwybodaeth bellach

- Gallwch gael y cynllun rheoli basn afon a'r dogfennau cysylltiol drwy [dudalennau gwe y cynllun rheoli basn afon](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).
- I gael rhagor o wybodaeth yn Lloegr, mae canllaw cynhwysfawr - 'Guide to accessing river basin management supporting information' ar gael ar [dudalennau gwe y cynllun rheoli basn afon](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).
- I gael rhagor o wybodaeth yng Nghymru, cysylltwch â thîm y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn Cyfoeth Naturiol Cymru ar: WFDWales@naturalresourceswales.gov.uk

1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi esboniad o ddiben y cynllun hwn, ar gyfer pwy y mae, a sut caiff yr ardal basn afon ei rheoli.

1.1 Diben cynllun rheoli basn afon

Mae dŵr yn hanfodol ar gyfer bywyd a bywoliaeth. Mae'n caniatáu i'r amgylchedd naturiol ffynnu, ac i fusnesau, amaethyddiaeth a'r economi dyfu a bod yn llewyrchus.

Mae afonydd, llynnoedd, aberoedd, ardaloedd arfordirol, gwlyptiroedd a dŵr dan ddaear yn darparu llawer o wahanol fanteision i gymdeithas; o gyflenwi dŵr yfed a chefnogi pysgodfeydd i ddarparu adnodd hanfodol ar gyfer busnesau ac amaethyddiaeth, llwybrau trafndiaeth a ffynhonnell hamdden sy'n hybu llesiant.

Mae'n hanfodol fod yr adnodd gwerthfawr hwn yn cael ei reoli'n briodol er mwyn diwallu anghenion cymdeithas, yr economi a bywyd gwyllt, ac er mwyn eu cynnal yn y tymor hir.

Diben cynllun rheoli basn afon yw darparu fframwaith ar gyfer amddiffyn a gwella'r manteision y mae'r amgylchedd dŵr yn eu darparu. Er mwyn gwneud hyn, ac oherwydd bod cysylltiad agos rhwng adnoddau dŵr a thir, mae hefyd yn goleuo penderfyniadau ynghylch cynllunio'r defnydd o dir.

Mae'r cynllun yn cynnwys 4 set o wybodaeth y dylai grwpiau sy'n rheoli tir a dŵr dalu sylw arbennig iddynt:

- **Dosbarthiad cychwynnol ardaloedd dyfrol** - Un o brif ddibenion y cynllun hwn yw atal ardaloedd dyfrol rhag dirywio. Y cam cyntaf i atal dirywiad yw deall y statws cychwynnol ar gyfer pob elfen ansawdd ymhob ardal ddyfrol. Ni chaniateir dirywio o'r man cychwyn, heblaw am amgylchiadau penodol iawn a ddisgrifir yn y cynllun hwn. Mae atal dirywiad yn un o'r heriau mwyaf wrth reoli'r amgylchedd dŵr.
- **Amcanion statudol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig** – Mae'r cynllun hwn yn tynnu sylw at y tiroedd a'r ardaloedd dyfrol sydd â defnydd penodol sy'n gofyn am warchodaeth arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys dyfroedd a ddefnyddir ar gyfer dŵr yfed, ymdrochi, cynaeafu pysgod cregyn masnachol a'r rhai sy'n cynnal y rhywogaethau bywyd gwyllt mwyaf gwerthfawr a'u cynefinoedd. Mae'r cynllun yn sicrhau bod gan yr ardaloedd hyn amcanion cyfreithiol yn eu lle sy'n gwarchod y defnydd hwnnw rhag gweithgareddau niweidiol posibl a datblygiadau newydd.
- **Amcanion statudol ar gyfer ardaloedd dyfrol** – Mae'r cynllun hwn yn sefydlu amcanion dan y gyfraith ar gyfer pob elfen ansawdd ymhob ardal ddyfrol, gan gynnwys amcan ar gyfer yr ardal ddyfrol yn gyffredinol. Yr amcan ragosodedig yw statws da. Gosodwyd amcanion llai llym mewn rhai achosion pan fo'r amodau naturiol, dichonoldeb technegol neu gost anghymesur yn gwneud gwelliant yn rhywbeth anymarferol. 2021 yw'r dyddiad terfyn rhagosodedig ar gyfer cyflawni'r amcanion. Ond gosodwyd dyddiadau terfyn estynedig yn 2027 a'r tu hwnt mewn rhai achosion lle byddai'n fwy priodol, yn effeithio llai ar weithgareddau cyfredol neu lle bydd angen mwy o amser ar yr amgylchedd i ymateb i'r mesurau a gynlluniwyd.
- **Rhaglen gryno o fesurau i gyflawni amcanion statudol** – Mae'r cynllun hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu a rheoleiddio yn y dyfodol. I wneud hyn, mae'n rhoi crynodeb o'r mecanweithiau presennol, yn rhai statudol a gwirfoddol, a ddefnyddir i reoli ansawdd yr amgylchedd dŵr. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r mathau o gamau gweithredu a phwy sydd angen eu gwneud er mwyn cyflawni'r amcanion statudol.

Caiff y cyfrifoldeb am gynllunio dyfodol ardal basn afon Hafren ei rannu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwmo i gydweithio i hyrwyddo'r manteision mwyaf i'r amgylchedd dŵr. Mae'r cynllun rheoli basn afon hwn yn rhoi un darlun o'r ardal basn afon a'i rheolaeth yn y dyfodol. Pan fo'n bosibl, defnyddiwyd yr un dull i fynd ati i lunio'r cynllun. Mewn rhai ardaloedd, mae cyfarwyddyd llywodraeth neu bolisi lleol wedi arwain at d dulliau gwahanol o gyrraedd yr un canlyniad neu ganlyniad tebyg. Mewn achos o'r fath, caiff hyn ei esbonio'n glir yn y cynllun neu'r dogfennau ategol.

Cafodd y cynllun rheoli basn afon ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gweinidog Cymreig dros Gyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion ac mae'n cyflawni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac yn cyfrannu at amcanion cyfarwyddbau eraill yr UE. Yn Lloegr, mae'n diweddarau ac yn cymryd lle'r cynllun rheoli basn afon a gyhoeddwyd yn 2009 (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel 'cynllun 2009'). Yng Nghymru, mae'n cymryd lle'r cynllun a gyhoeddwyd yn 2009, heblaw am y dadansoddiad economaidd o'r defnydd o ddŵr (2009 Atodiad K) ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd (2009 Atodiad H).

1.2 Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun hwn

Mae llawer o sefydliadau'n gyfrifol am reoli'r amgylchedd dŵr yn yr ardal basn afon. Yn aml, mae'r sefydliadau hyn wedi'u grwpio'n sectorau, fel cwmnïau dŵr, amaethyddiaeth a diwydiant. Mae Tabl 1 yn nodi'r sectorau hyn, ac yn disgrifio eu rôl o safbwynt rheoli'r amgylchedd dŵr.

Dyma'r rolau ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr:

- **Rheoleiddiwr** – yn rheoleiddio ac yn gorfodi gweithgareddau'r gweithredwyr
- **Gweithredwr** – yn gwneud gweithgareddau a allai ddylanwadu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ansawdd yr amgylchedd dŵr. Caiff llawer o'r gweithgareddau hyn eu rheoleiddio
- **Dylanwadwr** – yn dylanwadu ar eraill neu'n eu cynghori sut i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd dŵr
- **Cyflawnwr prosiectau** – yn cyflawni prosiectau gwella'r amgylchedd (er enghraifft, adfer cynefinoedd) er mwyn lleihau'r difrod a achosir gan eraill, fel arfer mewn partneriaeth â grwpiau eraill

Tabl 1: Y prif grwpiau sector sy'n gysylltiedig â rheoli basn afon

Sector	Rôl yn rheoli'r amgylchedd dŵr			
	Rheoleiddiwr	Gweithredwr	Dylanwadwr	Cyflawnwr prosiectau
Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig – ffermio, coedwigaeth a garddwriaeth		X	X	X
Llywodraeth ac asiantaethau:				
Adrannau Llywodraeth	X		X	
Cyfoeth Naturiol Cymru	X	X	X	X
Asiantaeth yr Amgylchedd	X	X	X	X
Natural England	X	X	X	X
Y Comisiwn Coedwigaeth		X	X	X
Y Sefydliad Rheoli Morol	X		X	
Highways England		X	X	
Network Rail		X	X	
Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnes arall - gan gynnwys cemegion, adeiladu, bwyd a diod, cynhyrchu pŵer, papur, tecstilau a metelau		X	X	
Byrddau Draenio Mewnol	X	X	X	X
Llywodraeth leol – gan gynnwys cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau	X	X	X	X

Sector	Rôl yn rheoli'r amgylchedd dŵr			
	Rheoleiddiwr	Gweithredwr	Dylanwadwr	Cyflawnwr prosiectau
Cloddio a chwarela – pyllau glo, mwyngloddio ar wahân i lo a chwarela		X	X	
Mordwyo – dyfrffyrdd mewndirol (Ymddiriedolaethau Camlesi ac Afonydd), awdurdodau porthladdoedd	X	X	X	X
Sefydliadau anllywodraethol – grwpiau defnyddwyr, grwpiau dalgylchoedd a mudiadau amgylcheddol (gan gynnwys ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol ac ymddiriedolaethau afonydd)		X	X	X
Trin gwastraff, trosglwyddo, storio a thirlenwi - tirlenwi, bio-wastraff, trin gwastraff a throsglwyddo		X		
Diwydiant dŵr – cyflenwad dŵr a gwaith trin carthion	X	X	X	X

1.3 Ardal basn afon Hafren

Mae ardal basn afon Hafren (Ffigur 3.1) yn ymestyn dros 21,000km², a hynny o fewn Cymru a Lloegr. Mae'n ymestyn o ucheldir Cymru rhwng pant a bryn yng Nghanolbarth Lloegr ac i'r de i Aber Afon Hafren.

Mae mwy na 5 miliwn o bobl yn byw ac yn gweithio yn y rhanbarth, ac er ei fod yn wledig yn bennaf mae'n cynnwys ardaloedd trefol megis Bryste, Coventry, Caerdydd, Cymoedd De Cymru a rhannau o gytref Dwyrain Canolbarth Lloegr.

Yn ardal basn afon Hafren, ceir amrywiaeth arbennig o doreithiog o fywyd gwylt a chynefinoedd, sy'n cefnogi llawer o rywogaethau o bwys rhyngwladol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae Aber Afon Hafren a'r cyffiniau'n cael eu gwarchod am eu poblogaethau adar, cynefinoedd a rhywogaethau pysgod mudol megis eog yr Iwerydd, gwangen, lamprai a llysywen.

Mae'r ardal basn afon wedi'i rhannu yn 10 dalgylch. Mae 5 ohonynt yn Lloegr (Swydd Amwythig, Hafren Ganol, Hafren Ganol Swydd Gaerwrangon, Afon Avon Swydd Gaerwrangon, Dyffryn Hafren a Nentydd Avon Bryste a Gogledd Gwlad yr Haf), mae 3 ar y ffin rhwng Lloegr a Chymru (Ucheldir Hafren, Afon Tefeidiad ac Afon Gwy) ac mae 2 yng Nghymru (Afon Wysg a Chymoedd y De-ddwyrain). Mae'r dalgylchoedd hyn yn amrywio o nentydd ucheldirol egniol i afonydd arafach yn yr iseldir, ac yn cynnwys tywodfaen a dyfrhaenau calchfaen a ddefnyddir ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus yng Nghanolbarth Lloegr.

Defnyddir tua 80% o dir yr ardal basn afon ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac mae hynny'n siapiau llawer o'r dirwedd. Mae'r sector yn cynnwys ffermio gwartheg a defaid, ffermydd llaeth mawr, planhigfeydd coedwigaeth gonwydd a rhywfaint o arddwriaeth â ac arbenigol. Caiff economi'r ardal ei gefnogi gan fusnesau, trafndiaeth, iechyd, twristiaeth a hamdden, yn ogystal â gweithgynhyrchu, diwydiannau mwynau a gweithredu porthladdoedd masnachol.

I gefnogi twf economaidd a datblygiad, bydd prosiectau isadeiledd arwyddocaol neu ar raddfa fawr yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd o fewn yr ardal basn afon. Rhaid i'r prosiectau hyn ystyried yr amcanion amgylcheddol o fewn y cynllun rheoli basn afon. Hefyd, caiff manteision posibl ac effeithiau prosiectau o'r fath eu hystyried, pan fo'n berthnasol, yn ystod adolygiadau a diweddariadau o'r cynllun yn y dyfodol, gan gynnwys diweddariadau i'r amcanion amgylcheddol.

Ffigur 1: Map o Ardal basn afon Hafren



1.4 Materion pwysig o ran rheoli dŵr

Y materion pwysig o ran rheoli dŵr yw'r prif faterion sy'n cyfyngu ar y defnydd a'r manteision posibl o ganlyniad i reoli'r amgylchedd dŵr yn yr ardal basn afon mewn modd cynaliadwy. Cawsant eu canfod ar sail canfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus ac asesiadau o'r pwysau a achosir gan bobl nawr, yn y gorffennol a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol.

Mae llawer o'r materion hyn yn deillio o weithgareddau presennol sy'n darparu amrywiaeth eang o fanteision. Felly, efallai na fydd yn bosibl neu'n ddymunol datrys y materion yn llwyr.

- **Addasiadau ffisegol** – yn effeithio ar 27% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Mae pobl wedi gwneud llawer o newidiadau ffisegol i afonydd, llynnoedd ac aberoedd, er enghraifft amddiffynfeydd rhag llifogydd a choredau, a newidiadau i faint a siâp sianelau naturiol afonydd ar gyfer draenio tir a mordwyo. Mae'r addasiadau hyn yn newid lefelau naturiol y llif, yn achosi gormod o waddodion i gronni mewn ardaloedd dyfrol wyneb a cholli cynefinoedd a defnydd hamdden. Mewn llawer o achosion, mae angen cynnal y defnydd a'r addasiadau ffisegol cysylltiedig. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd modd sicrhau statws ecolegol da.

- **Llygredd o ddŵr gwastraff** – yn effeithio ar 29% o'r ardaloedd dyfrol yr ardal basn afon

Gall dŵr gwastraff, neu garthion, gynnwys nifer fawr o faetholion (fel ffosforws a nitradau), amonia, bacteria, cemegion niweidiol a sylweddau andwyol eraill. Gall fynd i mewn i ardaloedd dyfrol lle nad oes technoleg i drin carthion er mwyn cael gwared ar ddigon o'r ffosforws a'r cemegion niweidiol o ollyngiadau o danciau septig dan berchnogaeth breifat, ac mewn tywydd gwlyb, gall gorlifoedd stormydd ryddhau carthion heb eu trin a chael effaith fawr ar ddyfroedd ymdrochi. Mae twf poblogaeth a newidiadau ym mhatrymau glawiad yn cynyddu'r pwysau ar y rhwydwaith carthffosiaeth.

- **Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth** – yn effeithio ar 12% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Mae dŵr glaw sy'n draenio o doeau, ffyrdd, a phalmentydd yn cludo llygryddion, gan gynnwys grit, bacteria, olewau, metelau, allyriadau cerbydau, glanedyddion a draeniau halen ffordd i ddŵr wyneb, gan gynnwys aberoedd a dyfroedd arfordirol. Mae gan lawer o gartrefi a gweithleoedd ddraeniau wedi'u 'cam-gysylltu', sy'n golygu bod dŵr budr yn aml yn mynd i mewn i ddyfroedd wyneb a dyfroedd daear yn hytrach nag i ddraeniau budr ar gyfer carthion.

- **Newidiadau i'r llif naturiol a lefel y dŵr** – yn effeithio ar 7% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Mae lefelau is o lif a dŵr mewn afonydd a dŵr daear, a achoswyd gan weithgarwch dynol (fel tynnu dŵr) neu lai o lawiad na'r arfer, yn gallu golygu nad oes digon o ddŵr i bobl ei ddefnyddio ac mae'n bosibl na fydd bywyd gwyllt yn gallu goroesi. Mae llif is yn effeithio ar iechyd pysgod ac yn gorliwio effeithiau atalfeydd fel coredau. Mae ymchwil ar y newid yn yr hinsawdd yn dangos y bydd Cymru a Lloegr, erbyn 2050, yn gallu disgwyl amrywiadau tymhorol sylweddol, gyda llifoedd uwch yn y gaeaf a rhai is yn yr haf, a gostyngiad yn y llif yn gyffredinol. Yn y tymor hir, bydd llai o ddŵr ar gael i'w dynnu ar gyfer yfed, diwydiant a dyfrhau cnydau.

- **Effeithiau negyddol rhywogaethau estron goresgynnol** – yn effeithio ar <1% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Gall rhywogaethau estron goresgynnol gael effeithiau economaidd sylweddol. Mae'r gost yn codi i reoli rhywogaethau goresgynnol er mwyn gwneud yn siŵr nad yw amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r amgylchedd naturiol yn cael eu peryglu. Mae cimychiaid afon America'n dod yn gyffredin ac maent yn effeithio ar anifeiliaid fel pysgod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae rhywogaethau eraill fel crancod menigog yn dinistrio cynefinoedd fel gwelyau cyrs ac yn

gallu achosi i lannau ddymchwel drwy dyrchu iddynt. Credir bod y newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhai rhywogaethau tua'r gogledd, gan gynyddu'r amlder a'r amrywiaeth yn y dyfodol ac effeithio ar gyflwr ardaloedd dyfrol.

- **Llygredd o ardaloedd gwledig** – yn effeithio ar 40% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Mae rhai dulliau o ymdrin â rheoli tir wedi cynyddu faint o briddoedd a gwaddodion sy'n cael eu golchi oddi ar y tir gan gario ffosforws i'r dyfroedd ac achosi i ormod o algâu dyfu, sef yr hyn a elwir yn 'ewtroffigedd'. Mae hinsawdd sy'n newid yn golygu bod glawiad mwy dwys yn debygol o ddigwydd gan gynyddu'r perygl o ragor o effeithiau. Mae nitrad o wrteithiau wedi cronni mewn dŵr wyneb dros ddegawdau a bydd yn cymryd amser hir i leihau. Mae gwaddodiad o ganlyniad i erydu, arferion coedwigaeth, caeau dirlawn a chywasgedig, a da byw yn sathru ar lannau afonydd, wedi effeithio ar ecoleg afonydd drwy fygu tiroedd silio pysgod. Mae effeithiau eraill yn cynnwys halogiad bacteriolegol gan faw anifeiliaid a slyri da byw a gafodd ei storio a'i ddefnyddio'n amhriodol yn cael ei olchi oddi ar y tir, a phlaleiddiaid o ffermio, coedwigaeth, meysydd golff a pharciau. Mae'r halogyddion hyn yn peri bygythiad arbennig i ddyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn a dŵr yfed.

- **Llygredd o fwyngloddiau segur** – yn effeithio ar 2% o'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Dŵr mwynglawdd yw dŵr sydd wedi dod i mewn yn naturiol i lefelydd y mwynglawdd. Pan fyddai'r fwynglawdd yn gweithio, byddai'r dŵr yn cael ei ddraenio neu ei bwmpio i'w gadw draw oddi wrth y manau gweithio. Ar ôl i'r mwynglawdd gau, mae lefelydd y mwynglawdd yn gorlifo. Mae hyn yn arwain at ddŵr wyneb a dŵr daear yn cael eu halogi gan fetelau hydawdd megis haearn, plwm, copr, sinc neu gadmiwm. Hefyd, mae effeithiau trwytholchi metelau o ganlyniad i fathru mwynau a lagwnau gwaddodi yn gallu bod yn bryder gwirioneddol oherwydd mae'r domen sbwriel yn aml yn fawr ac yn agos at ddŵr.

Ystyried y newid yn yr hinsawdd

Mae'r hinsawdd yn newid o ganlyniad i allyriadau nwyon tŷ gwydr a achosir gan weithgareddau dynol. Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer yr hinsawdd yn y DU yn dangos y bydd y tymheredd yn dal i godi, gyda mwy o lawiad yn y gaeaf a mwy o law yn disgyn mewn stormydd dwys, a lefel y môr yn dal i godi. Mae'r effaith ar lifoedd afonydd, ansawdd dŵr ac ecosystemau yn llai eglur. Mae astudiaethau i ddysgu rhagor am effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr ardal basn afon yn mynd rhagddynt. Yn y cyfamser, mae'n gwneud synnwyr i weithredu mesurau sy'n hyblyg neu'n cynyddu gwytnwch rhag digwyddiadau tywydd eithafol a rhagor o gynhesu.

Asesiadau risg

Defnyddir asesiadau risg i helpu i ganfod materion sylweddol yn ymwneud â rheoli dŵr drwy ganfod lle gallai pwysau newid yn y dyfodol, gan arwain o bosibl at ddirywiad neu leihad o ran pa mor effeithiol yw'r mesurau am gyflawni eu hamcanion. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu a diweddarau, lle bo angen, yr asesiadau risg ers cynllun 2009.

Mae'r asesiadau risg yn rhagweld y risg hyd at 2027. Oherwydd yr amserlen gymharol fyr, mae'r peryglon penodol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd wedi cael eu hystyried, yn bennaf yn yr asesiad risg ar organebau dangosyddion carthol a'r asesiad risg ar lif tynnu dŵr.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Gallwch gael crynodeb o effeithiau materion sylweddol yn ymwneud â rheoli dŵr fesul sector yn adran 5.

Gwybodaeth mewn rhannau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Gallwch gael mapiau GeoPDF, ystadegau a'r prif ganfyddiadau ar gyfer pob asesiad risg yn holl ardal basn afon Hafren ar [blatform Sharefile Asiantaeth yr Amgylchedd \(https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818\)](https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818).
- Gallwch gael mwy o fanylion am asesiadau risg a dolenni i'r datganiadau dull y tu ôl iddynt yn adran 4.4 o [dudalennau gwe Part 2:RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) a'r [Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy)
- Mae [Inventory of emissions, discharges and losses of priority and priority hazardous substances \(https://ea.sharefile.com/d-sab675d1e4d74e5e8\)](https://ea.sharefile.com/d-sab675d1e4d74e5e8) yn darparu gwybodaeth am sylweddau blaenoriaethol yn ardal basn afon Hafren.
 - Gallwch gael rhagor o fanylion am y modd y paratowyd y rhestr yn adran 4.4 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac [Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy).

1.5 Gweithio gydag eraill

Panel cyswllt yr ardal basn afon

Mae panel cyswllt gan yr ardal basn afon. Mae'r aelodau'n rhannu eu barn fel cynrychiolydd sector sy'n gyfrifol am weithredu mesurau a chyflawni prosiectau.

Rôl y panel cyswllt yw:

- cyfrannu tystiolaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ac adrodd ynghylch cynlluniau rheoli basnau afonydd
- dyfeisio ac olrhain mesurau a phrosiectau fel rhan o raglen waith i atal dirywiad a gwella'r amgylchedd
- gweithio gydag aelodau a'u sectorau i sicrhau sylfaen eang ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyfathrebu
- cefnogi a hyrwyddo gweithrediad y dull ar sail dalgyllch drwy eu sectorau a'u rhwydweithiau

Dull ar sail dalgyllch

Mae dilyn dull ar sail dalgyllch yn helpu i bontio'r bwlch rhwng cynllunio rheolaeth strategol ar lefel ardal basn afon a gweithgarwch ar raddfa'r ardal ddyfrol leol. Nod dull ar sail dalgyllch yw annog grwpiau i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol er mwyn ymdrin â phroblemau amgylcheddol yn lleol.

Mae Tabl 2 yn rhestru'r dalgyllch a'r grwpiau partneriaeth yn yr ardal basn afon. Mae aelodau rhai o'r partneriaethau dalgyllch hefyd yn sefyll ar banel cyswllt yr ardal basn afon.

Tabl 2: Grwpiau dalgyllch a phartneriaeth

Dalgyllch	Y sefydliad sy'n cynnal y grŵp dalgyllch neu bartneriaeth
<u>Nentydd Bryste Avon a Gogledd Gwlad yr Haf</u>	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt (ar ran Grŵp Dalgyllch Avon Bryste) a Phartneriaeth Natur Leol Gorllewin Lloegr
<u>Ucheldir Hafren</u>	Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren, ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Sir Drefaldwyn
<u>Dyffryn Hafren</u>	Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Gaerloyw
<u>Hafren Ganol Swydd Amwythig</u>	Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Amwythig
<u>Cymoedd y De-ddwyrain</u>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<u>Afon Tefeidiad</u>	Ymddiriedolaeth Afon
<u>Afon Wysg</u>	Cyfoeth Naturiol Cymru
<u>Afon Avon Swydd Warwig</u>	Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Warwig
<u>Hafren Ganol Swydd Gaerwrangon</u>	Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Gaerwrangon
<u>Afon Gwy</u>	Sefydliad Gwy ac Wysg a Cyfoeth Naturiol Cymru

Partneriaethau dalgyrch yn Lloegr

Yn Lloegr, mae partneriaethau dalgyrch yn grwpiau o sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella'r amgylchedd yn eu hardal leol, a chânt eu harwain gan sefydliad sy'n cynnal y dalgyrch. Maent yn goleuo'r broses o gynllunio i reoli basn afon ac yn cynorthwyo i weithredu mesurau drwy wneud y canlynol:

- darparu tystiolaeth leol
- targedu a chydlynu camau gweithredu
- canfod ac asesu cyllid ar gyfer gwelliannau yn y dalgyrch
- ymgorffori cynllunio rheolaeth basn afon i reolaeth amgylcheddol ehangach y dalgyrch

Bydd rhai o'r partneriaethau'n llunio eu cynlluniau dalgyrch neu eu cynlluniau lleol eu hunain.

Mae'r partneriaethau'n gweithio ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys yr amgylchedd dŵr a rheoli basn afon, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini. Mae partneriaethau dalgyrch hefyd yn ymdrin â dyfroedd arfordirol a morol. Dyma fenter dan arweiniad Defra, ond mae'r partneriaethau'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ledled dalgyrch Ucheldir Hafren, Afon Tefeidiad ac Afon Gwy. Mae rhai grwpiau partneriaeth yn y camau cynnar o gael eu sefydlu, tra bo eraill yn weithredol ers blyneddod.

Y dull o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio tuag at ddull ar sail ecosystem er mwyn rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig.

Mae dull yr ecosystem yn golygu rheoli'r gwahanol rannau o'r amgylchedd gyda'i gilydd, gan gynnwys ei systemau naturiol a'r manteision a gaiff pobl ohono. Yn fwyaf pwysig, mae'n pwysleisio bod pobl yn rhan o ecosystemau ac felly dylem fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn ategu'r adborth a gafwyd drwy ymgynghoriadau blaenorol ar y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, gan gefnogi dull ar sail dalgyrch i roi dealltwriaeth glir o faterion y dalgyrch a chynnwys cymunedau lleol yn y broses o wneud penderfyniadau. Bu llawer o enghreifftiau da eisoes o weithio mewn partneriaeth, a gellir adeiladu ar y rhain drwy'r cynllun rheoli basn afon a mwy o weithredu ar y cyd.

Mae rheoli adnoddau naturiol yn elfen bwysig o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i ddefnyddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru), ynghyd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn sefydlu fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd y Bil yn deddfu dros broses reoli fwy cydgyssylltiol, i sicrhau Cymru sy'n fwy iach a chydnerth, gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol wrthi'n cael ei ddatblygu ac yn cael ei dreialu mewn tri dalgyrch yng Nghymru sef Dyfi, Tawe a'r Rhondda. Bydd yn defnyddio amrywiaeth o offer, ac un ohonynt yw'r cynllun rheoli basn afon. Mae'r fframwaith yn sefydlu'r holl faterion a phwysau ar yr amgylchedd dŵr, yn ogystal â'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w rheoli ar raddfa basn afon. Caiff ei ategu gan ddull ar sail y dalgyrch i weithredu camau'n lleol.

Mae'r cynllun hwn ar gyfer rheoli basn afon yn adlewyrchu elfennau hanfodol y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn y ffyrdd a ganlyn drwy wneud y canlynol:

- rheoli'n ymaddasol, drwy gynllunio, monitro ac adolygu camau gweithredu
- ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu
- annog a chymryd rhan mewn cydweithredu a chydweithio
- ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu dystiolaeth mewn perthynas ag ansicrwydd
- ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
- ystyried canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir y camau gweithredu
- ystyried gwytnwch ecosystemau

Ymgorffori gwybodaeth gan eraill yn y gwaith o gynllunio rheoli basn afon

Mae ambell sefydliad wedi gofyn am y cyfle i rannau eu data amgylcheddol i helpu i wella gwaith rheoli basn afon a chynllunio dalgyllch. Er enghraifft, rhannu data a gwybodaeth i wella dystiolaeth leol ynglŷn ag achos problem, megis y rheswm am beidio â chael statws da, neu ymateb newydd i broblem. Yn Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda Grŵp Cefnogi Cenedlaethol y Dull ar sail Dalgyllch, ac eraill, i gadarnhau'r blaenoriaethau o ran rhannu data. I ddysgu rhagor ynglŷn â rhannu eich gwybodaeth, cysylltwch â phartneriaeth eich dalgyllch lleol (gweler y blwch gwybodaeth). Yng Nghymru, cysylltwch â thîm y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Yn adran 3.4, gallwch gael map yn dangos lleoliad a ffiniau'r dalgyllchoedd rheoli.
- Yn adran 3.4, gellir cael manylion cyswllt ar gyfer partneriaethau dalgyllch, yn ogystal â chrynodeb o'r mesurau a gymerir.

Gwybodaeth mewn rhannau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y dull ar sail dalgyllch yn Lloegr yn adran 3.4 o [Part 2: RBMP overview](#) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015)
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y dull rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru yn [Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd](#) (<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy>)

Gwybodaeth ategol

- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y panel cyswllt a manylion yr aelodaeth yn y [Cofnod o ymgynghori ac ymgysylltu](#) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).
- Gallwch gael enghreifftiau o'r modd y mae Asiantaeth yr Amgylchoedd wedi defnyddio gwybodaeth am eraill yn y [ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad](#) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y dull ar sail dalgyllch yn Lloegr ar [dudalennau gwe](#) (<http://www.catchmentbasedapproach.org/>).
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gymru a gweithio mewn dalgyllchoedd drwy gysylltu â thîm y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Cyfoeth Naturiol Cymru ar WFDWales@naturalresourceswales.gov.uk

1.6 Cysylltiadau â chynlluniau pwysig eraill sy'n effeithio ar reoli dŵr

Mae'r cynllun hwn yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli'r materion sy'n effeithio ar ansawdd amgylchedd y dŵr yn yr ardal basn afon. Ond, mae rhai o'r materion rheoli dŵr mor sylweddol neu gymhleth fel eu bod yn gofyn am eu cynlluniau manylach eu hunain. Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n llunio'r cynlluniau hyn yn gorfod dilyn Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) 2003 ac felly'n gorfod ystyried y cynllun rheoli basn afon wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac yn achos llawer o'r swyddogaethau a gyflawnir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gweinidog Cymreig dros Gyfoeth Naturiol maent yn gorfod cyflawni'r swyddogaethau hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r materion pwysig o safbwynt rheoli dŵr sydd â'u prosesau cynllunio a'u cynlluniau eu hunain.

Tabl 3: Cynlluniau eraill sy'n effeithio ar reoli dŵr

Mater	Cynlluniau	Prif gyrff cyfrifol
Llifogydd ac erydu arfordirol	Cynlluniau rheoli perygl llifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd Awdurdodau llifogydd lleol arweiniol
	Strategaeth genedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Llywodraeth Cymru
	Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Creu Cynefinoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cynlluniau rheoli llifogydd dalgylchoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cynlluniau rheoli traethlinau	Grwpiau arfordirol (dan arweiniad awdurdodau lleol)
	Strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol	Awdurdodau llifogydd lleol arweiniol
Addasu i'r newid yn yr hinsawdd	Strategaeth y DU ar Addasu i'r Hinsawdd a Chynllun Addasu	Pwyllgor y Llywodraeth ar y Newid yn yr Hinsawdd Cyrff cyhoeddus a chwmnïau cyfleustodau
	Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)	Llywodraeth Cymru
Cyflenwad dŵr	Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr	Cwmnïau dŵr
	Cynlluniau rheoli sychder	
Polisi dŵr	Strategaeth ddŵr i Gymru a'r cynllun gweithredu cysylltiedig	Cyfoeth Naturiol Cymru

Mater	Cynlluniau	Prif gyrff cyfrifol
Bioamrywiaeth	Bioamrywiaeth 2020: Strategaeth ar gyfer bywyd gwyllt a systemau ecosystem Lloegr	Defra
	Cynlluniau gwella Natura 2000	Natural England Cyfoeth Naturiol Cymru
	Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cymru
	Cynllun gweithredu bioamrywiaeth leol	Awdurdodau lleol Partneriaeth leol
	Cynlluniau rheoli craidd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhywogaethau estron goresgynnol (INNS)	Strategaeth a chynllun gweithredu Prydain ar Rywogaethau Goresgynnol Estron	Ysgrifenyddiaeth Defra ar gyfer rhywogaethau goresgynnol estron Prydain
Dyfroedd aberol	Cynlluniau morol	Defra Y Sefydliad Rheoli Morol
	Cynllun morol cenedlaethol Cymru	Llywodraeth Cymru
	Blaenoriaethau dŵr ymdrochi	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ansawdd yr aer	Cynlluniau gweithredu ansawdd yr aer	Awdurdodau lleol
Coedwigaeth	Cynlluniau dylunio coedwigoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hamdden	Cynlluniau gwella hawliau tramwy	Awdurdod Lleol
Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	Cynlluniau rheoli parciau cenedlaethol	Awdurdod Parc Cenedlaethol
	Cynlluniau rheoli AHNE	Awdurdodau lleol

Gwybodaeth ategol:

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar [dudalennau gwe'r cynllun rheoli perygl llifogydd](https://www.gov.uk/government/collections/flood-risk-management-plans-frmps-2015-to-2021) (<https://www.gov.uk/government/collections/flood-risk-management-plans-frmps-2015-to-2021>).

1.7 Adrodd ynghylch cynnydd mewn perthynas â'r cynllun

Caiff asesiad ffurfiol o'r cynnydd wrth gyflawni amcanion y cynllun hwn ei adrodd yn y diweddariad i'r cynllun hwn yn 2021. Caiff adroddiad cyfamserol ar wneud mesurau'n weithredol ei lunio a'i adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd yn 2018.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill raglenni monitro helaeth i asesu cyflwr yr amgylchedd dŵr. I helpu i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r cynllun hwn, ac i ddangos sut y mae'r amgylchedd dŵr yn newid, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar amrywiaeth o ddangosyddion ansawdd. Gallai'r rhain gynnwys:

- statws neu beryglon sy'n wynebu ardaloedd gwarchoddedig: dŵr yfed, safleoedd Natura 2000, dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, ac ardaloedd sy'n sensitif i faetholion
- statws ecolegol ynghyd â statws unigol rhai elfennau ansawdd: pysgod, macroffytâu, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, diatomau, ffosfforws, ocsigen hydawdd, amonia, llygyddion penodol, asidedd
- statws cemegol ynghyd â statws unigol rhai elfennau ansawdd
- newidiadau yn statws rhai o'r elfennau statws ecolegol unigol

Defnyddir hyn fel dangosydd i'r cynnydd cyffredinol tuag at statws ecolegol da.

Yn ogystal â monitro cyflwr yr amgylchedd, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynllunio i adrodd ar weithgareddau pwysig a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn y pen draw. Er enghraifft:

- niferoedd y gwelliannau i lwybrau pysgod
- gwelliannau ar hyd traethlinau a chynefinoedd glannau afonydd
- ardal cynefin blaenoriaethol a gafodd ei chreu neu ei gwella
- hyd a lled mesurau lliniaru newydd a weithredwyd ar ardaloedd dyfrol a addaswyd yn fawr neu rai artiffisial

Dylai'r rhai sy'n gweithredu mesurau fonitro ac adrodd ynghylch eu cynnydd eu hunain. Bydd y grwpiau a ganlyn yn arbennig o bwysig:

- partneriaethau dalgylch – cynnydd ar brosiectau partneriaethau, cynnydd o ran sicrhau rhagor o gyllid a dylanwadu ar eraill
- cwmnïau dŵr – cynnydd ar weithredu cynlluniau rhaglenni amgylcheddol cenedlaethol a mesurau eraill sy'n ymwneud â pherfformiad amgylcheddol y cytunwyd arnynt gan y cwmni dŵr a'u grŵp her cwsmeriaid
- rheolwyr tir amaethyddol a gwledig – cynnydd o ran y nifer sy'n manteisio ar gynlluniau sydd o fudd i ddŵr ac i fentrau eraill sy'n gysylltiedig â'r sector, er enghraifft, Stiwardiaeth Cefn Gwlad
- Awdurdodau lleol – manteisir ar gyfleoedd i annog twf drwy seilwaith gwyrdd a gwella cynefinoedd
- porthladdoedd ac awdurdodau mordwyo – gweithredu mesurau lliniaru
- Highways England – cynnydd ar yr agweddau amgylcheddol ar eu strategaeth buddsoddiadau ffyrdd gwerth £15 biliwn

Mae'r panel cyswllt, fel cyd-grŵp sy'n cynrychioli'r ardal basn afon yn ei chyfanrwydd, yn gyfle i fonitro cynnydd o gymharu â'r cynlluniau, rhannu arferion da a helpu'r dull ar sail dalgylch. Felly, mae modd i gamau gweithredu cadarnhaol a gymerir gan bartneriaid i weithredu'r cynllun hwn gael eu hadrodd a'u casglu drwy'r paneli.

2. Cyflwr presennol yr amgylchedd, amcanion a chanlyniadau amgylcheddol

Mae'r adran hon yn disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd a'r amcanion amgylcheddol i'r ardal basn afon. Mae hefyd yn disgrifio'r cynnydd a gynlluniwyd tuag at gyflawni'r amcanion hyn erbyn 2021.

2.1 Cyflwr presennol yr amgylchedd

Mae dangosydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o iechyd yr amgylchedd dŵr yn nodi os yw ardal ddyfrol mewn statws neu botensial da. Dyma asesiad o ystod o elfennau ansawdd sy'n ymwneud â bioleg ac ansawdd cemegol dyfroedd wyneb ac ansawdd meintiol a chemegol dŵr daear. I gyflawni statws neu botensial ecolegol da, statws cemegol da neu statws dŵr daear da, mae'n rhaid i bob elfen unigol a asesir gyflawni statws da neu well. Os yw un elfen islaw'r trothwy ar gyfer statws da, yna dynodir bod statws yr ardal ddyfrol yn ei chyfanrwydd yn llai na da.

Gellir dosbarthu ardaloedd dŵr wyneb fel rhai statws uchel, da, canolig, gwael neu wael iawn. Mae Tabl 4 yn rhoi disgrifiad o bob un o'r dosbarthiadau statws hynny.

Tabl 4: Diffiniad o statws yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Statws	Diffiniad
Uchel	Amodau agos at fod yn naturiol. Dim cyfyngiad ar ddefnydd buddiol o'r ardal ddyfrol. Dim effeithiau ar amwynder, bywyd gwyllt neu bysgodfeydd.
Da	Ychydig o newid o amodau naturiol o ganlyniad i weithgaredd dynol. Dim cyfyngiad ar ddefnydd buddiol o'r ardal ddyfrol. Dim effaith ar amwynder neu bysgodfeydd. Yn gwarchod holl fywyd gwyllt ac eithrio'r rhai mwyaf sensitif.
Canolig	Newid cymedrol o amodau naturiol o ganlyniad i weithgaredd dynol. Ychydig o gyfyngiad ar ddefnydd buddiol o'r ardal ddyfrol. Dim effaith ar amwynder. Ychydig o effaith ar fywyd gwyllt a physgodfeydd.
Gwael	Newid sylweddol o amodau naturiol o ganlyniad i weithgaredd dynol. Ychydig o gyfyngiad ar ddefnydd buddiol o'r ardal ddyfrol. Ychydig o effaith ar amwynder. Effaith cymedrol ar fywyd gwyllt a physgodfeydd.
Gwael iawn	Newid difrifol o amodau naturiol o ganlyniad i weithgaredd dynol. Cyfyngiad sylweddol ar ddefnydd buddiol o'r ardal ddyfrol. Effaith sylweddol ar amwynder. Effaith sylweddol ar fywyd gwyllt a physgodfeydd gyda nifer o rywogaethau yn absennol.

Mae Tabl 5 yn dangos nifer yr ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon. Mae'n nodi os ydynt yn naturiol, artiffisial (fel camlesi a chronfeydd dŵr) neu os ydynt wedi'u haddasu ('wedi'u haddasu'n sylweddol') ar gyfer dibenion penodol.

Tabl 5: Nifer yr ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon

Categoriâu ardaloedd dyfrol	Naturiol	Artiffisial	Wedi'i addasu'n sylweddol	Cyfanswm
Afonydd, camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb	560	47	74	681
Llyn	14	7	47	68
Arfordirol	0	0	0	0
Aberol	1	0	5	6
Dŵr Daear	42	0	0	42
Cyfanswm	617	54	126	797

Mae Tablau 6 a 7 yn crynhoi statws presennol yr ardaloedd dŵr wyneb a dŵr daear yn yr ardal basn afon.

Tabl 6: Dosbarthiad ecolegol a chemegol dyfroedd wyneb 2015

Nifer yr ardaloedd dyfrol	Statws neu botensial ecolegol					Statws cemegol	
	Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da	Uchel	Methu	Da
755	8	134	462	151	0	35	720

I rai sylweddau cemegol sy'n biogrynhai yn yr amgylchedd, mae safonau newydd yn cael eu cyflwyno. Nid yw'r rhain wedi'u defnyddio hyd yn hyn yn Lloegr i asesu statws da, ac mae'r safonau gwreiddiol yn dal i fod mewn grym hyd nes y bydd gwybodaeth bellach wedi'i chasglu i gynyddu hyder yn yr asesiad. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio'r safonau newydd wrth ddsbarthu ardaloedd dyfrol lle mae data ar gael.

Tabl 7: Dosbarthiad ecolegol a chemegol dyfroedd wyneb 2015

Nifer yr ardaloedd dyfrol	Statws meintiol		Statws cemegol	
	Gwael	Da	Gwael	Da
42	9	33	15	27

Mae dosbarthiad ardaloedd dyfrol 2015 yn gosod y waelodlin, ac ni chaniateir dirywiad o'r waelodlin honno oni bai bod amodau penodol yn bodoli.

Ceir crynodeb o gyflwr presennol ardaloedd gwarchoddedig yn adran 2.4.

Gwybodaeth mewn manau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Am wybodaeth bellach ynghylch sut yr asesir statws presennol yr amgylchedd dŵr, gweler adran 4 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) a [River Basin Management Planning Overview Annex \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en).
- Mae mapiau GeoPDF yn dangos cyflwr presennol ardaloedd dyfrol yn holl ardal basn afon Hafren ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn [Sharefile platform \(https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818\)](https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818).
- I gael canlyniadau dosbarthiad 2015 i bob ardal ddyfrol yn ardal basn afon Hafren, dylid lawrlwytho [water body spreadsheet \(https://ea.sharefile.com/d-s0faa355450243538\)](https://ea.sharefile.com/d-s0faa355450243538).

2.2 Amcanion amgylcheddol

Dyma amcanion amgylcheddol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr:

- atal dirywiad yn statws dyfroedd wyneb a dŵr daear
- cyflawni amcanion a safonau ardaloedd gwarchoddedig
- anelu at gyflawni statws da ar gyfer holl ardaloedd dyfrol neu, i ardaloedd dyfrol wedi'u haddasu'n sylweddol ac ardaloedd dyfrol artiffisial, potensial ecolegol da a statws cemegol dŵr wyneb da
- gwyrddroi unrhyw dueddiadau cynyddol sylweddol a pharhaus o ran crynodiadau o lygryddion mewn dŵr daear
- diddymu arllwysiadau, allyriadau a gollwng sylweddau peryglus â blaenoriaeth i ddyfroedd wyneb
- cynyddol leihau llygru dŵr daear ac atal neu gyfyngu ar fynediad llygryddion

Mae amcanion amgylcheddol wedi'u gosod i bob un o'r ardaloedd gwarchoddedig a'r ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon. Clustnodwyd yr amcanion hyn drwy broses a oedd yn cynnwys gwerthusiadau technegol ac economaidd ac ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Bydd cyflawni'r amcanion yn sicrhau'r manteision gorau i gymdeithas o ddefnyddio'r amgylchedd dŵr.

Mae'r amcanion amgylcheddol sy'n cael eu crynhoi yn yr adran hon yn gyfreithiol rwymol. Mae'n rhaid i holl gyrff cyhoeddus ystyried yr amcanion hyn wrth wneud penderfyniadau allai effeithio ar ansawdd yr amgylchedd dŵr.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, mae'n bosibl sicrhau eithriadau rhag rhai o'r amcanion hyn. Ystyriwyd yr eithriadau hyn yn y broses a ddefnyddiwyd i osod yr amcanion hyn.

Gwybodaeth mewn manau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Mae gwybodaeth bellach am y broses o osod amcanion i'w chael yn rhan 5 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) a [River Basin Management Planning Overview Annex \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en).

2.3 Rhwystro dirywiad

I warchod y dibenion a'r buddion niferus y mae'r amgylchedd dŵr yn eu darparu, mae'n hanfodol ei rwystro rhag dirywio. Mae'r diwydiant dŵr a nifer o'r busnesau sy'n hanfodol i'r economi wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn isadeiledd sy'n dibynnu ar sicrhau cyflenwadau o ddŵr glân. Mae rhwystro dirywiad hefyd yn gwarchod bywyd gwyllt a iechyd a lles pobl.

Ystyriwyd yr angen i rwystro dirywiad wrth osod amcanion statws yr ardal ddyfrol. Mae pob amcan statws ardal ddyfrol yn y cynllun hwn wedi'i osod ar yr un lefel, neu yn uwch na chanlyniad dosbarthiad 2015 i'r ardal ddyfrol. Mae hyn yn wir yn achos statws cyffredinol ardal ddyfrol a hefyd yn statws pob elfen a ddefnyddir wrth ddsbarthu.

Mae adran 3 yn cynnwys crynodeb o'r rhaglenni o fesurau i warchod a gwella defnydd buddiol yr amgylchedd dŵr yn yr ardal basn afon. Heb y mesurau hyn, byddai ansawdd yr amgylchedd dŵr yn dirywio, a nifer o fuddion cysylltiol yn dirywio yn sgil hynny. Heb y rheoliadau hyn, amcangyfrifir y byddai 34% o'r dyfroedd wyneb yn Lloegr i ardal basn afon Hafren yn dirywio erbyn 2027 yn bennaf oherwydd cynnydd mewn addasiadau ffisegol o afonydd heb fesurau lliniaru, a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Ysgogir y cynnydd mewn addasiadau ffisegol gan newid yn yr hinsawdd ac yn sgil hynny, yr angen cynyddol i amddiffyn rhag llifogydd a sicrhau bod tir yn cael ei ddraenio, lledaeniad ardaloedd trefol a mwy o drefniadau storio dŵr (cronni).

Bydd asesiad i weld a oes dirywiad wedi digwydd ers gwaelodlin dosbarthiad 2015 yn cael ei gynnal yn 2021.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Gallwch weld asesiad yn nodi os y bu unrhyw ddirywiad yn statws ardal ddyfrol rhwng 2009 a 2015 yn adran 4.3.

Gwybodaeth mewn manau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Mae gwybodaeth ar rwystro dirywiad i'w chael yn adran 3.1 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](#) a [River Basin Management Planning Overview Annex \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en\)](#).

2.4 Ardaloedd gwarchodedig – cydymffurfio ac amcanion

Mae yna nifer o ardaloedd lle mae'r amgylchedd dŵr yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt prin, dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd lle caiff dŵr yfed ei dynnu. Gelwir yr ardaloedd hyn yn 'ardaloedd gwarchodedig' a rhoddir amddiffyniad cyfreithiol penodol iddynt. Mae ardaloedd gwarchodedig â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion ac yn gwarchod y buddiannau y maent yn eu darparu.

Mae'r adran hon yn nodi i ba raddau y mae ardaloedd gwarchodedig yn cydymffurfio gyda'u safonau a'u hamcanion presennol.

Ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed

Yng Nghymru, mae'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed i fod i sicrhau'r canlynol:

- dan y drefn trin dŵr a ddefnyddir, mae'r dŵr yfed a gynhyrchir yn bodloni'r safonau'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed yn ogystal ag unrhyw ofynion penodol i Gymru i sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel i'w yfed
- gwarchodaeth angenrheidiol i rwystro ansawdd y dŵr yfed rhag dirywio yn yr ardal warchodedig er mwyn sicrhau nad oes raid yn y dyfodol gynyddu'n sylweddol y trefniadau puro a ddefnyddir ar hyn o bryd

Yn Lloegr, mae'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr i fod i sicrhau'r canlynol:

- dan y drefn trin dŵr a ddefnyddir, mae'r dŵr yfed a gynhyrchir yn bodloni safonau'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed yn ogystal ag unrhyw ofynion penodol i'r DU i sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel i'w yfed
- gwarchodaeth angenrheidiol i rwystro ansawdd y dŵr yfed rhag dirywio yn yr ardal warchodedig er mwyn gostwng lefel y driniaeth buro sydd ei hangen

Mae'r amcanion hyn mewn perygl pan fydd lefelau llygredd a achosir gan weithgaredd dynol yn codi, a hynny'n golygu bod angen mwy o driniaeth yn y dyfodol, a hefyd pan fydd angen mesurau i lleihau llygredd. Yn achos ardaloedd dŵr daear yn unig, mae methu â chyflawni'r amcanion hyn yn gallu golygu bod yr ardal ddyfrol yn cael statws cemegol gwael. Mae parthau diogelu yn ardaloedd anstatudol y nodwyd bod 'perygl' wrth dynnu dŵr, gan fod arferion rheoli defnydd y tir a gweithgareddau eraill yn gallu effeithio ar ansawdd y dŵr sydd heb ei drin. Caiff mesurau i rwystro a lleihau llygredd eu targedu o fewn y parthau hyn.

Tabl 8: Ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed – statws presennol ac mewn perygl

Math o ardal ddyfrol	Nifer yr ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed	Nifer 'mewn perygl'	Nifer mewn statws cemegol gwael o ran amcanion ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed
Dŵr wyneb	78	45	Nid yw'n berthnasol i ddyfroedd wyneb
Dŵr daear	43	18	9

Rhywogaethau ag arwyddocâd economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Mae rhai ardaloedd o'r dyfroedd aberol ac arfordirol wedi'u dynodi'n ddyfroedd pysgod cregyn. Mae dyfroedd pysgod cregyn yn ardaloedd sydd angen eu gwarchod neu eu gwella i gynnal bywyd a thwf pysgod cregyn er mwyn cyfrannu at safon uchel y pysgod cregyn y bydd pobl yn eu bwyta. Nid oes dyfroedd wedi'u dynodi'n ddyfroedd pysgod cregyn yn ardal basn afon Hafren.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Mae dyfroedd ymdrochi yn ddyfroedd a thraethau dynodedig y mae nifer fawr o ymdrochwyr yn eu defnyddio. Yn achos dyfroedd ymdrochi, yr amcan yw cynnal, gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd a gwarchod iechyd cyhoeddus drwy fodloni safonau ansawdd dŵr 'digonol' y Gyfarwydeb Dyfroedd Ymdrochi, ac i gymryd mesurau yr ystyrir eu bod yn realistig a rhesymol gyda golwg ar gynyddu nifer y dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u dosbarthu'n 'rhagorol' neu 'da'.

Tabl 9: Statws ac amcanion presennol ardaloedd gwarchodedig dyfroedd ymdrochi

Nifer y dyfroedd ymdrochi	Amcan	Nifer sydd o leiaf wedi cyflawni'r dosbarthiad digonol yn 2014*	Nifer y disgwyliwn iddynt o leiaf gyflawni digonol yn 2015	Nifer mewn perygl o beidio â chyflawni digonol yn 2015
5	Dosbarthiad digonol o leiaf	5	4	1

* Dyma'r nifer a fyddai o leiaf wedi cyflawni'r dosbarthiad digonol petai safonau newydd 2015 wedi bod mewn grym

Ardaloedd sensitif i faetholion (Parthau Perygl Nitradau)

Amcan y Gyfarwydeb Nitradau yw lleihau'r llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, ac atal llygredd pellach. Mae Parthau Perygl Nitradau wedi'u dynodi lle mae crynodiadau nitrad mewn ardaloedd dyfrol yn uchel neu'n cynyddu, neu lle mae ardaloedd dyfrol yn, neu mewn perygl o ddod yn ewtroffig oherwydd llygredd nitrad amaethyddol. Mae'n rhaid i ffermwyr o fewn Parthau Perygl Nitradau gydymffurfio gyda mesurau rhaglen weithredu gorfodol i leihau colledion nitrad amaethyddol. Ymhellach, mae cod arfer amaethyddol da wedi'i sefydlu ar gyfer ei weithredu'n wirfoddol gan holl ffermwyr.

Tabl 10: Ardaloedd gwarchodedig parthau perygl nitrad yn ôl graddfa

Rheswm dros ddynodiad	Nifer y Parthau Perygl Nitrad	Arwynebedd tir (ha) yn ôl y math o Barth Perygl Nitrad	% o'r Ardal Basn Afon yn ôl y math o Barth Perygl Nitrad
Nitrad uchel mewn dŵr wyneb	66	712,980	51%
Nitrad uchel mewn dŵr daear	19	321,136	23%
Ewtroffigedd mewn llynnoedd neu gronfeydd dŵr	6	10,486	<1%
Ewtroffigedd mewn aberoedd neu ddyfroedd arfordirol	0	-	0%

Ardaloedd sensitif i nitradau (Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol)

Amcan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yw gwarchod yr amgylchedd rhag effeithiau andwyol gollyngiadau dŵr gwastraff. Caiff ardaloedd sensitif eu dynodi yn ôl ardaloedd dyfrol sydd wedi'u heffeithio gan ewtroffigedd neu ble mae crynodiadau nitrad uchel yn effeithio ar y broses tynnu dŵr. Mae'n rhaid sicrhau bod lleihad neu fod safonau gollyngiadau ar gyfer maetholion mewn carthion yn cael eu bodloni o fewn ardaloedd sy'n sensitif i lygredd maetholion.

Tabl 11: Ardaloedd gwarchodedig y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yn ôl math a graddfa

Rheswm dros ddynodiad	Nifer yr ardaloedd sensitif	Hyd (km)/Arwynebedd (km ²) dynodedig
Ewtroffigedd mewn afonydd	19	701
Ewtroffigedd mewn camlesi	2	63
Ewtroffigedd mewn llynnoedd neu gronfeydd dŵr	2	3.1
Ewtroffigedd mewn aberoedd neu ddyfroedd arfordirol	1	0
Nitrad uchel mewn dŵr wyneb croyw	2	30

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig sy'n ddibynnol ar ddŵr

Amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw cynnal neu adfer, ar statws cadwraeth ffafriol, gynefinoedd naturiol a rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt sydd o bwysigrwydd i'r gymuned. Gelwir y rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig a sefydlwyd gan y Gyfarwyddebau Adar Gwyllt a Chynefinoedd yn Natura 2000. Bydd cyflawni amcanion cadwraeth y safle yn sicrhau bod hygredd y safle Natura 2000 yn cael ei gynnal neu ei adfer fel sy'n briodol, ac yn sicrhau bod y safle yn cyfrannu at gyflawni 'statws cadwraeth ffafriol' y nodweddion sy'n ei wneud yn gymwys yn y lle cyntaf.

Mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn berthnasol i safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr yn unig, neu gynefinoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr a rhywogaethau ar safleoedd sy'n cyfuno nodweddion gwlyb a sych. Yr amcan yw gwarchod a, lle bo angen hynny, gwella'r amgylchedd dŵr i gyflawni'r amcanion cadwraeth i'r nodweddion ar y safle sy'n ddibynnol ar ddŵr.

Safleoedd Natura 2000 yn Lloegr

Mae Natural England yn esbonio beth yw ystyr cyflawni amcanion cadwraeth yn nhermau'r amodau amgylcheddol (targedau) a'r gofynion ecolegol a ddisgwylir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ar safleoedd Natura 2000 yn Lloegr. Mae'r targedau a osodwyd yn benodol i fesur cyflwr nodweddion dynodedig, a'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, yn seiliedig ar Safonau Cyffredin y DU ar gyfer Canllawiau Monitro (CSMG), a gyhoeddir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae rhai o nodweddion monitro safleoedd Natura 2000 yr un fath, neu yn debyg i amcanion elfennau o'r ardaloedd dyfrol. Mae Natural England yn monitro trefniadau cydymffurfio gyda'r amcanion hyn. Lle mae yna dargedau CSMG ar gyfer elfennau llif ac ansawdd dŵr, maent wedi'u hystyried wrth osod amcanion statws yr ardal ddyfrol. Lle mae'r dyddiad ar gyfer cyflawni amcanion ardal ddyfrol Natura 2000 (targed

CSMG) wedi'i ymestyn y tu hwnt i 2021, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno ar nodau interim yn lleol gyda Natural England.

Mae safleoedd Ramsar yn wlyptiroedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Er diben cynllunio rheoli basn afon, caiff safleoedd Ramsar eu hystyried yn yr un modd â safleoedd Natura 2000. Noder, er mwyn gwahaniaethu rhwng amser adfer ecolegol a ffactorau eraill all fod angen ymestyn y dyddiad ar eu cyfer, yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unig, ystyrir bod ardal warchoddedig Natura 2000 yn cyflawni ei hamcanion cadwraeth lle mae'r holl fesurau ar gyfer nodweddion dibynnol ar ddŵr wedi'u cwblhau, ac felly amser yn unig sydd ei angen er mwyn i nodweddion biolegol y safle adfer.

Caniateir ymestyn y dyddiad cwblhau i Natura 2000 yn seiliedig ar farn arbenigol a data sydd yn y Cynlluniau Gwella Safle. Mae Cynlluniau Gwella Safle wedi cael eu defnyddio i adnabod pa safleoedd oedd â materion perthnasol i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac mae gweithredoedd adfer wedi'u nodi o 2021 ymlaen, a hefyd safleoedd lle nad oes unrhyw rai wedi'u hadnabod neu lle nad yw problem wedi'i chadarnhau hyd yma.

Mae Tabl 12 yn cynnwys crynodeb o gyflwr ac amcanion presennol ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000 yn Lloegr i ardal basn afon Hafren.

Tabl 12: Cyflwr ac amcanion presennol ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr (Yn Lloegr i ardal basn afon Hafren)

Cyflwr presennol			
Ardal o SoDdGA sy'n tanategu safleoedd Natura 2000 (ha)			
CFfD - ffafriol	11,668		
CFfD - anffafriol, yn adfer	1,125		
CFfD - anffafriol, dim newid	337		
CFfD - anffafriol, yn dirywio	208		
CFfD - dinistriwyd/dinistriwyd yn rhannol	2		
Cyfanswm arwynebedd	13,340		
Amcan	Nifer yr ardaloedd gwarchoddedig		
	Erbyn 2015	Erbyn 2021	Erbyn 2027
Holl fesurau wedi'u cwblhau er mwyn cyflawni'r amcanion cadwraeth	6	2	4

Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru

Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n barnu beth yw ystyr cyflwr ffafriol yn nhermau'r amodau amgylcheddol (targedau) a'r ecoleg a ddisgwylir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Mae'r targedau sy'n ofynnol yn seiliedig ar Safonau Cyffredin y DU ar gyfer Canllawiau Monitro (CSMG), a gyhoeddir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae rhai o nodweddion monitro safleoedd Natura 2000 yr un fath, neu yn debyg i amcanion

elfennau ardaloedd dyfrol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro trefniadau cydymffurfio gyda'r amcanion hyn.

Yng Nghymru, mae cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig yn amlwg mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Cyfarwyddbau Cynefinoedd ac Adar, ac adroddir arnynt dros gylchoedd chwe blynedd. Mae'r trefniadau adrodd hyn yn wahanol yn Lloegr a Chymru. Yn Lloegr, bydd adrodd ar gyflwr yn digwydd ar sail uned, ac yng Nghymru, bydd adrodd ar sail cynefin neu rywogaeth ddynodedig. Ymhellach, mae mân wahaniaethau yn rhai o'r categorïau a ddefnyddir i adrodd. Mae Tabl 13 yn rhoi crynodeb o'r data ar gyfer rhan Cymru ardal basn afon Hafren yn seiliedig ar nifer y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig sy'n ymddangos ymhob categori. Defnyddiwyd y data diweddaraf sydd ar gael. Mae yna rai bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yng ngofynion adrodd statws rhai o'r nodweddion dynodedig. Er enghraifft, mae nodweddion Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael eu hadrodd ar lefel DU ac nid ar lefel safle. Felly, yn Nhabl 13, nodir bod cyflwr y nodweddion unigol yn anhysbys. Mae ffin rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nag un ardal basn afon hefyd. Yn yr achosion hyn, mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig perthnasol wedi'u hystyried ymhob ardal basn afon lle mae'r ffiniau'n gorgyffwrdd.

Yr amcan diofyn i holl safleoedd N2K yw cyflwr ffafriol erbyn 2021. Caniatawyd ymestyn y dyddiad lle mae tystiolaeth gadarn nad oes modd cyflawni erbyn 2021. Yn achos ardal basn afon Hafren, gall hynny fod yn berthnasol mewn dau achos:

- Amser adfer ecolegol. Mae dyddodiad asid hanesyddol yn parhau i effeithio ar nifer o safleoedd. Mae mesurau i leihau allyriadau wedi'u rhoi ar waith ac mae tystiolaeth lleol ac ar lefel DU i ddangos bod adferiad yn bosibl; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yr amcanion yn cael eu cyflawni erbyn 2021.
- Technegol amhosibl. Mae rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yn effeithio ar nifer o safleoedd, er enghraifft, cimychiaid yr afon America, jac y neidiwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n dechnegol amhosibl difa'r INNS erbyn 2021.

Tabl 13: Cyflwr ac amcanion presennol ardaloedd gwarchoddedig dŵr Natura 2000 (Yng Nghymru i ardal basn afon Hafren)

Cyflwr presennol			
Nifer y cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig Natura 2000			
Ffafriol: Wedi'i gynnal	4		
Ffafriol: Wedi'i adfer	4		
Ffafriol: Annosbarthedig	10		
Anffafriol: Yn adfer	3		
Anffafriol: Dim newid	4		
Anffafriol: Yn dirywio	1		
Anffafriol: Annosbarthedig	33		
Dinistriwyd: Yn rhannol	0		
Dinistriwyd: Yn llwyr	0		
Heb ei asesu	24		
Cyfanswm	83		
Amcan	Nifer yr ardaloedd gwarchoddedig		
	Erbyn 2015	Erbyn 2021	Erbyn 2027
Cyflawni'r amcanion cadwraeth	4	18	3

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Mae crynodeb o broses cynllunio gweithredoedd i'r ardaloedd gwarchoddedig a dolenni i'r cynlluniau gweithredu ar gyfer pob ardal warchoddedig ar gael yn adran 3.6.

Gwybodaeth mewn manau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Am wybodaeth bellach am yr holl ardaloedd gwarchoddedig, gweler adran 4.2 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](#) a [River Basin Management Planning Overview Annex \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en\)](#).
- Am restr o'r holl ardaloedd gwarchoddedig, amcanion a gwybodaeth gysylltiol yn holl ardal basn afon Hafren, gweler [register of protected areas \(https://ea.sharefile.com/d-s487ae61bf2a4b4fb\)](#).
- Mae mapiau rhyngweithiol manwl o'r ardaloedd gwarchoddedig gwahanol yn ardal basn afon Hafren, yn dangos lleoliad, statws presennol a phwyntiau monitro ar dudalennau Asiantaeth yr Amgylchedd sef [Sharefile platform \(https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818\)](#).

Gwybodaeth ategol:

- Mae canllawiau ynghylch y Safonau Monitro Cyffredin ac amcanion cynnydd interim ar gyfer elfennau llif ac ansawdd dŵr yn Natura 2000 ar gael ar dudalennau Asiantaeth yr Amgylchedd sef [Sharefile Platform \(https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818\)](#).

2.5 Amcanion yr ardaloedd dyfrol

Yn achos dyfroedd wyneb, gosodir amcanion ar gyfer statws ecolegol a chemegol. Yn achos ardaloedd dyfrol artiffisial neu wedi'u haddasu'n sylweddol, gosodir amcanion ar gyfer potensial ecolegol a statws cemegol. Yn achos dŵr daear, gosodir amcanion ar gyfer statws meintiol a chemegol.

Mae dau ddarn o wybodaeth yn amcanion yr ardaloedd dyfrol: y statws (er enghraifft, da) a dyddiad i nodi erbyn pryd y dylid cyflawni'r statws hwnnw (er enghraifft, erbyn 2021).

Anelu at gyflawni statws neu botensial da erbyn 2021 yw amcan diodyn y cynllun hwn. Lle mae amodau penodol yn bodoli, mae amcanion amgen (i gyflawni statws da erbyn 2021) wedi'u gosod. Mae'r rhain naill ai angen amser estynedig i gyrraedd y statws a gynlluniwyd (er enghraifft, da erbyn 2027) neu angen anelu at statws is (er enghraifft, canolig erbyn 2015).

Lle mae'r statws yn llai na da, mae hyn yn golygu bod amcan llai llym wedi'i osod.

Ceir esboniad o'r cyfiawnhad dros yr amcanion amgen yn Atodiad Trosolwg o Gynllunio Rheolaeth Basn Afon a Rhan 2: Dogfen drosolwg o gynllunio rheolaeth basn afon a gwybodaeth ychwanegol.

Mae'r ddau dabl canlynol yn crynhoi'r amcanion statws i ardaloedd dyfrol, gan ddynodi faint o'r rhain sy'n amcanion amgen.

Mae Tabl 14 yn crynhoi'r amcanion statws ecolegol a meintiol sydd wedi'u gosod i'r 755 corff dŵr wyneb yn yr ardal basn afon. Mae'n dangos, er enghraifft:

- bod gan 664 o ardaloedd dyfrol amcan o gynnal neu anelu at gyflawni statws ecolegol da rhwng 2015 a 2027
- bod 61 o ardaloedd dyfrol eisoes wedi cyflawni eu hamcan o statws ecolegol canolig (amcan llai llym)
- bod gan 19 o ardaloedd dyfrol amcan o gyflawni statws ecolegol canolig (amcan llai llym) erbyn 2027 (dyddiad terfyn estynedig)

Tabl 14: Crynodeb o amcanion statws neu botensial ecolegol a statws cemegol ardaloedd dŵr wyneb (nifer yr ardaloedd dyfrol) gan gynnwys y rhai ag amcanion llai llym a dyddiadau terfyn estynedig (celloedd ag arlliw glas)

	Statws neu botensial ecolegol						Statws cemegol			
	Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da	Uchel	Cyfan swm	Methu	Da	Cyfan swm	
Erbyn 2015	0	5	61	151	0	217	1	720	721	
Erbyn 2021	0	0	6	195	0	201	0	20	20	
Erbyn 2027	0	0	19	318	0	337	0	14	14	Dyddiad terfyn estynedig
Ar ôl 2027	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Cyfanswm	0	5	86	664	0	755	1	754	755	
	Llai llym						Llai llym			

Mae Tabl 15 yn crynhoi'r amcanion statws meintiol a chemegol sydd wedi'u gosod i'r 42 ardal dŵr daear yn yr ardal basn afon. Mae'n dangos, er enghraifft:

- bod gan 34 o ardaloedd dyfrol amcan o gynnal neu anelu at gyflawni statws meintiol da rhwng 2015 a 2027 (neu ar ôl hynny)
- bod gan 38 o ardaloedd dyfrol amcan o gynnal neu anelu at gyflawni statws cemegol da rhwng 2015 a 2027 (neu ar ôl hynny)
- bod 8 o ardaloedd dyfrol eisoes wedi cyflawni eu hamcan o statws meintiol gwael (amcan llai llym)

Tabl 15: Crynodeb o amcanion statws meintiol a chemegol dŵr wyneb (nifer yr ardaloedd dyfrol) gan gynnwys y rhai ag amcanion llai llym a dyddiadau terfyn estynedig (celloedd ag arlliw glas)

	Statws meintiol			Statws cemegol			
	Gwael	Da	Cyfanswm	Gwael	Da	Cyfanswm	
Erbyn 2015	8	33	41	4	27	31	
Erbyn 2021	0	1	1	0	2	2	
Erbyn 2027	0	0	0	0	6	6	Dyddiad terfyn estynedig
Ar ôl 2027	0	0	0	0	3	3	
Cyfanswm	8	34	42	4	38	42	
	Llai llym			Llai llym			

Er bod gan 12% o gyrff dŵr amcan llai llym o ran statws neu botensial ecolegol, 2% yn unig o elfennau sydd ag amcan tebyg. Ceir gwahaniaeth oherwydd mai'r amcan lefel elfen isaf sy'n gyfrifol am bennu statws cyffredinol yr amcan. Felly, yn achos nifer o'r ardaloedd dyfrol ag amcan llai llym, mae'r rhan fwyaf o elfennau yn dal i fod ag amcan lefel elfen o statws da.

Cyfiawnhad dros amcanion amgen

Mae Tabl 16 yn dangos sawl tro y defnyddiwyd y gwahanol resymau dros osod amcanion amgen (dyddiadau terfyn estynedig ac amcanion llai llym) ar draws holl ardaloedd dyfrol (dŵr wyneb a dŵr daear) yn yr ardal basn afon hon. Mae'n bosibl bod mwy nag un rheswm wedi'i ddefnyddio i gyfiawnhau'r amcan amgen i unrhyw ardal ddyfrol ac felly nid yw'r rhifau yn y tabl yn cyfateb i gyfanswm yr ardaloedd dyfrol.

Mae'r tabl hefyd yn dangos y rhesymau dros osod dyddiadau terfyn estynedig i rai dyfroedd pysgod cregyn ac ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000.

Tabl 16: Crynodeb o gyfiawnhad dros amcanion amgen i ardaloedd dyfrol, dyfroedd pysgod cregyn ac ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000

Rheswm dros amcan amgen	Is-reswm	Nifer yr ardaloedd dyfrol neu ardaloedd gwarchoddedig lle defnyddiwyd rhesymau		
		Cyrff dŵr	Natura 2000	Dyfroedd pysgod cregyn
Technegol anymarferol	Dim datrysiad technegol hysbys ar gael	7	3	0
	Achos yr effaith anffafriol yn anhysbys	101	3	0
	Cyfyngiadau ymarferol technegol eu natur	8	6	0
	Nifer yr ardaloedd dyfrol neu ardaloedd gwarchoddedig lle defnyddiwyd technegol anymarferol	106	7	0
Costau anghymesur	Cydbwysedd costau a buddion anffafriol	83	0	0
	Beichiau anghymesur	291	4	0
	Nifer yr ardaloedd dyfrol neu ardaloedd gwarchoddedig lle defnyddiwyd costau anghymesur	331	4	0
Amodau naturiol	Amser adfer ecolegol	150	0	0
	Amser adfer statws dŵr daear	1	0	0
	Amodau cefndir	24	1	0
	Nifer yr ardaloedd dyfrol neu ardaloedd gwarchoddedig lle defnyddiwyd amodau naturiol	172	1	0
	Cyfanswm yr ardaloedd dyfrol neu ardaloedd gwarchoddedig gydag amcan amgen (dyddiad terfyn estynedig a/neu amcan statws llai llym)	429	4	0

Gwybodaeth mewn mannau eraill o'r cynllun rheoli basn afon

- Mae gwybodaeth bellach ar amcanion amgen, gan gynnwys esboniadau o'r cyfiawnhad dros amcanion amgen ar gael yn adran 5.4 a 5.5 o [Part 2: RBMP overview](#) (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac yn [River Basin Management Planning Overview Annex](#) (<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en>).
- Mae map GeoPDF o fathau, lleoliad, ffiniau, safleoedd monitro a statws cyfredol ardaloedd dyfrol yn holl ardal basn afon Hafren ar gael ar dudalennau Asiantaeth yr Amgylchedd sef [ShareFile service](#) (<https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818>).
- Mae statws cyfredol ac amcan pob ardal ddyfrol yn ardal basn afon Hafren ar gael mewn taenlen ar dudalennau Asiantaeth yr Amgylchedd sef [ShareFile service](#) (<https://ea.sharefile.com/d-s0faa355450243538>).

2.6 Gwyrdroi tueddiadau

Mae'n rhaid rhoi gweithredoedd ar waith i wyrdroi unrhyw dueddiadau cynyddol sylweddol a pharhaus o ran crynodiadau o lygryddion mewn ddŵr daear cyn gynted â bod tueddiad wedi dod i'r amlwg. Nid yw'n bosibl cynnig amcan amgen sy'n llai llym nag ymestyn y dyddiad terfyn i'r amcan hwn.

2.7 Lleihau llygru ddŵr daear yn gynyddol

Mae'n rhaid rhwystro sylweddau peryglus rhag cael mynediad i ddŵr daear ac mae'n rhaid cyfyngu ar fynediad holl lygryddion eraill i ddŵr daear i rwystro llygredd. Mae sylweddau peryglus yn golygu sylweddau neu grwpiau o sylweddau sy'n wenwynig, parhaus eu natur ac yn dueddol o fiogrynhoi, a sylweddau neu grwpiau o sylweddau eraill sy'n achosi pryder tebyg.

2.8 Canlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

I helpu pennu amcanion statws yr ardal ddyfrol sydd eisoes wedi'u crynhoi, aethpwyd ati i ragfynegi beth fydd statws pob elfen yn 2021. Mae gwelliannau mewn statws a ragfynegir yn seiliedig ar fesurau lle mae yna hyder:

- y bydd y mesurau yn digwydd erbyn 2021
- bod lleoliad y mesurau a'r ardaloedd dyfrol a fydd yn manteisio yn hysbys
- y bydd newid yn statws elfennau yn digwydd o ganlyniad i'r mesurau

Yn y cyd-destun hwn, mae hyder yn golygu bod disgwyliad rhesymol (mwy hyderus na pheidio) y bydd y mesurau yn digwydd ac y bydd y canlyniad yn cael ei gyflawni. Mae prosesau amgylcheddol yn gymhleth ac mae cynlluniau buddsoddi'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn newid. Felly mae'n bosibl na fydd rhai canlyniadau a ragwelir yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd i roi mesurau ychwanegol ar waith ac o bosibl sicrhau canlyniadau pellach erbyn 2021. Caiff y cyfleoedd hyn eu trafod yn adran 3.5.

Nid yw amcan statws yr ardal ddyfrol bob amser yn dangos os rhagwelir y bydd gwelliant mewn statws yn digwydd erbyn 2021. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd elfen neu ardal ddyfrol angen ymestyn dyddiad terfyn i gyflawni statws da ac felly cael amcan o 'da erbyn 2027'. Fodd bynnag, mae'n bosibl y rhagwelir y bydd yn gwella o statws gwael i statws canolig erbyn 2021.

Er mwyn helpu i ddeall y gwelliannau y rhagwelir y byddant yn digwydd o ganlyniad i fesurau yn y cynllun hwn, mae tablau 17, 18 19 a 20 yn crynhoi statws presennol a'r statws a ragwelir yn 2021 i ardaloedd dŵr wyneb (statws ecolegol a chemegol).

- dŵr daear (statws meintiol a chemegol)
- holl elfennau'r holl ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon
- elfennau dethol sy'n cyfrannu at statws ecolegol dyfroedd wyneb

Tabl 17: Statws ecolegol a chemegol presennol a statws a ragwelir ar gyfer 2021 yr ardaloedd dŵr wyneb (nifer yr ardaloedd dŵr wyneb)

	Statws ecolegol				Statws cemegol	
	Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da neu well	Methu	Da
Statws presennol						
Statws a ragwelir ar gyfer 2021						
Newid a Ragwelir						

Tabl 18: Statws meintiol a chemegol presennol a statws a ragwelir ar gyfer 2021 yr ardaloedd dŵr daear (nifer yr ardaloedd dŵr daear)

	Statws meintiol		Statws cemegol	
	Gwael	Da	Gwael	Da
Statws presennol				
Statws a ragwelir ar gyfer 2021				
Newid a Ragwelir				

Tabl 19: Statws presennol a statws a ragwelir ar gyfer 2021 yr elfennau ecolegol a'r elfennau cemegol (nifer yr elfennau mewn ardaloedd dŵr wyneb)

	Statws ecolegol				Statws cemegol	
	Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da neu well	Methu	Da
Statws presennol						
Statws a ragwelir ar gyfer 2021						
Newid a Ragwelir						

Mae'r statws a ragwelir ar gyfer 2021 i holl elfennau dosbarthedig pob ardal ddyfrol ar gael mewn set data cynhwysfawr sy'n ffurfio rhan o'r cynllun hwn. Mae Tabl 20 yn crynhoi statws presennol a statws a ragwelir ar gyfer 2021 yr elfennau biolegol mewn dyfroedd wyneb.

Tabl 20: Statws presennol a statws a ragwelir ar gyfer 2021 yr elfennau biolegol mewn afonydd (sawl tro yr asesir yr elfen)

		Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da neu well
Pysgod	Statws presennol				
	Statws a ragwelir ar gyfer 2021				
	Newid a Ragwelir				
Infertebratau	Statws presennol				
	Statws a ragwelir ar gyfer 2021				
	Newid a Ragwelir				
Planhigion (macroffytâu a ffytobenthos)	Statws presennol				
	Statws a ragwelir ar gyfer 2021				
	Newid a Ragwelir				

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon:

- Ceir crynodebau pellach o statws presennol, canlyniadau a ragwelir ar gyfer 2021 ac amcanion yr ardaloedd dyfrol yn adran 5.

Gwybodaeth mewn manau eraill o'r cynllun rheoli basn afon:

- Gellir lawrlwytho'r canlyniadau a ragwelir i bob ardal ddyfrol ar gyfer 2021 ar wasanaeth ShareFile Asiantaeth yr Amgylchedd: (<https://ea.sharefile.com/d-s0faa355450243538>).

Canlyniadau amgylcheddol ychwanegol ar gyfer 2021

Yn achos rhai mesurau, er bod hyder y bydd y mesur yn digwydd erbyn 2021, nid oes digon o hyder ynghylch lleoliad neu raddfa'r gwelliant i allu rhagfynegi canlyniadau elfennau penodol mewn ardaloedd dyfrol penodol.

Mae'r canlyniadau ychwanegol hyn ar gyfer 2021, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tablau uchod, yn cynnwys y canlynol:

- Gwelliannau i ardaloedd gwarchodedig fel ansawdd dŵr crai mewn 33 parth diogel oherwydd gweithredoedd sy'n targedu pleiddiaid ac ansawdd dŵr safle dŵr ymdrochi o ganlyniad i welliannau i arllwysadau dŵr gwastraff gan gwmni dŵr.
- Gwelliannau i gynefinoedd pysgod a gwell amodau i infertebratau a phlanhigion yn yr holl ddalgylchoedd, er enghraifft Afon Frome, oherwydd gwaith fel gosod malurion coed, adfer sianeli afon hynafol, creu gwelyau silio a rhwystro da byw rhag cael mynediad at afonydd yng Ngwastadeddau a Gweunydd Gogledd Gwlad yr Haf o ganlyniad i waith ar berygl llifogydd.
- Lleihad mewn ffosffad a gwelliannau i statws pysgod a llysywod mewn mwy na 40 o ardaloedd dyfrol yn nalgylchoedd Ucheldir Gwy a Hafren o ganlyniad i 24 prosiect sy'n canolbwyntio ar reoli pridd a gwella cynefinoedd, a gwelliannau i weithrediadau'r cwmnïau dŵr.
- Gwelliannau i ecoleg o leiaf 4 ardal ddyfrol a chreu neu wella dros 80ha o wlyptir a 74km o afon o ganlyniad i gynlluniau rheoli perygl llifogydd.
- Lleihad mewn metelau fel cadmiwm, plwm a sinc mewn un ardal ddyfrol oherwydd gwaith adfer mwynglawdd ger Minsterley (Sir Amwythig).
- Disgwyllir y bydd lleihad mewn gwaddodion, maetholion, pleiddiaid a llygredd bacteriol ar draws yr ardal basn afon yn sgil mentrau fel Treial Rheoleiddio Wye Farm a phrosiect Mackworth a Markeaton Brooks. Hefyd, disgwyllir i Stiwardiaeth Cefn Gwlad (yn Lloegr) a Glastir (yng Nghymru) gyfrannu lle bynnag y maent wedi'u mabwysiadu.
- Gwelliannau i statws pysgod yn Nyffrynnoedd Gwy a'r De Ddwyrain o ganlyniad i fesurau, er enghraifft, gwelliannau i gynefinoedd, cynlluniau tramwy i bysgod a glanhau graean silio a fydd yn digwydd yn lle stocio eogiaid.
- Yn nalgylchoedd Dyffrynnoedd Gwy, Wysg a'r De Ddwyrain, rhagwelir y bydd gwelliannau i gynefinoedd, morffoleg, ansawdd dŵr a lleihad mewn rhywogaethau goresgynnol o ganlyniad i weithredu partneriaeth a gefnogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru dan y cynlluniau Partneriaeth Gweithio ar y Cyd ac Ariannu Cystadleuol.
- Yn dilyn yr adroddiad Cyflwr Natur, crëwyd 'Cronfa Natur' yng Nghymru i ymateb i'r heriau sy'n wynebu bywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae tri o'r saith parth gweithredu sy'n gymwys i fanteisio ar y gronfa (Bannau Brycheiniog, Mynyddoedd Cambria a Chymoedd De Cymru) yn gorwedd o fewn ardal basn afon Hafren. Gyda gwella dalgylchoedd afon yn flaenoriaeth, disgwyllir ystod o welliannau yn ystod oes y cynllun hwn.

Bydd yr amcanion amgylcheddol yn y cynllun hwn yn ysgogi gwelliannau ychwanegol i'r amgylchedd dŵr erbyn 2021. Mae cyfleoedd yn cynnwys adolygiad cyfnodol cyfyngiadau pris cwmnïau dŵr yn 2019, adolygiadau ar wariant y llywodraeth, prosiectau isadeiledd sylweddol ac adolygiadau arferol trwyddedau amgylcheddol.

Gwybodaeth ategol:

- I weld crynodeb o effeithiau'r cynllun hwn ar yr amgylchedd ehangach, darlener [strategic environmental assessment \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).
- Mae asesiad effaith y cynlluniau rheoli basn afon yn Lloegr yn darparu gwybodaeth bellach ar y manteision a gyflawnir gan y cynllun hwn. Mae ar gael ar y we ar dudalennu'r cynllun rheoli basn afon (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).

3. Mesurau i gyflawni'r amcanion amgylcheddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r rhaglen o fesurau sydd eu hangen i reoli'r problemau rheoli dŵr sylweddol a chyflawni amcanion y cynllun hwn. Fe ddynodir buddiannau camau gweithredu a'r rheini sy'n rhan o'r gwaith.

3.1 Rhaglen o fesurau: cefndir

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r rhaglenni o fesurau a ddefnyddir i gyflawni amcanion amgylcheddol y cynllun hwn.

Mae Tabl 21 yn darparu trosolwg o grynodedb o'r rhaglenni o fesurau

Tabl 21: Trosolwg o'r rhaglen o fesurau

Mesurau i atal dirywiad

Crynodeb o'r rhaglenni o fesurau i reoli problemau rheoli dŵr arwyddocaol	<p>Mae'r mesurau parhaus hyn yn chwarae rhan sylweddol wrth atal dirywiad.</p> <p>Maent yn gwarchod holl ddefnyddiau presennol yr amgylchedd dŵr a'r buddiannau y mae cymdeithas yn eu cael ohono.</p> <p>Mae'r mesurau parhaus yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol ac mae gan bob sector sydd â diddordeb yn yr amgylchedd dŵr rôl i'w chwarae.</p> <p>Mae'r mesurau'n gymwys ar draws yr ardal basn afon i gyd.</p>	Adran 3.2
--	--	-----------

Mesurau i gyflawni canlyniadau erbyn 2021

Canlyniadau'r prif raglenni o fesurau ar gyfer 2021	<p>Mae gan y prif raglenni ffynonellau ariannu ar wahân ar gyfer delio â materion a phroblemau penodol.</p>	Adran 3.3
(Crynodeb o'r rhaglenni o fesurau fydd yn gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021)	<p>Bydd y rhaglenni hyn yn cyflawni'r gwelliannau mwyaf yn yr amgylchedd dŵr erbyn 2021.</p> <p>Maent yn cynnwys y mesurau y rhagwelir fydd yn gwella ardaloedd dyfrol penodol erbyn 2021 a mesurau ychwanegol ble na fu'n bosibl darogan yr ardal ddaearyddol a/neu faint y newid amgylcheddol y byddant yn ei achosi erbyn 2021.</p> <p>Mae'r mesurau hyn yn gymwys unai mewn lleoliadau penodol neu ar draws yr ardal basn afon i gyd.</p>	
Mesurau lleol (Crynodeb o'r mesurau dalgylch lleol)	<p>Mesurau dalgylchoedd lleol gaiff eu rhoi ar waith erbyn 2021.</p> <p>Caiff rhai o'r mesurau eu hadlewyrchu mewn canlyniadau sy'n benodol i ardaloedd dyfrol erbyn 2021.</p> <p>Mae'r mesurau hyn yn gymwys i ddalgylchoedd penodol.</p>	Adran 3.4

Yn ogystal, bydd grwpiau dalgylch yn dynodi beth arall y gallent ei gyflawni pe bai modd sicrhau cyllid ychwanegol yn y dyfodol.

Mesurau i gyflawni amcanion hyd at 2027 a thu hwnt

Crynodeb o'r rhaglenni o fesurau i gyflawni amcanion ar gyfer ardaloedd dyfrol sydd â dyddiadau cyflawni estynedig	Crynodeb o'r mesurau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni amcanion y tu hwnt i 2021. Nid yw'r mesurau hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau rhagweledig ar gyfer 2021. Caiff y rhain eu hadolygu pan gaiff y cynlluniau eu diweddarau nesaf yn 2021.	Adran 3.5
---	---	-----------

Mesurau ychwanegol i gyflawni amcanion ardaloedd gwarchoddedig

Crynodeb a chysylltiadau â'r cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys mesurau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig	Crynodeb o, a chysylltiadau â'r cynlluniau gweithredu i gyflawni amcanion ardaloedd gwarchoddedig mewn lleoliadau penodol.	Adran 3.6
---	--	-----------

Bydd llawer o'r mesurau hyn, er enghraifft rheoliadau llygryddion ar y tir, yn arwain hefyd at welliannau mewn dyfroedd morol sydd ddim yn cael eu cynnwys yn y WFD.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i grynodeb o'r broses ar gyfer dynodi mesurau, yn cynnwys sut yr aseswyd costau a buddiannau, yn Adran 5 o Ran 2: Trosolwg RBMP (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy) (<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy>)
- Ceir mwy o wybodaeth am y mecanweithiau a ddefnyddiwyd i roi mesurau ar waith ar [wasanaeth rhannu ffeiliau Asiantaeth yr Amgylchedd](https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9) (<https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9>)
- Ceir mwy o wybodaeth ar fesurau yng Nghymru ar gyfer ardal basn Afon Hafren ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/) (<http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/>)

3.2 Mesurau i atal dirywiad

Mae'r adran hon yn nodi crynodeb o'r mesurau parhaus sy'n helpu i atal dirywiad a gwarchod defnyddiau niferus yr amgylchedd dŵr a'r buddiannau y mae'n eu darparu. Mae llawer o'r mesurau hyn yn helpu i wella ansawdd yr amgylchedd dŵr hefyd.

Caiff y mesurau eu cyflwyno ar gyfer pob un o'r problemau rheoli dŵr sylweddol a ddisgrifir yn Adran 1.4.

Er mwyn dynodi pa sectorau sydd ynghlwm â rhoi'r mesurau ar waith, cyfeirir at y prif rolau wrth reoli'r amgylchedd dŵr (a ddynodwyd yn Adran 1.2) isod.

Newidiadau ffisegol

Mae newidiadau ffisegol fel lledu, dyfnhau a sythu afonydd, aberoedd ac arfordiroedd, yn helpu i ateb anghenion cymdeithas a'r economi. Mae newidiadau ffisegol yn caniatáu i'r amgylchedd dŵr gael ei ddefnyddio at, a'i werthfawrogi am, amryw o ddibenion yn cynnwys ar gyfer mordwyo, rheoli perygl llifogydd, pysgota a gweithgareddau hamdden eraill sy'n gwella lles ac ansawdd bywyd pobl. Mae'r newidiadau hyn wedi helpu trefi a dinasoedd i ddatblygu a'r economi i dyfu, ond weithiau gall hyn fod ar draul yr amgylchedd dŵr.

Mae buddiannau i reoli newidiadau newydd ac i leihau effeithiau rhai sy'n bodoli eisoes. Tra bo llawer o newidiadau'n bwysig i gymdeithas, ac yn parhau i fod yn bwysig, gellir lleihau eu heffeithiau niweidiol posibl a gellir gwella gwytnwch cymunedau dyfrol. Gall cymryd camau i fynd i'r afael ag effeithiau newidiadau ffisegol sicrhau buddiannau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig, ac yn arbennig safleoedd Natura 2000. Ceir tystiolaeth gynyddol, mewn rhai achosion, y gallai mynd i'r afael ag effeithiau'r newidiadau hyn (er enghraifft trwy ddefnyddio mesurau dal dŵr naturiol, fel creu gwlyptiroedd ac adlinio arfordirol) helpu i liniaru llifogydd gan arafu llifoedd a chreu mwy o le ar gyfer dŵr.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd llywodraeth leol a byrddau draenio mewnol** yn cyflwyno caniatâd draenio dan Ddeddf Draenio Tir 1991. **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cyflwyno caniatâd amddiffynfeydd rhag llifogydd o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, bydd trwyddedau gweithgaredd perygl llifogydd yn disodli caniatadau amddiffyn rhag llifogydd yn Ebrill 2016. Mae'r holl awdurdodau hyn yn asesu ceisiadau am gynlluniau neu weithgareddau am eu heffaith potensial ar berygl llifogydd lleol a'r amgylchedd.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn sicrhau bod trwyddedau tynnu a chronni dŵr a thrwyddedau amgylcheddol newydd yn cynnwys amddiffyniad ar gyfer pysgod dŵr croyw ac ymfudol ble fo'n berthnasol ac yn defnyddio eu pwerau i sicrhau bod ysgolion a sgriniau pysgod yn eu lle, ble fo'n briodol.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Y Sefydliad Rheoli Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn defnyddio rheolaethau trwyddedu morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer gweithgareddau'n cynnwys gwaith adeiladu, addasu neu wella, carthu a gwaredu sylweddau neu wrthrychau o'r môr ac oddi ar wely'r môr.
- **Dylai pob sector** ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.
- **Bydd yr awdurdodau mordwyo (awdurdodau harbyrau)** yn trwyddedu cynlluniau gwaith a charthu o fewn ffiniau harbyrau.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn gweithio â phartneriaid a grwpiau sydd â diddordeb i ddynodi mesurau lliniaru priodol er mwyn cyflawni amcanion y WFD mewn ardaloedd dyfrol artiffisial a rhai sydd wedi eu newid yn sylweddol. Mae mesurau lliniaru'n gamau ymarferol y gellir eu cymryd i liniaru effeithiau andwyol gweithgareddau sy'n fuddiol i bobl, fel cronni ar gyfer adnoddau dŵr, neu strwythurau sy'n darparu amddiffynfa rhag llifogydd.
- **Bydd llywodraeth leol** yn ystyried yr effaith ar hydromorffoleg wrth baratoi cynlluniau gofodol a chynlluniau rheoli perygl llifogydd lleol, penderfyniadau ar reoli datblygiadau, isadeiledd ac adeiladau newydd.

Bydd gweithredyddion a rhai sy'n ymgymryd â phrosiectau'n rhoi'r canllawiau canlynol ar waith:

- **Bydd yr awdurdodau mordwyo (porthladdoedd a harbyrau), diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill, cyrff anllywodraethol a llywodraeth ganolog** yn defnyddio'r e-safle dysgu ar gyfer rheoli perygl llifogydd er mwyn cael mynediad i wybodaeth arbenigol ar fesurau lliniaru.
- **Bydd pob sector** yn defnyddio canllawiau cydymffurfio perthnasol y WFD a gyflwynir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac sy'n cwmpasu ystod o weithgareddau mewn aberoedd ac arfordiroedd.
- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill** yn defnyddio dogfennau Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru sef *'Hydropower development: guidance for run-of-river hydropower'* neu'r 'Nodyn Cyfarwyddyd Ynni Dŵr' yng Nghymru.
- **Bydd yr awdurdodau mordwyo (porthladdoedd a harbyrau), y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru) a llywodraeth leol** yn defnyddio canllawiau arfer gorau a ddatblygwyd gan y diwydiant.

Yn Lloegr, dylai pobl ddylanwadol a rheoleiddwyr ystyried gweithgareddau rheoli i'r dyfodol:

- **Dylai llywodraeth leol, llywodraeth ganolog (Asiantaeth yr Amgylchedd)** ddiwygio'r trosolwg strategol ar lifogydd o'r môr ac erydu arfordirol er mwyn rheoli peryglon amgylcheddol yn well yn y tymor hir gan ddefnyddio cynlluniau rheoli traethlin.
- **Dylai'r llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)** archwilio effeithlonrwydd yr agwedd bresennol tuag at ganllawiau cynllunio ar ddatblygiadau mewn gorlifdiroedd ac ardaloedd sydd mewn perygl o erydu arfordirol.
- **Dylai'r llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)** adolygu safonau dylunio amddiffynfeydd llifogydd ar safleoedd WFD a Natura 2000.
- Dylai'r llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd) gynnal astudiaethau ymarferoldeb a chynlluniau ar gyfer ardaloedd storio llifogydd er budd amgylcheddol.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Mae Adran 3.3 yn cynnwys gwybodaeth bellach ar fuddsoddiadau rheoli perygl llifogydd.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am reoli llifogydd a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn Adran 2 o [Ran 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy)

Gwybodaeth ategol

- Ceir mwy o wybodaeth am gynlluniau morol ar we-ddalennau'r llywodraeth ar gov.uk [gwe-ddalennau \(https://www.gov.uk/government/collections/marine-planning-in-england\)](https://www.gov.uk/government/collections/marine-planning-in-england).
- Ceir gwybodaeth am fesurau lliniaru ar y safle e-ddysgu ar gyfer rheoli perygl llifogydd [gwe-ddalennau \(http://learning.environment-agency.gov.uk/capacitybuilding/\)](http://learning.environment-agency.gov.uk/capacitybuilding/).
- Cewch hyd i ganllawiau cydymffurfio Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer gweithgareddau mewn abeored ac arfordiroedd ar we-ddalennau'r llywodraeth gov.uk [gwe-ddalennau \(https://www.gov.uk/government/publications/complying-with-the-water-framework-directive-marine-dredging\)](https://www.gov.uk/government/publications/complying-with-the-water-framework-directive-marine-dredging).
- Cewch hyd i ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer datblygiadau ynni dŵr ar we-ddalennau'r llywodraeth ar gov.uk [gwe-ddalennau \(https://www.gov.uk/government/collections/hydropower-schemes-guidelines-and-applying-for-permission\)](https://www.gov.uk/government/collections/hydropower-schemes-guidelines-and-applying-for-permission)
- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/)

Rheoli llygredd o ddŵr gwastraff

Gall dŵr gwastraff, neu garthffosiaeth, gynnwys:

- maetholion fel ffosforws a nitradau
- cemegion niweidiol, yn cynnwys amonia a metelau a'r rheini a ddefnyddir mewn cartrefi a diwydiant
- sylweddau niweidiol eraill, yn cynnwys firysau a bacteria

Gall llygryddion mewn dŵr gwastraff effeithio ar y lefelau ocsigen tawdd a geir yn y dyfroedd derbyn a gallant effeithio ar ecoleg. Gall maetholion darfu ar gydbwysedd ecolegol naturiol ardal ddyfrol ac achosi gordyfiant algae a llystyfiant, allai fygu'r dŵr o ocsigen. Gall llygryddion eraill, fel metelau a chemegion bob-dydd a ddefnyddir mewn cynnyrch o amgylch y cartref a gaiff eu gollwng mewn carthffosiaeth, fod yn gwbl wenwynig i blanhigion neu anifeiliaid. Gall pobl gael eu heffeithio hefyd, er enghraifft trwy gemegion fydd yn cronni mewn bwyd neu facteria a firysau mewn dŵr gwastraff sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi.

Bydd lleihau effaith llygredd o ddŵr gwastraff yn cynnig nifer o fuddiannau ac yn helpu i gefnogi ystod eang o ddefnyddiau o ddŵr y mae cymdeithas yn eu gwerthfawrogi. Mae'r defnyddiau hyn yn cynnwys cyflenwad dŵr yfed, amaethyddiaeth (yn cynnwys medi pysgod cregyn masnachol), chwaraeon dŵr, pysgota, cadwraeth a buddiannau ehangach, fel twristiaeth ac ansawdd bywyd. Bydd mynd i'r afael â llygredd o ddŵr gwastraff yn sicrhau buddiannau ar gyfer nifer fawr o ardaloedd gwarchoddedig yn cynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, safleoedd Natura 2000 ac ardaloedd sensitif o dan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD). Mae hefyd o fudd i ddyfroedd morol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr, gweithredwyr a phobl ddylanwadol yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cyflwyno ac adolygu trwyddedau amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 i'r **diwydiant dŵr, gweithgynhyrchu a busnesau eraill ac i sectorau eraill** er mwyn amddiffyn yr amgylchedd rhag llygryddion fel cemegion, maetholion, bacteria, firysau, amonia a deunydd organig mewn gollyngiadau elifion.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn gweithio gyda'r **diwydiant dŵr** i ddatblygu strategaeth tymor hir ar gyfer carthffosiaeth er mwyn atal dirywiad mewn gollyngiadau a ganiateir (er enghraifft, gorlif carthffosiaeth cyfunol), sy'n digwydd o ganlyniad i bwysau fel newid hinsawdd, twf ac isadeiledd sy'n heneiddio; ac i ddatblygu strategaeth tymor hir er mwyn lleihau a chyfyngu ar y peryglon i'r amgylchedd dŵr o gamgysylltiadau carthffosiaeth (carthffosiaeth fudr wedi ei gam-gysylltu â dŵr wyneb).
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)** yn cyflwyno trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gollyngiadau bychain o garthffosiaeth mewn ardaloedd sensitif dynodedig. Mewn ardaloedd eraill, caiff gollyngiadau bychain o garthffosiaeth (yn cynnwys tanciau carthion) eu heithrio o'r angen am drwydded os gallant gyflawni nifer o griteria.

- **Bydd y llywodraeth (Asiantaeth yr Amgylchedd)** yn cynnal adolygiad o ardaloedd sy'n sensitif i ewtroffeiddio, yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD), ac yn gwneud argymhellion i Defra.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch)** yn gorfodi cyfyngiadau a gwaharddiadau ar y defnydd o gemegion penodol.
- **Bydd llywodraeth leol** yn ystyried effeithiau ar ansawdd dŵr wrth baratoi cynlluniau gofodol, penderfyniadau ar gynllunio gofodol, rheoli datblygiadau, isadeiledd ac adeiladau newydd.
- **Dylai pob sector** ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am fuddsoddiad cwmnïau dŵr yn Adran 3.3.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth ar Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd yn Adran 2 o [Ran 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy)

Gwybodaeth ategol

- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/)

Rheoli llygredd o drefi, dinasoedd a chlodiant

Mae dŵr glaw sy'n draenio o ffyrdd a phalmentydd yn cario llawer o lygryddion. Mae'r rhain yn cynnwys metelau, allyriadau cerbydau, silt, graean mân, bacteria o faw anifeiliaid ac olew. Mae problemau eraill yn codi o ganlyniad i lygredd o gartrefi a busnes, er enghraifft camddefnyddio'r rhwydwaith draenio. Gall llygredd fynd i mewn i garthffosydd dŵr wyneb sy'n gollwng i mewn i afonydd, aberoedd a dyfroedd arfordirol, gan beri niwed i anifeiliaid a phlanhigion.

Mae delio gyda llygredd o drefi, dinasoedd a chlodiant yn dasg gymhleth. Mae costau'r mesurau yn dueddol o fod yn uwch ac mae cyfrifoldeb am y broblem yn llai eglur. Mae pwerau cyfreithiol cyfredol wedi eu dylunio i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd penodol yn hytrach nag effeithiau bychain neu gronnol o nifer o wahanol ffynonellau. Fodd bynnag, mae nifer o ffyrdd y gellir mynd i'r afael â'r her. Mae buddiannau camau gweithredu'n cynnwys gwell gwytnwch i wrthsefyll llifogydd, ymaddasu i newid hinsawdd, cynnydd mewn bioamrywiaeth a chydlyniant cymdeithasol. Yn ogystal, gellir gwella ardaloedd gwarchoddedig, yn enwedig dyfroedd pysgod cregyn a dyfroedd ymdrochi penodol, pan gaiff adnoddau digonol eu targedu at broblem benodol.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd llywodraeth leol** yn defnyddio amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol a phwerau gorfodi'n unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Bil Cynllunio (Cymru) i atal neu stopio llygredd o ddatblygiadau, ffyrdd ac isadeiledd eraill.
- **Bydd llywodraeth leol** yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â phroblemau llygredd posibl trwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy i reoli dŵr wyneb.
- **Bydd llywodraeth leol** yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Adeiladu 1984 i gywiro gwaith peipiau dŵr gwastraff wedi eu cam-gysylltu, a phwerau niwsans statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i stopio llygredd dŵr o weithrediadau heb eu hawdurdodi, fel busnesau golchi ceir dros dro.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn defnyddio pwerau gwaith gwrthlygredd (yn cynnwys cyflwyno hysbysiadau) o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i atal neu lanhau llygredd ar raddfa fechan, er enghraifft sicrhau bod tanciau storio wedi eu bwndio neu atgyweirio camgysylltiadau.
- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill** yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol (er enghraifft, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010) er mwyn sicrhau y caiff cemegion eu rheoli'n gywir a bod draeniau dŵr wyneb yn cael eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw'n briodol.

Bydd gweithredwyr yn cymryd camau gweithredu, ble fo'n briodol:

- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (y diwydiant adeiladu)** yn defnyddio systemau draenio cynaliadwy i waredu silt ac i leihau cemegion eraill er mwyn atal llygredd mewn dŵr ffo.
- **Bydd llywodraeth leol** yn ystyried pwysau llygredd trefol gwasgaredig wrth gynllunio cynlluniau gofodol, penderfynu ar geisiadau cynllunio a dylunio ac adeiladu tiroedd, isadeiledd ac adeiladau sy'n berchen i'r awdurdod lleol. Dylai'r rhain ymgorffori cynlluniau draenio cynaliadwy a mesurau effeithlonrwydd dŵr, ble fo'n ymarferol ac yn fforddiadwy.

- **Bydd llywodraeth leol** yn ymgorffori isadeiledd gwyrdd a glas mewn cynlluniau adfywio, ble fo modd.
- **Bydd llywodraeth leol a diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill** yn lleihau effaith plaladdwyr trwy ddefnyddio contractwyr lladd chwyn cofrestredig 'Amenity Assured' o dan y Fenter Wirfoddol.

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd) a Highways England** yn gweithredu'r cytundeb memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n cwmpasu'r rhwydwaith ffyrdd strategol a chywirow arllwysfeydd risg uchel.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru) ac asiantaethau trefol a chlodiant (Network Rail)** yn gweithredu'n unol â thelerau memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n cwmpasu tir halogedig, gollwng dŵr a defnyddio plaladdwyr.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r diwydiant dŵr)** yn ymchwilio i ac yn delio â chamgysylltiadau, er enghraifft trwy grŵp Strategaeth Genedlaethol Camgysylltiadau ac yn unol â chynllun gweithredu llygredd gwasgaredig Defra a Chynllun Llygredd Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru.
- **Dylai pob sector** ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.
- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill, llywodraeth leol, mordwyaeth a'r cyhoedd** yn dilyn codau ymddygiad a chynlluniau rheoli arfordirol ac aberol anstatudol i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr mewn lleoliadau penodol.
- **Bydd llywodraeth leol** yn gweithio gyda **diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (Partneriaethau Menter Lleol), a chyrrff anllywodraethol** (partneriaethau dalgylch a Phartneriaethau Natur Lleol) i ddatblygu rhaglenni gwella ar y cyd.
- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (Partneriaethau Menter Lleol)** yn gweithio mewn partneriaeth gyda **phob sector** i helpu i glustnodi ble y dylid buddsoddi arian ddaw o Raglen Twf Ewrop er mwyn datblygu economïau lleol a chyfoethogi'r amgylchedd.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am gronfa amgylcheddol Highways England yn Adran 3.3.
- Gwybodaeth ategol**
- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/)

Newidiadau i lif a lefelau dŵr naturiol

Mae tynnu gormod o ddŵr o afonydd llanwol neu ddŵr croyw, camlesi, llynnoedd a dŵr daear yn difrodi'r amgylchedd. Gallai newidiadau i lif a lefelau dŵr naturiol effeithio ar rai safleoedd Natura 2000; yn enwedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n ddibynol ar ddŵr. Bydd gwella'r modd y caiff adnoddau dŵr eu rheoli'n sicrhau bod digon o ddŵr o ansawdd da ar gael ar gyfer amgylchedd dŵr iachach a chyflenwadau diogel o ddŵr ar gyfer pobl, busnesau ac amaethyddiaeth. Bydd hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd hamdden ac yn cynyddu gwerth amwynder amgylcheddau naturiol, gan arwain at fuddiannau iechyd ar gyfer pobl.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cyflwyno trwyddedau o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i reoleiddio faint o ddŵr gaiff ei dynnu o afonydd, llynnoedd, aberoedd a dŵr daear. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru'n adolygu cynaliadwydd trwyddedau tynnu dŵr am amser cyfyngedig wrth iddynt ddod i ben ac wrth i ddeiliaid y trwyddedau wneud cais am rai newydd. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru'n cymryd camau i gwtogi trwyddedau amser cyfyngedig sydd ddim yn gynaliadwy. Caiff trwyddedau newydd eu cyflwyno ar sail gynaliadwy, yn unol ag amcanion ardaloedd dyfrol.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn newid neu'n diddymu trwyddedau parhaol er mwyn amddiffyn yr amgylchedd rhag gwir ddifrod neu ddifrod posibl, yn cynnwys difrod difrifol o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn gweithio i ddod â nifer o weithgareddau tynnu dŵr, sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd, o dan adain y rheoliadau'n dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a ffurfio polisiau a deddfwriaethau'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys dihysbyddu dŵr, trosglwyddiadau dŵr i mewn i'r tir ar gyfer mordwyo a gweithgareddau dyfrio a eithriwyd yn y gorffennol. Mae'n bosibl y bydd angen cwtogi rhywfaint ar dyniadau dŵr sydd wedi eu heithrio ar hyn o bryd sy'n achosi difrod difrifol i'r amgylchedd. Gall hyn arwain at welliant mewn dŵr daear a llif dŵr mewn ardaloedd dyfrol a effeithiwyd.
- **Bydd pob sector** yn ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn cymryd camau gweithredu:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn clustnodi pwysau ar adnoddau dŵr oherwydd tyniadau dŵr ac yn adfer lefelau dŵr daear a llif dŵr cynaliadwy trwy newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr a newidiadau ffisegol i sianeli afonydd i wella'r llif. Bydd rhaid i drwyddedau newydd fod yn gynaliadwy ac atal effeithiau i'r dyfodol.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn rhoi'r rhaglen Adfer Tyniadau Dŵr Cynaliadwy (*Restoring Sustainable Abstraction, RSA*) ar waith. Mae'r rhaglen hon wedi clustnodi, ymchwilio ac mae bellach yn datrys risgiau neu broblemau amgylcheddol a achosir gan dyniadau dŵr trwyddedig sy'n anghynnaladwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu i gwtogi trwyddedau tynnu dŵr a ddynodwyd sy'n peri problem amgylcheddol o dan raglen RSA. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru'n anelu i gwblhau'r rhaglen erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd:

- **Bydd y diwydiant dŵr** yn cwblhau cynlluniau rheoli adnoddau dŵr statudol sy'n amlinellu sut y caiff y cyflenwad a'r galw am ddŵr ei reoli dros gyfnod o 25 mlynedd, ac yn gweithredu i adfer llif dŵr a dŵr daear cynaliadwy ble y cadarnhawyd bod effeithiau o ganlyniad i dynnu dŵr.
- **Bydd y diwydiant dŵr** yn cynhyrchu cynlluniau sychder er mwyn sicrhau y caiff cyflenwadau dŵr cyhoeddus eu cynnal tra'n lleihau effaith amgylcheddol sychder.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cynhyrchu strategaethau trwyddedu tyniadau dŵr er mwyn helpu i sicrhau agwedd gyson tuag at reoli adnoddau dŵr a tharo cydbwysedd rhwng anghenion defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn dirymu trwyddedau sydd heb eu defnyddio ble nad oes gan ddeiliad y drwydded angen rhesymol am y dŵr.
- **Bydd y diwydiant dŵr** yn cynnal treialon rheoli ymaddasol i bennu'r mesurau gorau ar gyfer gwella ardaloedd dyfrol a newidiwyd yn sylweddol ar gyfer cyflenwad dŵr.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cynhyrchu cynlluniau sychder sy'n amlinellu camau gweithredu'r asiantaeth i gynllunio ar gyfer, a rheoli sychder.

Bydd rheoleiddwyr, gweithredwyr, pobl ddylanwadol a rhai sy'n cynnal prosiectau'n sicrhau y defnyddir dŵr yn effeithlon:

- **Bydd pob sector** yn mabwysiadu neu'n annog mesurau effeithlonrwydd dŵr, yn cynnwys gwaith y diwydiant dŵr ar fesur, colledion, archwiliadau, darparu cynnyrch dŵr effeithlon, hybu effeithlonrwydd dŵr ac addysg.
- **Bydd llywodraeth leol** yn amlinellu polisiâu cynlluniau lleol sy'n mynnu bod cartrefi newydd yn cydymffurfio â'r safon effeithlonrwydd dŵr llymach o 110 litr y person y dydd, fel y disgrifir yn Rhan G o Atodlen 1, Rheoliadau Adeiladu 2010.
- **Bydd diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill** yn rhoi lefelau effeithlonrwydd dŵr mwy caeth ar waith, fel y cynigiwyd gan newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu.
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig** yn rheoli'r galw am ddŵr ac yn defnyddio dŵr mewn modd mwy effeithlon er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr cynaliadwy i'r dyfodol.
- **Bydd llywodraeth leol** yn comisiynu astudiaethau cylch dŵr i hysbysu penderfyniadau cynllunio gofodol ynghylch adnoddau dŵr lleol.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Ceir mwy o wybodaeth am fesurau cynladwyedd adnoddau dŵr a buddsoddiadau'r cwmnïau dŵr yn Adran 3.3.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am reoli tyniadau a llif dŵr yn Rhan 2: Trosolwg RBMP (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy)

Gwybodaeth ategol

- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://www.waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](http://www.waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/)

Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

Mae rhai anifeiliaid a phlanhigion estron yn oresgynnol a gallant gael effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol. Lle byddant yn arwain at fwy o erydiad bydd rhai planhigion, fel Jac y Neidiwr (*Himalayan balsam*), yn gallu cynyddu'r perygl o lifogydd. Gall eraill, fel cimwch afon America, wneud torlannau'n ansefydlog a bydd y mwyafrif ohonynt yn cael effaith negyddol ar ecoleg a gweithgareddau hamdden, fel pysgota a chwaraeon dŵr. Yn ogystal, mae cost sylweddol i reoli a gwaredu rhywogaethau goresgynnol yn ddiogel, fel clymog Japan ar safleoedd datblygu, a rheoli rhywogaethau fel cregyn gleision rhesog all dgu pibau, derbynfeydd dŵr a strwythurau eraill.

Mae'r arddull ar gyfer delio â rhywogaethau estron goresgynnol wedi ei amlinellu yn Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr (*GB Invasive Non-native Species Strategy*). Mae'r strategaeth yn anelu i leihau'r perygl y mae'r rhywogaethau estron goresgynnol yn eu bygwth, yn ogystal â lleihau eu heffeithiau negyddol. Mae'n mabwysiadu arddull hierarchaidd sy'n pwysleisio atal, yna darganfod yn fuan ac ymateb yn gyflym, ac yn olaf rheolaeth tymor hir.

Mae llawer o rywogaethau estron goresgynnol yn lledaenu'n gyflym ac, unwaith eu bod wedi ymsefydlu, mae eu rheoli'n aml yn afresymol o gostus neu'n dechnegol anymarferol ac, yn y pen draw, yn aflwyddiannus.

Y mesur mwyaf effeithiol, a lleiaf costus, yw lleihau'r nifer o rywogaethau newydd a gyflwynir ac arafu lledaeniad y rheini sy'n bresennol eisoes trwy ddefnyddio bioamrywiaeth dda (mesurau sy'n lleihau'r perygl o ledaenu afiechydon a phlanhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol) a hyrwyddo ymgyrchoedd 'Edrych, Golchi, Sychu' a 'Mynd at Wraidd y Mater'.

Gall ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000 fod yn agored i niwed gan rywogaethau estron goresgynnol penodol. Mae'n bosibl y bydd angen mesurau rheoli dwys, a chostus ar brydiau, i'w rheoli'n weithredol neu i'w dileu dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, ar safleoedd sydd wedi eu dynodi oherwydd eu cynefin gwlyptir arbennig, gall Jac y Neidiwr oruchafu a lleihau'r cynefin sydd ar gael ar gyfer rhywogaethau planhigion brodorol. Gall rheoli Jac y Neidiwr trwy ei dargedu'n ddwys a'i dynnu â llaw neu ei dorri'n ôl dros nifer o flynyddoedd leihau pwysau'r rhywogaeth yma ac atal dirywiad pellach y cynefin.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn defnyddio Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2015 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i reoli symudiad rhywogaethau estron goresgynnol. Fe wnaeth newid mewn deddfwriaeth, ddaeth i rym ym mis Ebrill 2014, gyflwyno gwaharddiad ar werthu 5 rhywogaeth o blanhigion sy'n peri perygl sylweddol, yn cynnwys briallen y dŵr (creeping water primrose, *ludwigia peploides*) a dail-ceiniog arnofiol (floating pennywort, *hydrocotyle ranunculoides*).
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig** yn ymwybodol o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac ni fyddant yn caniatáu i rywogaethau penodol i ddianc i'r gwyllt. Yng Nghymru, mae'r rhestr o anifeiliaid a phlanhigion gaiff eu hystyried o dan Atodlen 9 yn cael ei adolygu ac mae'n bosibl y bydd yn newid pan gaiff ei ymgorffori yn y bil arfaethedig, sef Bil yr Amgylchedd (Cymru).
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Y Sefydliad Rheoli Morol, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn defnyddio polisiau a geir mewn egin-gynlluniau morol a datganiadau polisi morol i gynorthwyo gyda rheoli a lliniaru effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol.

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau** yn gweithredu Rheoliad 1143/2014 yr Undeb Ewropeaidd ar Rywogaethau Estron Goresgynnol. Bydd rhoi'r rheoliad ar waith yn broses raddol a bydd yn digwydd trwy gydol oes y cynllun hwn.

Bydd rheoleiddwyr, gweithredwyr, pobl ddylanwadol a rhai sy'n cynnal prosiectau'n cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (yn cynnwys pysgota, cadwraeth a hamdden)** yn gweithredu strategaeth ddiwygiedig rhywogaethau estron goresgynnol Prydain Fawr, sy'n cynnwys asesiadau risg effaith rhywogaethau, cynlluniau gweithredu ac ymateb cyflym.
- **Bydd pob sector** yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu codau ymarfer er mwyn lleihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol.

Bydd rheoleiddwyr, gweithredwyr, pobl ddylanwadol a rhai sy'n cynnal prosiectau'n cymryd camau gweithredu:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (pysgota, cadwraeth a hamdden) a mordwyaeth** yn gweithredu ymatebion cyflym i ffrwyno a dileu mewnlifiadau newydd, ble fo'n ymarferol. Caiff y mesur hwn ei gynorthwyo gan Gytundebau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, fel y diwygiwyd gan Ddeddf Isadeiledd 2015.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol ar safleoedd gwarchoddedig dethol, fel bo'n briodol.
- **Gall pob sector** ffurfio Grwpiau Gweithredu Lleol i ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol a chynyddu ymwybyddiaeth.

Bydd rheoleiddwyr, gweithredwyr, pobl ddylanwadol a rhai sy'n cynnal prosiectau'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (yn cynnwys pysgota, cadwraeth a hamdden), llywodraeth leol a mordwyaeth** yn gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar ddefnyddwyr hamdden i arafu lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol trwy hyrwyddo'r camau 'Edrych, Golchi, Sychu'.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Defra a Llywodraeth Cymru) a phob sector** yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd am y perygl o drosglwyddo rhywogaethau estron ar ddamwain ac am ddulliau ataliol.
- **Bydd llywodraeth ganolog** yn helpu'r ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron i gydlynu systemau rhybuddio, cadw cofnodion rhywogaethau a chronfa ganolog ar gyfer gwybodaeth, yn cynnwys dulliau i'r cyhoedd gyflwyno cofnodion rhywogaethau ar-lein a gan ddefnyddio ffôn clyfar.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am reoli rhywogaethau estron goresgynnol yn Adran 2 o [Ran 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](#) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](#)

Gwybodaeth ategol

- Cewch hyd i Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr ar [we-ddalennau ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron Prydain Fawr \(www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=55\)](#).
- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](#)

Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig

Mae llygredd mewn ardaloedd gwledig yn codi'n sgîl effeithiau cyfunol nifer o ffynonellau, yn cynnwys amaethyddiaeth, ffyrdd, defnydd tir ar gyfer hamdden fel cyrsiau golff, a gweithgarwch coedwigaeth. Caiff ei achosi'n bennaf gan faetholion, halogyddion, cemegion fel plaladdwyr a gwaddod yn mynd i mewn i ardaloedd dyfrol o ganlyniad i weithgareddau rheoli tir.

Bydd mynd i'r afael â llygredd o ardaloedd gwledig yn helpu cymdeithas i elwa o gael amgylchedd dŵr iach. Bydd ffermwyr yn elwa trwy sicrhau y caiff pridd a maetholion eu cadw ar y tir yn hytrach na'u colli i ffosydd trwy ddŵr ffo. Bydd rheoli'r dŵr ffo hyn yn helpu i leihau llifogydd lleol, yn lleihau gwaddodiad mewn llynnoedd a harbyrau, yn gwella pysgodfeydd ac yn lleihau'r lefel o gemegion niweidiol fydd yn mynd i mewn i ardaloedd dyfrol. Bydd cwmnïau dŵr yn gwario llai o arian ar drin dŵr am ei liw, ac am halogiad plaladdwyr a nitradau. Yn ogystal, bydd lleihad mewn maetholion o fudd i ansawdd dŵr a chynefinoedd mewn aberoedd a dyfroedd arfordirol.

Bydd ystod eang o ardaloedd gwarchoddedig yn gweld buddiannau, yn cynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, ardaloedd dŵr yfed gwarchoddedig, safleoedd Natura 2000 ac ardaloedd agored i niwed gan faetholion sydd wedi eu dynodi'n ardaloedd agored i niwed gan nitradau.

Sut y rheolir y mater

Bydd rheoleiddwyr a gweithredwyr yn defnyddio a chymhwyso polisiau a deddfwriaethau perthnasol:

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn gwirio a sicrhau cydymffurfio â thrwyddedau amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 ac yn erbyn gofynion ystod eang o ddeddfwriaethau amgylcheddol.
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn cydymffurfio â thrwyddedau a gyflwynir o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae gweithgarwch a ganiateir yn cynnwys rhai gollyngiadau i ddŵr ddaear, chwalu gwastraff ar dir er budd amaethyddol, unedau moch a dofednod dros faint penodol ac adfer gwastraff amaethyddol mewn modd diogel.
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn cydymffurfio â mesurau'r rhaglen weithredu a geir yn Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2015 ym mhob ardal agored i niwed gan nitradau.
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 2010 (SSAFO).
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn sicrhau nad yw sylweddau llygru'n bresennol mewn lleoliad ble y maent wedi, neu y maent yn debygol o, fynd i mewn i ddyfroedd a reolir er mwyn osgoi camau gorfodi o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Farming Advice Service)** yn cynghori ffermwyr am ofynion cyffredinol trawsgydymffurfio a rheoliadau sy'n ofynnol o dan y WFD.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn darparu cyngor ar lefel safle am ofynion penodol rheoliadau.

- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn darparu cyngor ar ofynion penodol rheoliadau sy'n ymwneud â safleoedd dynodedig, a gallant rwystro neu atal gweithgareddau allai beri difrod.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn trosglwyddo cyngor a hyfforddiant i ffermwyr mewn rhai dalgylchoedd sy'n flaenoriaeth trwy gynlluniau fel Ffermio Sensitif i'r Dalgylch a Glastir.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn adolygu effeithlonrwydd mesurau mewn dalgylchoedd a, ble fo angen digonol, yn ystyried ble y dylid cynnig gweithredu pellach.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (y Comisiwn Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU, arddull y llywodraeth tuag at goedwigaeth gynaliadwy.
- **Bydd llywodraeth leol** yn defnyddio amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol a phwerau gorfodi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i rwystro neu atal llygredd o ddatblygiadau gwledig, ffyrdd ac isadeiledd gwledig arall.
- **Bydd llywodraeth leol** yn ystyried effaith llygredd wrth baratoi cynlluniau gofodol, cynlluniau gwastraff a mwynau a llunio penderfyniadau ar reoli datblygiadau, adeiladau gwledig newydd ac isadeiledd gwledig.

Bydd gweithredwyr, pobl ddylanwadol a rhai sy'n cynnal prosiectau'n cymryd camau gweithredu:

- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn cyflawni gofynion trawsgydymffurfio'r cynllun Taliad Sylfaenol a ariennir gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- **Bydd amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig (busnesau amaethyddol)** yn cyfranogi'n wirfoddol yng nghynlluniau Stiwardiaeth Cefn Gwlad a Chynhyrchiant Cefn Gwlad er mwyn atal dirywiad, gwella ansawdd dŵr a lleihau perygl llifogydd.
- **Bydd amaethyddiaeth, diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill** yn cyfranogi mewn dulliau dan arweiniad y sector, yn cynnwys cynlluniau gwarant fferm ac ymgyrch *Campaign for the Farmed Environment*.
- **Bydd y diwydiant dŵr a rheoli tir gwledig** yn gweithio ar y cyd mewn parthau diogelu dŵr yfed i leihau'r angen am drin dŵr o ganlyniad i faetholion neu blaladdwyr, er mwyn cydymffurfio â safonau dŵr yfed.
- **Bydd y llywodraeth ac asiantaethau (y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn defnyddio mapio cyfleoedd i glustnodi a hybu lleoliadau ble y gallai creu coetiroedd sicrhau buddiannau niferus ar gyfer yr amgylchedd.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn Adran 3.3.

Gwybodaeth a geir mewn manau eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am reoli llygredd o ardaloedd gwledig yn Adran 2 o [Ran 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](#) ac yn [Atodiad Trosolwg Cynllunio Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy\)](#)

Gwybodaeth ategol

- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/\)](#)

Rheoli llygredd o ddŵr mwyngloddiau

Mae mwyngloddio wedi digwydd ar draws Cymru a Lloegr ers cannoedd o flynyddoedd ac mae wedi gadael gwaddol o lygredd o domennydd gwastraff a thwnelau draenio dŵr mwyngloddiau segur. Mae llygryddion mewn dŵr mwyngloddiau sy'n draenio o byllau glo a mwyngloddiau metel segur ac sy'n diferu o sbwriel mwyngloddio, yn llygru dŵr ac yn niweidio bywyd dyfrol, yn cynnwys pysgod a phryfetach.

Er nad yw llygredd o ddŵr mwyngloddiau'n broblem rheoli dŵr sylweddol ar draws ardal basn Afon Hafren i gyd, mae'n fater lleol o bwys mawr mewn rhai mannau. Un enghraifft yw dalgylch Cymoedd y De Ddwyrain.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Glo yn rhedeg 70 o gynlluniau triniaeth mewn pyllau glo segur gan ddefnyddio ariannu gan Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, yn cynnwys 3 yn ardal basn Afon Hafren. Mae rhaid i'r cynlluniau hyn barhau i weithredu er mwyn atal dirywiad mewn afonydd a dŵr daear. Ers 1994, mae'r Awdurdod Glo wedi glanhau a gwarchod dros 240 cilometr o afonydd, wedi amddiffyn dŵr daear y cyflenwad dŵr yfed, a bob blwyddyn bydd yn atal dros 3,000 o dunelli o haearn a halogyddion eraill rhag achosi llygredd.

Gwybodaeth ategol

- Mae mesurau cenedlaethol Cymru i'w gweld ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/) (<http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/>)

3.3 Prif raglenni o fesurau ar gyfer canlyniadau 2021

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r prif raglenni o fesurau, wedi'u grwpio yn ôl ffynonellau cyllid, a fydd yn gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021. Mae canlyniadau'r mesurau hyn yn dod o fewn 2 gategori:

- mesurau y mae'r gwelliannau a ragwelir yn statws ardaloedd dyfrol erbyn 2021 yn seiliedig arnynt
- mesurau a fydd yn digwydd erbyn 2021 ac yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol, ond nad oes digon o hyder (mewn lleoliad na graddfa'r gwelliant) i ragweld canlyniadau penodol

Y prif raglenni yw:

- rhaglen buddsoddi'r cwmnïau dŵr
- buddsoddiad gwledig
- Cronfa Amgylchedd Highways England
- rhaglen buddsoddi rheoli perygl llifogydd
- gwelliannau a ariennir gan y llywodraeth ar lefel dalgylch yn Lloegr
- gwelliannau a ariennir ar lefel dalgylch yng Nghymru
- mesurau cynaliadwyedd adnoddau dŵr

Gwybodaeth ategol

- Gallwch ddod o hyd i restr o'r mesurau a ddefnyddir i ragweld gwelliannau mewn statws erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn ardaloedd dyfrol penodol, a chrynodeb o'r mesurau y disgwylir iddynt arwain at ganlyniadau amgylcheddol ychwanegol ar gyfer 2021 ar [wasanaeth ShareFile Asiantaeth yr Amgylchedd](https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9) (<https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9>)
- Gellir canfod mesurau cenedlaethol a lleol ar gyfer Cymru ar [Water Watch Wales](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/) (<http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/>)

Rhaglen buddsoddi'r cwmnïau dŵr

Mae Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y cwmnïau dŵr yn adolygu cynlluniau buddsoddi'r diwydiant dŵr bob 5 mlynedd. Fel rhan o'r broses hon, a elwir yn adolygiad prisiau, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, Ofwat ac eraill i wneud yn siŵr bod buddsoddiad yn gwarchod yr amgylchedd dŵr, yn cynyddu gwytnwch ac yn sicrhau buddiannau hirdymor i'r gymdeithas a'r economi. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r rhwymedigaethau amgylcheddol, gan gynnwys gwaith sy'n ofynnol i atal dirywiad a chyflawni amcanion statws ardal a ddiogelir a statws ardaloedd dyfrol.

Ar draws Cymru a Lloegr, bydd cwmnïau dŵr yn buddsoddi £3.5 biliwn mewn gwelliannau amgylcheddol rhwng 2015 a 2020.

Bydd buddsoddiad sylweddol yn mynd tuag at ymdrin ag effeithiau gweithfeydd trin carthion a gollyngiadau o'r rhwydwaith carthffosydd yn y tarddle. Bydd hyn yn lleihau llygryddion megis amonia a maetholion sy'n tarfu ar gydbwysedd ecolegol naturiol ardaloedd dyfrol ac yn achosi twf gormodol o lystyfiant ac algâu.

Bydd buddsoddiad pellach yn delio â thynnu tynnu dŵr a phwysau llif. Mae hyn yn cynnwys lleihau faint o ddŵr y gellir ei gymryd neu fesurau i wella cynefinoedd i wneud iawn am ddifrod a achosir gan dynnu dŵr.

Mae cynlluniau gwella cynefinoedd yn cael eu cynllunio i leihau effaith y newidiadau ffisegol a achosir gan weithrediadau cwmnïau dŵr a chynllunnir gweithredu i ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol ar dir cwmnïau dŵr. Bydd mesurau pellach yn sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau Llyswennod, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gymeriant dŵr gael ei sgrinio er mwyn atal llyswennod a physgod eraill rhag cael eu tynnu allan o'r afon i mewn i waith trin dŵr yfed.

Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru yn rhan annatod o gynlluniau'r cwmnïau dŵr ac yn rhan hanfodol o asesu opsiynau cynlluniau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr, lle mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gynllunio hyd at 25 mlynedd o flaen llaw i wneud yn siŵr bod digon o ddŵr i gwrdd â galwadau yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau yn atebion peirianeg sefydledig y profwyd eu bod yn effeithiol. Mae newidiadau yn cael eu sicrhau drwy newidiadau i drwyddedau amgylcheddol.

Mae rhai cynlluniau i wella dalgyloedd a chynefinoedd nad ydynt wedi'u sefydlu cystal, gan gynnwys mesurau i leihau llygredd plaladdwyr. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar newid ymddygiad gwirfoddol sy'n effeithio ar arferion amaethyddol. Gall y rhain fod yn llai effeithiol o gymharu ag atebion peirianyddol.

Yn Lloegr, mae 'dull cyfran deg' yn cael ei gymhwyso at y dewis o fesurau, sy'n tybio bod gostyngiad cyfrannol mewn llwyth llygru o bob un o'r sectorau sy'n cyfrannu. Er enghraifft, wrth nodi mesurau ar gyfer ffosforws mewn dalgyloch, cyfrifwyd y swm yn dod o waith trin carthion a'r swm o ffynonellau eraill, fel llygredd gwasgaredig gwledig. Os oedd y gwaith carthion yn gyfrifol am 70% o'r llwyth ffosforws, yna mae'r mesur a nodwyd i fod i gyflawni 70% o'r gostyngiad angenrheidiol mewn ffosforws. Yn y sefyllfa hon mae gwella'r statws yn dibynnu ar sectorau eraill yn rhoi mesurau ychwanegol ar waith.

Yng Nghymru, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys mesurau lle mae cysylltiad wedi'i brofi a ddangosir gan ddata (ac a gefnogir gan foddelu), rhwng gweithgaredd cwmni dŵr a methiant i fodloni safonau gofynnol. Bydd hyn yn cynnwys gosod offer tynnu ffosffad mewn gweithfeydd trin carthion. Mae mesurau hefyd yn cael eu cyflwyno i sicrhau nad yw'r amgylchedd sy'n derbyn yn dirywio o ganlyniad i ddatblygiad sy'n deillio o gynnydd mewn mwy o ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff.

Bydd buddsoddiad cwmnïau dŵr yn cyfrannu'n uniongyrchol at welliannau a ragwelir o ran statws erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn ardaloedd dyfrol penodol. Bydd cyfran

fawr o hyn yn cael ei gyflawni drwy osod offer tynnu ffosffad mewn gweithfeydd trin carthion. Yn ogystal, bydd mesurau i leihau faint o ddŵr a gymerir allan o'r amgylchedd ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus yn sicrhau bod digon o ddŵr ar ôl mewn afonydd a llynnoedd i gynnal statws ecolegol da. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr cwmnïau.

Bydd amrywiaeth eang o fesurau yn sicrhau canlyniadau ychwanegol ar gyfer yr amgylchedd, ond nid ydynt yn gysylltiedig â gwelliannau penodol mewn statws elfennau erbyn 2021 am nad oes digon o hyder am raddfa'r gwelliant. Mae hyn yn cynnwys mesurau ar gyfer llwybrau llyswennod, mesurau i warchod dyfroedd yfed a gwella dyfroedd ymdrochi a mesurau i wella cynefinoedd afonydd a chyfundrefn llifo lle caiff ei heffeithio gan Gronni ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus.

Mae cwmnïau dŵr hefyd yn buddsoddi yn y Rhaglen Ymchwilio i Gemegion, astudiaeth gwerth miliynau o bunnoedd i ddeall yn well beth yw effeithiau cemegion mewn carthion wedi'u trin ac i dreialu technolegau trin newydd a mesurau ar gyfer dalgylchoedd i leihau'r effeithiau hyn. Bydd y canlyniadau o'r Rhaglen Ymchwilio i Gemegion yn cael eu defnyddio i weithredu mesurau i leihau effeithiau cemegion sy'n cael eu rhyddhau mewn carthion yn y dyfodol.

Enghraifft o'r mesurau hyn yn ardal basn afon Hafren

Ansawdd dŵr

Mae dalgylch afon Leadon, a leolir yn Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw, yn rhan o ddalgylch rheoli ehangach Dyffryn Hafren. Mae afon Leadon yn ymuno ag afon Hafren yn Over, ger Caerloyw Un o'r elfennau sy'n cyfrannu at beidio â chyflawni statws da yw lefelau uchel o ffosfforws. Er ei fod yn ddalgylch gwledig yn bennaf, canfuwyd mai'r rheswm dros y lefelau uwch yw cyfuniad o lygredd gwasgaredig gwledig a llygredd yn y tarddle.

Ar gyfer llygredd yn y tarddle, mae Severn Trent Water yn bwriadu cwtogi ar lefelau maetholion yn yr arllwysiadau o 5 o weithfeydd carthion o fewn y dalgylch. Bydd y cynlluniau hyn gyda'i gilydd yn cael gwared ar y rhan fwyaf o gyfran deg gyfan y cwmni dŵr o lwyth ffosfforws. Mae Severn Trent Water wedi penderfynu gweithredu yn ôl dalgylch, i sicrhau'r gwelliannau amgylcheddol gorau sydd eu hangen wrth y blaenddyfroedd ac i lawr yr afon drwy'r dalgylch. Mae'r dull hwn o weithredu o'r 'blaenddyfroedd i'r aber' yn sicrhau hefyd bod gwelliannau yn rhannau uchaf y dalgylch yn bwydo i lawr i'r rhannau isaf, gan sicrhau'r budd amgylcheddol gorau a chwtogi ar faint rhaglenni gwella yn y dyfodol.

Adnoddau dŵr

Yn Sir Amwythig, Swydd Gaerwrangon a Swydd Gaerloyw mae Severn Trent Water ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymchwilio a yw tynnu dŵr ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus yn cyfrannu at y ffaith nad yw ardaloedd dyfrol yn cyflawni statws da. Mae canlyniad yr ymchwiliadau hyn wedi arwain at nodi atebion i wella 5 o gyrff dŵr ac 1 SoDdGA lle dangoswyd bod tynnu dŵr yn cael effaith. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfuniad o fesurau fel gwaith gwella cynefinoedd, ychwanegu at y llif a symud y gwaith o dynnu dŵr daear yn y rhannau uchaf ar hyn o bryd i leoliadau mwy cynaliadwy.

Buddsoddiad Gwledig

Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn Lloegr

Yn Lloegr, mae Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn gynllun newydd sy'n agored i bob ffermwr cymwys, perchnogion coetiroedd, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill trwy broses ymgeisio gystadleuol. Mae'n hollol wirfoddol ac yn rhan o fuddsoddiad ehangach £3.5 biliwn yn Lloegr o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar gyfer 2016-2020. Bydd yn cyfrannu £900 miliwn o arian newydd i wella'r amgylchedd naturiol, yn arbennig amrywiaeth y bywyd gwylt ac ansawdd y dŵr. O'r arian hwn, bydd tua £400 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros gyfnod o 5 mlynedd i wella ansawdd dŵr a chynyddu gwytnwch rhag llifogydd.

Erbyn 2020, disgwylir y gallai 30% i 40% o gefn gwlad Lloegr fod yn rhan o gytundeb Stiwardiaeth Cefn Gwlad. Mae Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn cefnogi'r gwaith o weithredu mesurau sy'n ychwanegol at ofynion cyfreithiol ac arferion da. Bydd yn ymdrin â rheoli pridd ac yn lleihau ac yn cwtogi ar effaith maetholion, gwaddodion a halogi ysgarthol. Bydd hyn yn lleihau effaith ewtroffigedd ac o fudd i ddyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn a dŵr yfed. Cyflawnir hyn drwy fesurau sy'n perthyn i'r grwpiau a ganlyn:

- gwell rheolaeth maes, gan gynnwys gwaharddiad tymhorol ar dda byw, cynydau gorchudd gaeaf, lleiniau sy'n gweithredu fel clustogfeydd a stribedi rheoli torlannol ger cyrsiau dŵr a llai o faetholion yn cael eu chwalu o wrteithiau
- newid defnydd tir, gan gynnwys creu coetir a thir gwlyb neu drosi tir â i laswelltir sy'n gofyn am lai o wrtaith
- grantiau cyfalaf ar gyfer dŵr a choetir, gan gynnwys trapiau gwaddod, ffensio cyrsiau dŵr a phlannu coed
- ail-naturioli afonydd ac amddiffynfeydd arfordir, gan gynnwys gwneud lle ar gyfer dŵr ac adlinio'r arfordir

Bydd Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn cefnogi gwytnwch i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy blannu coed wrth ymyl afonydd a nentydd, a allai leihau tymheredd yr afon a'r perygl i bysgodfeydd eogiaid. Bydd hefyd yn lleihau'r gwaddod mewn afonydd, gan sicrhau bod afonydd yn gallu storio mwy o ddŵr llifogydd yn well.

Ar eu pen eu hunain gallai'r mesurau hyn fod yn effeithiol ar raddfa fechan ond mae angen i nifer o reolwyr tir gymryd camau ar draws y dalgylch cyfan er mwyn i'r mesurau fod yn wirioneddol effeithiol. O ganlyniad, nid yw gwelliannau i'r amgylchedd gan y cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn gysylltiedig â gwelliannau penodol mewn statws elfen ardal ddyfrol erbyn 2021. Mae'r mesurau yn wirfoddol, gyda'r cytundebau cyntaf yn dechrau ym mis Ionawr 2016.

Mae natur unigol dalgylchoedd gan gynnwys priddoedd, topograffi a glawiad yn ei gwneud yn anodd mesur manteision y mesurau hyn.

Disgwylir i Stiwardiaeth Cefn Gwlad gyflawni canlyniadau amgylcheddol ychwanegol ar gyfer 2021. Mae ymchwil rhagarweiniol yn awgrymu ar gyfer maetholion a gwaddodion y gallai fod yn darparu gwelliannau elfennol o tua 2% - 10% o'r sefyllfa bresennol lle cefnogir y mesurau gyda chyngor. Mewn rhai lleoliadau ar wahân gallai gwelliant o hyd at 18% gael ei gyflawni, ond bydd yr union leoliadau yn dibynnu ar y nifer o fesurau a gyflwynir gan ffermwyr a'r cyngor ategol a ddarperir. Bwriedir gwneud mwy o ymchwil a fydd yn helpu i werthuso manteision tebygol Stiwardiaeth Cefn Gwlad ar gyfer dŵr.

Nid yw'n bosibl disgrifio manylion y cynlluniau nac union leoliad y buddsoddiad eto, ond rhagwelir y bydd gwelliannau yn digwydd yn rhan Lloegr o ardal basn afon Hafren.

Glastir yng Nghymru

Glastir yw cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y lefel Mynediad sylfaenol, y lefel Uwch, Tiroedd Comin ac Organig. Mae hefyd yn cynnwys adfer, creu a rheoli coetiroedd. Maent yn gynlluniau cwbl wirfoddol ac yn ffurfio rhan fawr o fuddsoddiad ehangach yng Nghymru o dan Gynllun Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 i 2020. Amcanion Glastir yw sicrhau canlyniadau amgylcheddol buddiol drwy:

- reoli priddoedd i helpu i warchod stociau carbon a lleihau erydiad pridd
- gwella ansawdd dŵr a lleihau dŵr ffo
- rheoli dŵr er mwyn helpu i leihau peryglon llifogydd
- gwarchod a gwella bywyd gwylt a bioamrywiaeth
- rheoli a gwarchod tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol
- creu cyfleoedd newydd i wella mynediad a deall cefn gwlad

Mae Glastir yn cefnogi mesurau sy'n ychwanegol at ofynion cyfreithiol, trawsgydymffurfio ac arferion ffermio arferol.

Mae Glastir Uwch yn cefnogi gwaith amgylcheddol wedi'i dargedu ar fannau penodol sydd yn y sefyllfa orau i fodloni amcanion y cynllun. Mae datganiadau o ddiddordeb am gontract Glastir Uwch, a gyflwynir gan ymgeiswyr, yn cael eu sgorio ar allu'r daliad arbennig hwnnw i fodloni'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni. Caiff hyn ei nodi drwy fesur lle mae darn o dir a gynhwysir yn y datganiad o ddiddordeb yn cyfateb gyda chyfres o haenau system gwybodaeth ddaearyddol (GIS), lle bynnag y maent yn digwydd drwy Gymru gyfan. Mae'r haenau GIS hyn yn rhoi gwybodaeth am le y gall amcanion penodol Glastir gael eu diwallu orau. Mae'r amcanion penodol yn cael eu blaenoriaethu o fewn pob haen GIS, ond gall pwysigrwydd cymharol pob haen gael ei addasu, drwy ddefnyddio ffactorau pwysoli, er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau mwyaf yn cael eu trin yn gyntaf.

Ar gyfer ansawdd dŵr, mae'r haen GIS perthnasol yn nodi'r meysydd hynny lle roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyderus yn ei dystiolaeth fod arferion rheoli tir yn ffactorau sy'n cyfrannu at fethu safonau ansawdd dŵr a ddiffiniwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. O fewn y meysydd blaenoriaeth hyn, defnyddir Glastir Uwch i ymdrin â rheoli pridd a ffyrdd o leihau effaith maetholion, gwaddodion a llygredd bacteria ysgarthol drwy ddarparu cynlluniau rheoli dŵr ar gyfer pob daliad. Mae'r cynlluniau yn cael eu defnyddio hefyd i helpu i ddarparu'r dewisiadau rheoli mwyaf priodol a gwaith cyfalaf i gael y canlyniad gorau ar gyfer blaenoriaethau ansawdd dŵr drwy Glastir.

Hyd yn hyn, mae gan Glastir Uwch 11,000ha o reolaeth wedi'i dargedu i ddarparu canlyniadau buddiol ar gyfer amcanion ansawdd dŵr ar draws Cymru gyfan.

Mae Coetiroedd Glastir yn cael eu seilio ar gynllun rheoli, a luniwyd yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, sef y safon cyfeirio ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU. Mae rheoli ac adfer coedwigoedd a thir coediog yn gynaliadwy, ynghyd â chreu coetiroedd a choedwigoedd newydd a gynlluniwyd yn dda, yn hanfodol i sicrhau cyflenwad o ddŵr ffres o ansawdd da, i ddarparu diogelwch rhag peryglon naturiol megis llifogydd neu erydiad pridd, ac i warchod anghenion rhywogaethau dyfrol.

Cronfa Amgylchedd Highways England

Highways England yw'r cwmni llywodraeth sy'n rheoli traffyrdd a ffyrdd A mawr. Mae'n rheoli tua 6,500 o filltiroedd o gefnffyrdd sy'n darparu ar gyfer 33% o'r holl deithio ar y ffyrdd a 50% o'r teithio gan lorïau. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd cronfa amgylchedd Highways England yn buddsoddi £300 miliwn yn y rhwydwaith ffyrdd strategol bresennol ar gyfer gwelliannau amgylcheddol. Bydd cyfran o hyn yn ymdrin â dŵr ffo o briffyrdd.

Mae dŵr ffo o briffyrdd yn wastraff sy'n casglu ar ffyrdd sy'n cynnwys silt a graean wedi'u cymysgu â halogion, gan gynnwys metelau o badiâu brecio ac olew o beiriannau ac allyriadau cerbydau. Yn ystod stormydd mae hwn yn cael ei olchi i ffwrdd ar y ffordd ac yn gallu cyrraedd afonydd, llynnoedd neu ddŵr daear heb gael eu trin. Gall y metelau, y maetholion a'r gwaddodion niweidio ecoleg yr amgylchedd dŵr. Mae hyn yn cael ei waethygu gan effeithiau newidiadau ffisegol sy'n ofynnol gan y rhwydwaith ffyrdd, megis pontydd a cheuffosydd.

Mae Highways England yn cymryd ymagwedd seiliedig ar risg i benderfynu sut a lle i fuddsoddi, gan ddefnyddio modelu sy'n edrych ar ffactorau gan gynnwys hyd y ffyrdd wedi'u draenio ac amodau hinsoddol. Ni all effaith wirioneddol mesur ar yr ardal ddyfrol sy'n ei dderbyn gael ei ragfynegi'n gyfan gwbl, er bod y technegau safonol yn gymharol ddibynadwy ac wedi eu deall yn dda.

Bydd arllwysfeydd yn gyffredinol yn cael eu trin gyda systemau draenio cynaliadwy (SuDS), sy'n derm am ystod o fesurau gan y rhai sy'n gallu trapio llygryddion ar ochr y ffordd sy'n amrywio o bant (ffos laswelltog fas) i byllau cydbwyso mawr sy'n rheoleiddio maint llif yn ogystal â chaniatáu i lygryddion setlo. I ymdrin â phwysau addasu ffisegol, gosodir technegau fel llwybrau pysgod a llyswennod i ganiatáu pysgod i fudo.

Mae SuDS yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn weddol gan eu bod yn defnyddio prosesau naturiol ac yn ymdopi'n dda gydag amrywiadau, er y gallai sychder maith gyfyngu ar eu heffeithiolrwydd. Gallant gyflawni ystod o fuddion; pan ddefnyddir nhw ar y rhwydwaith ffyrdd strategol hwn mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i ansawdd dŵr, lleihau risg llifogydd ac argaeledd dŵr.

Nid yw gwelliannau i'r amgylchedd o raglen fuddsoddi Highways England wedi'u cysylltu â gwelliannau penodol mewn statws elfennau ardaloedd dyfrol erbyn 2021. Nid yw Highways England wedi cyhoeddi lleoliad eu buddsoddiad eto felly ni ellir rhagweld lle bydd gwelliannau mewn lleoliadau penodol yn cael eu gwneud. Disgwylir manylion pellach yn ystod 2016.

Bydd gweithredu'r rhaglen yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol ychwanegol ar gyfer 2021. Bydd y pwysau o du llwythi gwaddodion a chemegol yn cael ei leihau yn fawr a bydd gostyngiadau mewn metelau a maetholion ochr yn ochr â gwelliannau mewn lefelau ocsigen toddedig. Bydd llwybrau llyswennod ar gwlfery yn caniatáu iddynt fudo i fyny'r afon gan arwain at boblogaethau llyswennod sy'n fwy cynaliadwy.

Nid yw'n bosibl disgrifio manylion y cynlluniau nac union lleoliad y buddsoddiad eto, ond rhagwelir gwelliannau yn rhan Lloegr o ardal basn afon Hafren erbyn 2021.

Buddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a rhaglenni buddsoddi cyfalaf Rheoli Llifogydd a Risg Erydu Arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at leihau'r risgiau o lifogydd ac erydiad i gartrefi pobl a'r economi dros y 6 mlynedd nesaf tan 2021. Bydd prosiectau yn canolbwyntio ar ddiogelu pobl ac osgoi colled economaidd arall (gan gynnwys busnesau ffermio). Gallai rhai gyfrannu hefyd tuag at wella statws yr ardaloedd dyfrol, diogelu safleoedd bywyd gwyllt gwerthfawr a chreu cynefinoedd newydd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ddefnydd cyfreithlon o lawer o ardaloedd dyfrol ond mewn rhai achosion mae wedi arwain at addasiad sylweddol a newidiadau mewn hydromorffoleg. Mae gweithgareddau i wella trawsgludiad ardaloedd dyfrol a lleihau'r perygl o lifogydd, fel adeiladu ac atgyfnerthu argloddiau, newid cwrs sianel a rheoli llystyfiant yn aml yn cael effaith negyddol ar gyflwr ardaloedd dyfrol.

Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yn anelu at leihau effaith y gweithgareddau hyn, lle bo modd, gan weithio gyda phrosesau naturiol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mesurau rheoli llifogydd naturiol i arafu, storio a hidlo dŵr llifogydd. Bydd hyn yn cyflawni cynlluniau rheoli perygl llifogydd mwy cynaliadwy, yn aml gyda manteision amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol sylweddol. Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio ynghyd ag amddiffynfeydd caled a adeiladwyd yn draddodiadol i gynyddu gwytnwch cymunedau i ddigwyddiadau eithafol, sef llifogydd a sychder.

Wrth nodi a dylunio cynlluniau cymerir effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis mwy o law yn y gaeaf, stormydd glaw yn fwy dwys a chynnydd yn lefel y môr i ystyriaeth.

Bydd diwallu rhwymedigaethau statudol, gwella'r amgylchedd naturiol a lliniaru newid yn yr hinsawdd yn cael eu cyflawni gyda'i gilydd ar yr un pryd â lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol (e.e., trwy reoli llifogydd naturiol). Mae cyflawni canlyniadau amgylcheddol yn rhan annatod o reoli llifogydd a risg arfordirol, er enghraifft, lle bo hynny'n bosibl wrth wella amddiffynfeydd chwilir am gyfleoedd i leihau unrhyw rwystrau i lwybrau llyswennod hefyd.

Nid yw gwelliannau i'r amgylchedd sy'n codi o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yn gysylltiedig â gwelliannau a ragwelir mewn statws erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn ardaloedd dyfrol penodol oherwydd nad oes digon o hyder yng ngraddfa'r gwelliant nac yn union leoliad y buddsoddiad.

Enghraifft o'r mesurau hyn yn ardal basn afon Hafren

Arafu'r Llif - afonydd Sir Amwythig

Mae afonydd Sir Amwythig wedi newid yn ddramatig o ran cymeriad dros y blynyddoedd oherwydd dylanwad newidiadau rheoli tir yn yr ucheldiroedd a'r dyffrynnoedd is. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau ymateb cyflymach i ddigwyddiadau o law, cyflymder llif uchel a mwy o berygl llifogydd i gymunedau gwledig; llai o storio dŵr daear yn arwain at lif is yn ystod yr haf; colled helaeth o gynefinoedd y glannau a gwelyau graean naturiol sy'n hanfodol i lawer o rywogaethau pwysig.

Gan ddefnyddio egwyddorion coetiroedd ar gyfer dŵr a systemau draenio cynaliadwy gwledig y nod yw gweithio gyda phartneriaid arweiniol, cymunedau lleol a pherchnogion tir i nodi cyfleoedd i weithredu prosiectau rheoli tir ar raddfa fach, gan gynnwys plannu coetir, sy'n dangos y manteision o weithio gyda phrosesau naturiol i adfer amgylcheddau afonydd cynaliadwy. Bydd y prosiectau yn cyfrannu at leihau perygl llifogydd, gwella ansawdd dŵr, lleihau erydiad /silt a gwella cynefinoedd glan afon, a chynyddu storio dŵr daear er mwyn gwella llif isel yn ystod yr haf.

Gwelliannau a ariennir gan y llywodraeth ar lefel dalgylch yn Lloegr

Fel rhan o'r ymrwymiad i'r dull sy'n seiliedig ar ddalgylch, mae Defra wedi sicrhau bod £10.1 miliwn ar gael yn ystod 2015-2016 ar gyfer gweithredu gwirfoddol i wella'r amgylchedd dŵr drwy'r Gronfa Gweithredu Partneriaeth Dalgylchoedd (CPAF) a Rhaglen Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn buddsoddi £4.64 miliwn drwy ei Raglen Amgylcheddol, gyda mwy na 50% o hyn yn benodol ar gyfer prosiectau a arweinir gan bartneriaid.

Bydd CPAF yn buddsoddi £5.1 miliwn yn 2015-2016. Mae £1.3 o hyn yn cefnogi rôl cefnogwyr dalgylchoedd, gyda'r gweddill yn mynd at brosiectau a gynhelir gan grwpiau gwirfoddol. O blith cyllid y CPAF a'r Rhaglen Amgylcheddol, defnyddir o leiaf £2 filiwn ar gyfer ymdrin â materion llygredd trefol.

Mae amrywiaeth eang o fesurau yn cael eu hariannu ar lefel dalgylch. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cynghori a rhai sy'n seiliedig ar weithredu i leihau effaith llygredd o ardaloedd gwledig a threfol ynghyd â mesurau gwella cynefinoedd i gynyddu bioamrywiaeth.

Bydd Natural England yn parhau i fuddsoddi mewn ardaloedd gwarchoddedig. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu a, lle bo angen, gwella cyflwr safleoedd Natura 2000 gan ddefnyddio mesurau fel adfer afonydd, adfer llynnoedd, llygredd gwasgaredig, rhywogaethau ymledol dŵr croyw ac adfer cynefinoedd ar safleoedd gwlyptir.

Mae effeithiolrwydd y mesurau o fewn y rhaglen hon yn amrywio. Mae mesurau fel cael gwared ar rwystrau i bysgod yn mudo yn atebion peirianeg sefydledig ac maent yn effeithiol. Ond mae rhai cynlluniau gwella dalgylchoedd a chynefinoedd nad ydynt wedi'u sefydlu cystal, gan gynnwys mesurau i leihau llygredd plaladdwyr neu i ymgymryd â gwelliannau cynefin afonydd ehangach. Mae rhai mesurau yn dibynnu ar newid ymddygiad mewn arfer amaethyddol, felly gallent fod yn llai effeithiol o gymharu ag atebion peirianyddol.

Mae angen i brosiectau fod yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan berfformio o dan amrywiaeth o amodau a chefnogi iechyd tymor hir y dalgylch. Wrth ddatblygu ei rhaglen fuddsoddi, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried y cyfraniad y bydd pob cam gweithredu yn ei wneud i leihau risgiau newid yn yr hinsawdd ac yn gweithio gyda phartneriaid i reoli'r risgiau hyn a helpu dalgylchoedd i addasu.

Bydd canlyniadau nifer o brosiectau yn cyfrannu'n uniongyrchol at welliannau a ragwelir o ran statws erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn ardaloedd dyfrol penodol.

Mae gwelliannau ar lefel dalgylch a ariennir gan y llywodraeth yn ymdrin ag ystod o bwysau a byddant yn sicrhau amrywiaeth o welliannau i'r amgylchedd, ond nid ydynt yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer 2021 oherwydd diffyg hyder am raddfa'r gwelliant.

Enghraifft o'r mesurau hyn yn ardal basn afon Hafren

Prosiect afon Hafren Fawreddog yng Nghaerloyw

Mae afon Swilgate wedi cael ei dosbarthu fel un sydd o statws ecolegol gwael. Ar hyn o bryd mae'n methu â chyrraedd y targed o statws ecolegol da oherwydd addasiadau ffisegol a hydromorffolegol sylweddol yn ogystal â llygredd gwasgaredig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Tewkesbury a Natural England wedi cydweithio i gefnogi Tewkesbury Nature Reserve Limited.

Mae'r prosiect yn cynnwys adfer afon mewn gwarchodfa natur gymunedol sy'n datblygu o fewn 40ha o orlifdir naturiol yn Tewkesbury a'r tir gerllaw. Mae cam cyntaf y gwaith cyfalaf yn warchodfa wedi dechrau gyda'r gwaith o gloddio 8 pwll gwlyptir, 2 wely cyrs, 1 pwll

merddwr, 4 ystum afon wedi'u hail-broffilio ac 1 ystum newydd. Bydd yr estyniadau i gorsle trin dŵr wyneb presennol yn helpu i lanhau a gwanhau'r llif i mewn i afon Swilgate. Bydd y gwaith sydd wedi'i dargedu o ail-broffilio, creu ystum newydd, arallgyfeirio llif yn y sianel, graeanau silio newydd a nodweddion coediog o werth i bysgod hefyd, gan gynnwys llysywen sy'n rhywogaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a'r brithyll afon.

Bydd y cynnydd yn amrywiaeth y cynefin yn y rhannau a adferwyd o afonydd a gorlifdir yn cael ei fwynhau gan bobl a bywyd gwylt. Bydd mynediad wedi'i reoli i'r nodweddion hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd brofi a gwerthfawrogi natur ar garreg eu drws.

Gwelliannau a ariennir ar lefel dalgylch yng Nghymru

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu £4.2 ar gyfer 2015-2018 i ariannu prosiectau sydd o fudd i fywyd gwyllt, pobl ac economi Cymru. Mae'r Gronfa Gystadleuol yn seiliedig ar nod Rheoli Adnoddau Naturiol, sef rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n gallu cynnal a gwella gwytnwch ein hecosystemau wrth fodloni anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Bydd ffocws ar rwydwaith Natura 2000 o safleoedd dynodedig yng Nghymru (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig). Mae hyn er mwyn helpu i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol Cymru o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Ewropeaidd. Ar yr un pryd, mae'n ceisio integreiddio'r gwaith cadwraeth hwn gyda manteision cymdeithasol ac economaidd eraill a amlygwyd fel rhai pwysig yng Nghynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae hyn wedi darparu cyllid i bartneriaid ledled Cymru. Yn ardal basn afon Hafren mae hyn yn cynnwys gwaith i adfer afonydd, gwella cynefinoedd yn yr afon a chynefinoedd torlannol, ymdrin â rhyogaethau anfforddol goresgynnol a darparu addysg ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli prosiectau a ariennir yn rhannol gan eraill, gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Loteri Fawr (BIG). Er enghraifft, mae Rhaglen Natura 2000 LIFE ar gyfer Cymru yn brosiect i ddatblygu cynlluniau gwella a flaenoriaethwyd (PIPs) sy'n nodi camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu a'u costio ar gyfer pob safle Natura 2000 yng Nghymru gyda'r nod o adfer y safleoedd bywyd gwyllt pwysig hyn a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae cronfa Natur Llywodraeth Cymru o £5 miliwn yn cefnogi 20 o brosiectau sydd, trwy weithredu ar y cyd, yn ymdrin â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn sicrhau manteision i gymunedau ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar gyflawni 5 blaenoriaeth allweddol mewn 7 o Barthau Gweithredu Natur. Y 5 gweithgaredd allweddol yw:

- gweithredu i wella dalgylchoedd afonydd
- gweithredu i wella ecosystemau morol
- camau i wella'r amgylchedd lleol
- camau i wireddu potensial yn ein hardaloedd ucheldir
- camau i ysgogi arloesedd

Ar gyfer ardal basn afon Hafren y Parthau Gweithredu Natur perthnasol yw Bannau Brycheiniog, Mynyddoedd Cambria a Chymoedd De Cymru. Mae prosiectau yn amrywio o waith i wella'r dirwedd a ffermir mewn dalgylchoedd afonydd i adfer mawndir a phrosiect cymunedol sy'n rheoli coetir.

Mae partneriaid eraill fel Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) yn dod â chwaraewyr allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol at ei gilydd i hyrwyddo a monitro gweithredu o ran bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru. Mae gwaith WBP yn cael ei weithredu drwy'r bartneriaeth ehangach a'r tîm cefnogi.

Mesurau cynaliadwyedd adnoddau dŵr

Mae tynnu dŵr a newidiadau eraill i lif afonydd a lefelau dŵr daear yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd dŵr, ac, mewn rhai achosion, yn achosi difrod amgylcheddol. Bydd tacllo tynnu dŵr a phwysau ar lif yn awr yn ymdrin â'r niwed sydd eisoes yn digwydd a hefyd yn helpu i gefnogi cyflenwadau cynaliadwy o ddŵr ar gyfer y dyfodol.

Mae mesurau sydd wedi'u grwpio o fewn y rhaglen hon yn seiliedig ar gymhwyso darpariaeth bresennol o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Bydd offer presennol yn cael eu defnyddio'n llawn i gyflawni amcanion amgylcheddol cyn diwygio echdynnu, a fydd yn creu system sydd wedi ei chreu i fod yn hyblyg yn y tymor hir i helpu i ddelio gyda heriau newid yn yr hinsawdd, poblogaeth a thwf economaidd yn y dyfodol wrth warchod yr amgylchedd a cheisio sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

Bydd y rhan fwyaf o fesurau yn cael eu cymhwyso drwy'r system drwyddedu tynnu dŵr bresennol a bydd yn cynnwys y mathau canlynol o weithredu:

- cyfyngu ar neu wrthod ceisiadau i adnewyddu trwyddedau a gyfyngir gan amser
- newidiadau i neu ddirymu trwyddedau tynnu dŵr sy'n angenrheidiol i amddiffyn yr amgylchedd rhag difrod difrifol
- gweithio gyda deiliaid trwyddedau i ymgeisio'n wirfoddol i newid trwyddedau i'w gwneud yn gynaliadwy
- dod â thyniadau wedi'u heithrio yn flaenorol o dan reoliad (awdurdodiadau newydd)
- gweithredu'r rhaglen Adfer Echdynnu Cynaliadwy (RSA)
- diddymu trwyddedau heb eu defnyddio

Mae'r cynllun presennol o godi tâl am drwydded tynnu dŵr yn ariannu'r mesurau hyn. (Noder bod camau gweithredu'r cwmnïau dŵr yn cael eu cynnwys yn yr adran sy'n dwyn y teitl 'Rhoglen fuddsoddi'r cwmnïau dŵr').

Mae mesurau newid y drwydded wedi'u hen sefydlu a phrofwyd eu bod yn arwain at fanteision amgylcheddol unwaith y bydd y newid yn dod i rym, ac y byddant yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol. Bydd rhai ardaloedd dyfrol yn ymateb yn gyflym i newidiadau yn amseriad a maint y dŵr a dynnir. Bydd ardaloedd dyfrol wyneb sy'n dioddef o niwed difrifol yn gweld llif yn cynyddu, a bydd y difrod a achosir yn cael ei atal. Ond ar gyfer newidiadau i drwyddedau a roddir i dyniadau dŵr daear, gallai'r manteision gymryd mwy o amser i weithio, a gallai hyn fod dros lawer o flynyddoedd. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried amserau adfer dŵr daear o fewn rhai dyfrhaenau mawr.

Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y galw am ddŵr yn y dyfodol yn ogystal â'i argaeledd a'i ansawdd. Mae afonydd ac ardaloedd dŵr daear o dan bwysau yn barod. Mae'r galw am ddŵr yn cynyddu o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth, datblygiad trefol a newid defnydd tir. Disgwylir i newid yn yr hinsawdd newid amllder a dosbarthiad y glawiad, gan gynyddu tymheredd ac amllder a difrifoldeb digwyddiadau o dywydd eithafol. Mae ymdrin â thynnu dŵr anghynaliadwy a gweithredu mesurau i ddefnyddio dŵr yn effeithlon yn hanfodol er mwyn paratoi a gallu addasu i newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn y galw am ddŵr yn y dyfodol.

Ni all pob un o'r mesurau gael eu cysylltu â chanlyniadau mewn ardaloedd dyfrol penodol erbyn 2021 am nad oes digon o hyder yn union raddfa ac amseriad y gwelliant. Ond gellid gweld newid dosbarthiad mewn rhai ardaloedd dyfrol nad ydynt eto wedi eu nodi. Bydd pob un o'r mesurau yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol ychwanegol, a disgrifir y rhain isod:

- Trwy'r rhaglen RSA, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau i newid neu ddirymu trwyddedau tynnu dŵr sydd eisoes wedi eu nodi

fel rhai sy'n achosi problem amgylcheddol. Mae RSA yn rhaglen o waith sy'n nodi, yn ymchwilio ac yn datrys risgiau neu broblemau amgylcheddol a achosir gan echdynnu dŵr trwyddedig yn anghynaliadwy ledled Cymru a Lloegr. Cyflawnir gwaith RSA gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cyrff cadwraeth a pherchnogion safleoedd.

- Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio canllawiau'r llywodraeth a thystiolaeth i ddefnyddio dull blaenoriaethu i asesu a oes angen newidiadau i drwyddedau i ddiogelu rhag difrod difrifol i'r amgylchedd. Dylai tynwyr dŵr ragweld newidiadau i'w trwyddedau tynnu dŵr mewn ardaloedd dyfrol yr effeithir arnynt sy'n dioddef o niwed difrifol.
- Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a llunio polisi'r llywodraeth, mae disgwyl i nifer o weithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd ddod o dan reoliad. Bydd hyn yn rhoi mwy o allu i reoli'r amgylchedd ac atal difrod.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda thynwyr dŵr i ddod o hyd i atebion a fydd yn cynyddu lefelau dŵr mewn rhai afonydd, nentydd, llynnoedd a chynefinoedd gwlyptir naturiol eraill. Mae'n rhaglen ymbarél o waith sydd ei angen o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd ac Adar Gwyllt Ewropeaidd (HD), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) dynodedig, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) a safleoedd dynodedig o bwysigrwydd lleol. Mae'n canolbwyntio ar safleoedd lle mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar lefelau da o ddŵr.

Ar gyfer yr holl ardaloedd basnau afonydd, mae 81 o drwyddedau i gwmnïau nad ydynt yn ymwneud â dŵr yn y rhaglenni RSA.

Nid oes unrhyw gynlluniau RSA i gwmnïau nad ydynt yn ymwneud â dŵr yn ardal basn afon Hafren ar hyn o bryd.

3.4 Mesurau lleol

Dull gweithredu yn seiliedig ar ddalgylch

Mae ymgymryd â dull gweithredu yn seiliedig ar ddalgylch yn helpu i bontio'r bwch rhwng y cynllunio rheoli strategol ar lefel ardal basn afon a gweithgaredd ar raddfa ardal ddyfrol leol. Nod dull yn seiliedig ar ddalgylch yw annog grwpiau i gydweithio'n fwy effeithiol i ddelio â phroblemau amgylcheddol yn lleol. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau dalgylch yn gweithredu ar y raddfa dalgylch 'rheoli' dŵr. Mae Ffigur 2 yn dangos y dalgylchoedd rheoli yn yr ardal basn afon.

Ffigur 2: Dalgylchoedd rheoli o fewn ardal basn afon Hafren



Mae partneriaethau dalgyrch yn ardal basn afon Hafren yn fenter bwysig i annog camau gweithredu lleol i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r partneriaethau'n cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau â buddiant yn yr amgylchedd dŵr. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig i'r grwpiau hyn yn unig: llywodraeth leol, diddordebau pysgota, sefydliadau bywyd gwylt, cwmnïau dŵr, rheolwyr tir, cynrychiolwyr busnesau ac asiantaethau'r llywodraeth.

Mae pob partneriaeth dalgyrch yn ymroddedig i gydweithio i rannu tystiolaeth, datblygu blaenoriaethau sy'n gyffredin a chyflawni gwaith ar lawr gwlad. Mae llawer o bartneriaethau'n cynhyrchu cynlluniau dalgyrch a fydd yn rhoi manylion y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r mesurau yn y cynllun hwn.

Mae'r dull yn seiliedig ar ddalgyrch yn fenter dan arweiniad Defra ond mae'r partneriaethau'n cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mhob rhan o ddalgyrchchoedd Ucheldir Hafren, Tefeidiad a Gwy. Mae mentrau dalgyrch yn nalgylchoedd Cymoedd y De Ddwyrain ac Wysg wedi'u harwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae partneriaethau ar lefelau gwahanol o aeddfedrwydd, felly er bod gan rai gynllun manwl ar gyfer mesurau yn eu dalgyrch, efallai y bydd rhai eraill newydd gael eu ffurfio ac efallai na fydd ganddynt safbwynt mor fanwl ar hyn o bryd.

Mae'r adran ganlynol wedi cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r partneriaethau dalgyrch (ynghyd â grwpiau eraill â diddordeb) ac yn adlewyrchu eu safbwyntiau ar flaenoriaethau cyfredol a syniadau i'r dyfodol. Mae'n cynnwys crynodeb o'r prif fesurau y mae'r partneriaethau yn cyfrannu atynt.

Cynigiwyd y syniadau hyn ar gyfer mesurau lleol gan bartneriaethau dalgyrch ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a fydd yn aml ynghlŷn â chyflawni 'aml fuddion' i ganlyniadau a rennir drwy gydweithio. Mae'r aml fuddion hyn yn cynnwys gwell ansawdd dŵr, cynefinoedd a bioamrywiaeth yn ogystal â chyfrannu at wytnwch rhag llifogydd a hinsawdd.

Mae'r partneriaethau dalgyrch yn ceisio ariannu'r mesurau lleol hyn o ystod o ffynonellau yn cynnwys y llywodraeth, darparwyr cenedlaethol a rhyngwladol eraill fel y Loteri Fawr neu EU LIFE yn ogystal â phartneriaid a rhanddeiliaid lleol sydd â diddordeb. Yn arferol, i sicrhau cyllid, bydd angen i brosiectau fod wedi eu datblygu'n llawn gyda'r holl ganiatadau wedi'u sicrhau o flaen llaw.

Mae pob tudalen grynodedb dalgyrch yn gosod y mesurau sy'n â chanlyniadau ardaloedd dyfrol ar gyfer 2021 a hefyd mesurau a fydd yn gwella'r amgylchedd ond na allant fod yn gysylltiedig â chanlyniadau ardaloedd dyfrol ar gyfer 2021 (er enghraifft, oherwydd nad yw'r union ganlyniad neu leoliad wedi'i gadarnhau). Ariennir y mesurau hyn yn bennaf drwy ffrydiau cyllido lleol ac lle nad yw hyn yn digwydd bydd y testun yn egluro hynny.

Mae hyn wedi'i ddilyn gan ddisgrifiad o rai o'r mesurau ychwanegol y byddai'r partneriaethau yn hoffi eu dilyn pe bai cyllid pellach yn cael ei sicrhau. Maen nhw wedi cyflwyno eu syniadau cychwynol o beth yr hoffent eu wneud â £100,000 y flwyddyn a gyda £1,000,000 y flwyddyn i ddangos uchelgais lleol yn y byr a'r hir dymor.

Gwybodaeth ategol

- Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am leoliad ardaloedd dyfrol a dalgyrchchoedd, ynghyd â data cysylltiedig, ar yr [Catchment data explorer \(http://environment.data.gov.uk/catchment-planning/\)](http://environment.data.gov.uk/catchment-planning/) ac [Arsylwi Dyfroedd Cymru \(http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/\)](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/).

Mesurau lleol partneriaethau dalgyrch

Mesurau yn dalgyrch Avon Bryste a Gogledd Gwlad yr Haf

Partneriaeth dalgyrch: Mae Partneriaeth Dalgyrch Avon Bryste yn cael ei gefnogi gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, y Comisiwn Coedwigaeth, Wessex Water, Bristol Water, Cyngor Dinas Bryste, Cyngor Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf, Cyngor Wiltshire, Ymddiriedolaeth Afonydd Avon Bryste (*BART*), Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt y De Orllewin (*FWAG SW*), Partneriaeth Avon Frome, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Avon, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Wiltshire a'r Woodland Trust.

Mae'r partneriaethau'n cydweithio'n agos â Phartneriaethau Natur a Menter Lleol i'w gwneud yn strategol bosibl i gyflawni'r gwaith ar lawr gwlad. Dyma'r materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgyrch hwn:

- gormod o lygredd maetholion a gwaddodion yn trwytholchi
- cynefinoedd ecolegol wedi'u hisraddio
- llifogydd a materion yn ymwneud â llif

Cyfraniad tuag at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

Bydd Prosiect Llygredd Gwasgaredig Frome Bryste yn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol ar Nant Ladden a Bradley. Dechreuodd y prosiect sydd wedi'i ariannu gan Defra ym mis Mehefin 2015. Bydd *BART* a *FWAG SW* yn cydweithio â thirfeddianwyr i wella arferion/isadeiledd ffermydd mewn ardaloedd risg uchel.

Sefydlwyd Partneriaeth Llynnoedd Mendip gan Bristol Water yn 2015 i weithio gyda thirfeddianwyr a phartneriaid allweddol i wella ansawdd dŵr ym mhob rhan o ddalgyrch Dyffryn Chew a Chronfa Ddŵr Blagdon. Bydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Avon yn cefnogi hyn drwy Brosiect Llygredd Gwasgaredig Dyffryn Chew.

Bydd Prosiect Dalgyrch Gwastatiroedd Gogledd Gwlad yr Haf a'r Gweunydd sydd wedi'i ariannu gan Wessex Water yn cyflawni prosiect adfer cyfunol. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Avon yn cydweithio â phartneriaid a thirfeddianwyr i wella systemau gwlyptir, gwella bioamrywiaeth a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr/faint o ddŵr sydd.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Prosiect Lleihau Maetholion Avon Bryste – Lleihau llygredd maetholion o ardaloedd dyfrol risg uchel o fewn y dalgyrch, cydweithio â thirfeddianwyr a rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael â llygredd tarddle pwynt/gwasgaredig a hefyd mynd i'r afael â digwyddiadau llygredd ar hyd priffyrdd ac ardaloedd trefol.
- Blaenddyfroedd lach – Gwella cynefinoedd, gan gynnwys creu merddwr a gwaith coed i flaenddyfroedd dalgyrch Avon Bryste. Bydd hyn yn datrys methiannau ecolegol ac yn gwella gwerth hamdden/amwynder ac yn galluogi plwyfi lleol i wella materion rheoli dŵr ar raddfa leol.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Afon Avon i bawb – Byddai'r prosiect trosfwaol hwn yn cynnwys prosiectau amfuddiol ar raddfa tirwedd i helpu i wella ansawdd dŵr, lleihau risg llifogydd, datrys methiannau mewn pysgod ac infertebratau, a chynyddu cyfleoedd hamdden. Bydd prosiectau systemau draenio trefol cynaliadwy hefyd yn cael eu hymgorffori, gan gynnwys prosiectau creu coetir, i alinio gwaith â chynllunwyr, datblygwyr ac awdurdodau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: www.bristolavoncatchment.co.uk neu <mailto:info@bristolavoncatchment.co.uk> Dalgyrch Ucheldir Hafren

Mesurau lleol partneriaethau dalgyloch

Mesurau yn dalgyloch Ucheldir Hafren

Partneriaeth(au) dalgyloch: Mae partneriaeth Ucheldir Hafren yn cael ei chynnal ar y cyd ag Afonydd Hafren ac Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn ac mae'r canlynol yn rhan o'r bartneriaeth: Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Glandŵr Cymru, Cyngor Powys, Cyngor Swydd Amwythig, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Amwythig, Severn Trent Water, United Utilities, byrddau draenio mewnol lleol, Coed Cymru a Choed Cadw.

Y materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgyloch hwn yw rheoli tir amaethyddol a gwledig, llygredd tarddle pwynt ac addasu dyfrffosydd yn ffisegol.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

Rhwng 2012 a 2015, mae 19 o brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar fudo pysgod, llygredd gwasgaredig gwledig a llifogydd wedi arwain at fuddsoddi mwy na £900,000 yn y dalgyloch. Mae'r prosiectau wedi arwain at welliannau i ansawdd dŵr a phoblogaethau pysgod. Mae o leiaf 4 prosiect arall wedi'u cadarnhau. Y rhain yw Nant Camlad a Rea yn Lloegr wedi'u hariannu gan Gronfa Weithredu Partneriaeth Dalgyloch (£46,000) a Phartneriaeth Ucheldir Hafren a Chamlad Cymru dan gronfa'r Gyd-bartneriaeth gan CNC (£401,000). Mae prosiectau Tanat a Lliffior wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Gystadleuol gan CNC (£80,000 a £63,000). Ymhlith y prosiectau hyn mae camau gweithredu i leihau effaith rhywogaethau estron goresgynnol, gwella mynediad pysgod i gynefinoedd da drwy dynnu'r rhwystrau i fudo, a gwella ansawdd dŵr sy'n gadael ffermydd. Mae graddau'r gwelliant elfennol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd gan y prosiectau hyn ddull gweithredu cymunedol cadarn hefyd i greu cysylltiad rhwng pobl â'u hafonydd.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Parhau â'r prosiect Afonydd Monty i gydweithio â chymunedau, gwirfoddolwyr a sefydliadau addysg ar draws pob rhan o'r dalgyloch sydd yng Nghymru i dynnu rhywogaethau goresgynnol, clirio sbwriel, cynnal arolygon a gweithredu fel gwarchodwyr yr afon.
- Adfer mynediad pysgod i bob rhan o Nant Lliffior i gyrraedd statws ecolegol da drwy'r ardal ddyfrol gyfan.
- Prosiect Love Your River Amwythig yn cydweithio â'r gymuned, yr awdurdod lleol a'r cwmni dŵr i leihau effeithiau llygredd trefol o darddleoedd fel datgysylltiadau a dŵr ffo o ardal ddiwydiannol. Bydd hyn yn datrys methiannau mewn poblogaethau pysgod, infertebratau a macroffytiau ac yn gwella amwynder a gwerth hamdden.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Cael gwared ar bob rhwystr i fudo pysgod ym mhob rhan o'r dalgyloch i sicrhau statws ecolegol da a phoblogaethau pysgod iach.
- Datblygu prosiect ar raddfa tirwedd yng Nghoedwig Hafren i gynnwys cymunedau lleol, treftadaeth, bioamrywiaeth, mynediad a thwristiaeth. Bydd hyn yn gwella ansawdd dŵr, poblogaethau pysgod ac infertebratau, mynediad i fywyd gwyllt a tharddiad Hafren, gweithgareddau hamdden ac addysg, a bydd yn rhoi buddion ehangach i'r boblogaeth leol.
- Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol Ucheldir Hafren i dynnu rhywogaethau planhigion estron o darddiad afon Hafren. Gellir mynd i'r afael â'r nod cynaliadwy hirdymor hwn drwy ddefnyddio camau gweithredu systematig a rhesymegol.

Mae rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth ar gael yn: <http://barcmp.webnode.com/>.

Mesurau lleol partneriaethau dalgyrch

Mesurau yn dalgyrch Dyffryn Hafren

Partneriaeth(au) dalgyrch: Mae partneriaeth Dyffryn Hafren yn cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaerloyw ac Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys y rhai sy'n cynnal y bartneriaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Cyngor Sir Drefaldwyn, Cyngor Dosbarth Stroud ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU).

Dyma'r materion rheoli basn afon blaenoriaethol i fynd i'r afael â nhw yn y dalgyrch hwn:

- lleihau llygredd gwasgaredig gwledig,
- lleihau llygredd gwasgaredig trefol, ac
- addasu ffisegol (morffoleg a rhwystrau i fudo)

Ymhlith yr ardaloedd blaenoriaethol a ddynodwyd drwy'r bartneriaeth a'r gweithdai mae dalgyrch Leadon, a dalgyrch Frome a Cam.

Cyfraniad tuag at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Ar Afon Leadon mae prosiect yn digwydd yn 2015/16 i leihau llygredd gwasgaredig gwledig mewn partneriaeth â thirfeddianwyr lleol. Bydd hyn yn cynnwys ffensiō glannau afon a datrysiadau dyfrhau da byw i leihau nifer y gwartheg sy'n gallu mynd at yr afon. Gosod malurion coed mawr ac allwryadau i ychwanegu amrywiaeth at y cwrs dŵr a chreu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer silio pysgod, infertebratau a phlanhigion dyfrol. Gwaith coed i leihau gorgysgodi.
- Ar Afon Frome mae nifer o brosiectau yn digwydd yn 2015/16. Mewn partneriaeth â Chyngor Dosbarth Stroud, sy'n adeiladu ar y gosodiad o 50 adeiledd yn 2014/15, mae prosiect ar waith i osod malurion coed i greu cynefinoedd a gwanhau dyfroedd llifogydd. Mae'r prosiect hwn yn cael cefnogaeth a buddiant gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys grwpiau llifogydd lleol, arweinwyr cenedlaethol o asiantaethau'r llywodraeth yn ogystal â chynghorwyr ac Aelodau Seneddol.
- Diogelwyd cyllid allanol ar gyfer y gwaith o adfer sianel paleo ar Afon Frome (sianel y gogledd) yn Bonds Mill, Stonehouse. Nod y prosiect yw adfer 1.2km o olion sianel afon a chynefin glannau afon; darparu trwydded bysgod amlrywogaeth yng nghored Bond's Mill a chynefin o ansawdd i llywod, infertebratau, blodau gwyllt dyfrol, a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r DU fel llygod y dŵr. Bydd hefyd yn darparu rhai buddion perygl llifogydd fel mesur ar gyfer rheoli llifogydd naturiol.

Nodau yn y dyfodol

Mae gan y bartneriaeth ehangach sydd â mwy na 70 o sefydliadau restr o brosiectau posibl y mae'r bartneriaeth dalgyrch bellach yn eu troi'n gynigion i'w cwblhau rhwng 2016 a 2021. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau a meysydd gan gynnwys:

- Cyllid hwyluso ar gyfer Afon Leadon, cydweithio â thirfeddianwyr i gyflawni targedau rheoli basn afon a thargedau Bioamrywiaeth 2020
- Gwaith rheoli perygl llifogydd naturiol ychwanegol ar Afon Frome
- Creu cynefinoedd gwlyptir a glannau afon ar hyd Afon Hafren i gynyddu'r lle i storio llifogydd, gwella gwytnwch rhag llifogydd a gwella'r poblogaethau o rywogaethau allweddol, er enghraifft y cornicyll a'r llysywen Ewropeaidd ac ati
- Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol Graddfa Dalgyrch i dynnu rhywogaethau planhigion estron o Dyffryn Hafren
- Mae'r bartneriaeth wedi dynodi 14 o brosiectau mawr heb eu hariannu o fewn y dalgyrch, a bydd yn archwilio cyfleoedd ariannu er mwyn gyrru'r rhain ymlaen. Bydd prosiectau eraill yn cael eu datblygu ar raddfa dalgyrch-eang drwy'r bartneriaeth yn meithrin cysylltiadau â'r holl bartion â buddiant, grwpiau sefydledig a rheolwyr tir yn canolbwyntio ar flaenoriaethau rheoli basn afon, newid y defnydd o dir, systemau draenio trefol cynaliadwy, meithrin cysylltiadau cymunedol, bioamrywiaeth, colli pridd, ansawdd dŵr, rheoli maetholion a rhwystrau i fudo.
- Bydd y bartneriaeth yn darparu cyswllt a chyngor i Banel Cyswllt Basn Afon Hafren ar y cylch nesaf o gynlluniau rheoli ardal basn afon.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://catchmentbasedapproach.org/severn>.

Mesurau lleol partneriaethau dalgyrch

Mesurau yn dalgyrch Hafren Ganol Swydd Amwythig

Partneriaeth(au) dalgyrch: Mae partneriaeth Hafren Ganol Swydd Amwythig yn cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Amwythig ac Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu drwy 2 grŵp sy'n defnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar ddalgyrch (CaBA) wedi'u cynorthwyo gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Amwythig.

Grŵp CaBA Telford sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, Severn Trent Water (STW), Cyngor Telford a Wrekin, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Bwrdd Draenio Mewnol Strine, Prifysgol Wolverhampton, Telford Green Spaces, Cynllun Cefnogi Amgylcheddol Busnes y Bartneriaeth ar gyfer Telford, Natural England (NE), Canal & River Trust.

Grŵp CaBA Meres (Gogledd Swydd Amwythig) sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, Severn Trent Water (STW), Cyngor Swydd Amwythig, NFU, Ymgyrch dros yr Amgylchedd wedi'i Ffermio (CFE), Ffermio Dalgyrch Sensitif (NE), RSPB Meres a Mosses, Canal & River Trust.

Y materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgyrch hwn yw llygredd gwasgaredig trefol, llygredd gwasgaredig gwledig, a gweithio gyda phrosesau naturiol i liniaru effaith llifogydd.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Cafodd y bartneriaeth ei chreu yn 2013 ac mae camau datblygu wedi canolbwyntio ar ddynodi materion, rhanddeiliaid a thirfeddianwyr i gydweithio â nhw a datblygu prosiectau drwy gofrestr prosiectau. Mae'r gofrestr yn llywio ymdrech y bartneriaeth i weithio'n gydweithredol.
- Love Your River Telford. Prosiect ansawdd dŵr â phwyslais cadarn ar ddraenio cynaliadwy, gerddi glaw a mentrau cymunedol o fath dadbalmantu. Mae rhaglen ysgol Ceidwaid Afon (*River Rangers*) bellach ar ei thrydedd flwyddyn a bydd yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion gwledig yn 2015/16.
- Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol Swydd Amwythig. Mae hwn yn rhan o brosiect mwy o faint yn Swydd Amwythig o gydweithio â thirfeddianwyr mewn 7 ardal ddalgyrch beilot i ddatblygu datrysiadau naturiol i leihau effeithiau llifogydd ar gynhyrchu bwyd, cymunedau a bywoliaeth. Cynhelir dau o'r cynlluniau peilot yn Hafren Ganol Swydd Amwythig, Gobowen a Nant Battlefield, Amwythig.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Lleihau llygredd gwasgaredig gwledig. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â swyddogion dalgyrch STW mewn perthynas â'u gweithgarwch arloesol – rhaglen STEPS a'r cynllun 'Ffermwyr fel cynhyrchwyr dŵr glân.'
- Gwella'r cydlynid rhwng CSF, STW, NFU, CFE ac eraill wrth iddynt gefnogi gwell rheolaeth ar ddŵr yn y sector ffermio.
- Adeiladu rhaglenni adfer afonydd ar gyfer dalgyrch Roden a dalgyrch Tern o dan ddull cyflwyno'r 'Magnificent Severn' [Swydd Amwythig].

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Rhaglen cyrsiau dŵr ac ansawdd dŵr ar raddfa tirwedd yn Perry, Tern a Roden – 3 miliwn o bobl yn yfed dŵr o Swydd Amwythig – Parthau Diogelu yn helaeth – y bwriad yw lleihau llygredd gwasgaredig gwledig, cynnal faint o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu a'i gludo.
- Datblygu amrywiaeth o brosiectau yn Telford i leihau effeithiau llif dŵr wyneb o ran faint ohono sydd a'i ansawdd. Dylunio a chyflwyno rhaglenni ar gyrsiau dŵr trefol sy'n sicrhau gwell gwytnwch, yn adfer swyddogaeth ecolegol ac yn gwella amwynder cyhoeddus.
- Datblygu dull gweithredu dalgyrch-eang i leihau llifogydd a siltio dŵr ffo drwy brosesau naturiol, gan gynnwys rhaglen coetiroedd ar gyfer dŵr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://catchmentbasedapproach.org/severn>.

Mesurau lleol partneriaethau dalgyrch

Mesurau yn dalgyrch Cymoedd y De Ddwyrain

Partneriaeth(au) dalgyrch: Mae nifer o bartïon yn y dalgyrch yn gweithio i wella'r amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys Cyngor Blaenau Gwent, Cyngor Caerffili, Cyngor Caerdydd, Awdurdod Harbwr Caerdydd, yr Awdurdod Glo, Coed Cymru, Confor, Dŵr Cymru, Flylife, Ymddiriedolaeth Afonydd Bro Morgannwg, Groundwork Cymru, Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful, Cyngor Merthyr Tudful, Miller Argent, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, y Grid Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru (SEWRT), Cyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.

Y materion blaenoriaethol yw addasiadau ffisegol (hynny yw, rhwystrau i fudo pysgod o goredau a chorlaniadau, addasiadau trefol a draenio tir ar wastadeddau Wentlooge sydd gyferbyn ag aber Afon Hafren); llygredd gwasgaredig trefol (yn enwedig carthion a datgysylltiadau); a gwasgedd o ddŵr mwyngloddiau.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Afonydd iach – Groundwork Caerffili, drwy welliannau i afonydd a glannau afon.
- Rhaglenni rhywogaethau estron goresgynnol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chasnewydd.
- Gŵyl Taf – Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru, addysg a meithrin cysylltiadau â'r gymuned mewn perthynas â'r gwaith o adfer Afon Taf.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Adeiladu partneriaeth ffurfiol sy'n gallu datblygu a gweithredu prosiectau.
- Adeiladu ar waith blaenorol mewn ardaloedd dyfrol ychwanegol i ddarparu hawddfreintiau i rwystrau, adfer cynefinoedd afonydd a lleihau llygredd gwasgaredig trefol.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Tynnu'r holl rwystrau i fudo pysgod ym mhob rhan o'r dalgyrch i sicrhau statws ecolegol da a phoblogaethau pysgod iach.
- Datblygu a gweithredu prosiectau amlfuddiol ar raddfa tirwedd i helpu i leihau llygredd gwasgaredig, gwella ansawdd dŵr a lliniaru effeithiau addasiadau ffisegol ac ar yr un pryd, gwneud lles i'r economi lleol, cymunedau a phobl, drwy ymgymryd â dull cyfunol o reoli adnoddau naturiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o: <https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en>

Mesurau lleol partneriaethau dalgylch

Mesurau yn dalgylch Tefeidiad (Teme)

Partneriaeth dalgylch: Mae Partneriaeth Dalgylch Tefeidiad, sy'n cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, wedi'i ffurfio o Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Natural England, Ardal o Harddwch Eithriadol Naturiol (AHNE) Bryniau Swydd Amwythig, AHNE Bryniau Malvern, Ffermio Dalgylch Sensitif, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Swydd Caerwrangon, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaerwrangon, Ymddiriedolaeth Natur Swydd Henffordd, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Amwythig, Severn Trent Water, ADAS, Woodland Trust a chynrychiolwyr lleol o grwpiau ffermio a grwpiau bywyd gwyllt cymunedol.

Y materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgylch hwn yw llygredd gwasgaredig o reoli tir amaethyddol a gwledig, llygredd pwynt tarddle ac addasu cyrsiau dŵr yn ffisegol.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

Rhwng 2012 a 2015, mae 16 o brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar fudo pysgod, llygredd gwasgaredig gwledig a llifogydd wedi arwain at fuddsoddi mwy na £2 filiwn yn y dalgylch. Mae'r prosiectau wedi arwain at welliannau i ansawdd dŵr a phoblogaethau pysgod. Mae o leiaf 4 o brosiectau eraill wedi'u cadarnhau, gan gynnwys prosiect 'Springs of Rivers' wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri dan arweiniad Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, sy'n ariannu dros £4 miliwn i gymryd camau yn erbyn effaith rhywogaethau estron goresgynnol, gwella mudo pysgod drwy dynnu rhwystrau a gwella cynefinoedd glannau afon. Mae graddau'r gwelliannau elfennol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd gan y prosiectau hyn hefyd ddull gweithredu sydd â'r ffocws ar gymuned i greu cysylltiad rhwng pobl â'u hafonydd.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Camau gweithredu ar y Tefeidiad Uchaf ar ddaliadau a ddynodwyd i leihau llygredd gwasgaredig, adfer cynefinoedd glannau afon a lleihau gwaddodion a siltio.
- Adfer mynediad pysgod a chynefinoedd glannau afon ym mhob rhan o Ddalgylch Clun ar gyfer y Prosiect Adfer Afon Clun, gan gynorthwyo yn y gwaith o adfer y fisglen berlog.
- Lleihau llygredd gwasgaredig gwledig o dda byw ar draws nifer o dirfeddianwyr mewn ardaloedd dyfrol sy'n methu yn y Tefeidiad Isaf drwy ffensio, prysgoedio, gwella cynefinoedd o fewn y sianel a chreu gwlyptiroedd.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Tynnu pob rhwystr i fudo pysgod ym mhob rhan o'r dalgylch i sicrhau statws ecolegol da a phoblogaethau pysgod iach.
- Camau gweithredu ar Afon Corve, prosiect ar raddfa tirwedd i wella ardaloedd dyfrol sy'n methu. Arolygon cychwynnol wedi'u cynnal gan y bartneriaeth a rhywogaethau goresgynnol, rhwystrau pysgod, llygredd gwasgaredig a chynefinoedd glannau afon gwael i gyd wedi'u mapio. Byddai mesurau mudo ar ddaliadau a thir a ddynodwyd yn gwella cynefinoedd, lleihau llwytho gwaddodion ac yn agor llwybrau i bysgod, a fyddai yn ei dro yn gwella ansawdd dŵr, poblogaethau pysgod ac infertebratau ac yn rhoi buddion ehangach i'r boblogaeth leol.
- Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol ar Raddfa Dalgylch i dynnu rhywogaethau planhigion estron goresgynnol o darddiad y Tefeidiad. Gellir mynd i'r afael â'r nod cynaliadwy hirdymor hwn drwy ddefnyddio camau gweithredu systematig a rhesymegol gyda chymorth 'Strategaeth ar gyfer Rheoli Jac y Neidiwr' AHNE Bryniau Swydd Amwythig.

Mae rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth ar gael yn: <http://barcmp.webnode.com/>.

Mesurau lleol partneriaethau dalgyrch

Mesurau yn nalgyrch Wysg

Partneriaeth(au) dalgyrch: Mae nifer o bartïon yn y dalgyrch yn gweithio i wella'r amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Canŵ Cymru, Prifysgol Caerdydd, Coed Cadw, Woodland Trust, Coleg Gwent, Dŵr Cymru Welsh Water, Perchnogion Pysgodfeydd, Fforwm ar gyfer y Dyfodol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent, Cadwch Gymru'n Daclus, Partneriaeth Amgylcheddol Sir Fynwy, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Casnewydd, Cyngor Torfaen, Sefydliad Gwy ac Wysg.

Y materion blaenoriaethol yw addasiadau ffisegol (hynny yw, rhwystrau i fudo pysgod a chroniadau), llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, a gwasgedd o echdynnu.

Cyfraniad tuag at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Adfer Afonydd a Datblygu Pysgodfeydd - sefydliad Gwy ac Wysg yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned ffermio i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a newidiadau mewn hydroleg.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Adeiladu partneriaeth ffurfiol sy'n gallu datblygu a gweithredu prosiectau.
- Adeiladu ar waith blaenorol gyda thirfeddianwyr mewn ardaloedd dyfrol ychwanegol i leihau llygredd gwasgaredig gwledig, adfer cynefinoedd afonydd a rheoli rhywogaethau goresgynnol.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Tynnu'r holl rwystrau i fudo pysgod ym mhob rhan o'r dalgyrch i sicrhau statws ecolegol da a phoblogaethau pysgod iach.
- Datblygu a gweithredu prosiectau amlfuddiol ar raddfa tirwedd i helpu i leihau llygredd gwasgaredig, gwella ansawdd dŵr a lliniaru effeithiau addasiadau ffisegol ac ar yr un pryd, gwneud lles i'r economi lleol, cymunedau a phobl, drwy ymgymryd â dull cyfunol o reoli adnoddau naturiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en>

Mesurau lleol partneriaethau dalgylch

Mesurau yn nalgylch Avon Swydd Warwig

Partneriaeth dalgylch: Mae partneriaeth Avon Swydd Warwig wedi'i ffurfio o'r partneriaid canlynol: Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Warwig, Asiantaeth yr Amgylchedd, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Gaerwrangon, Natural England, Severn Trent Water, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Fforwm Amwynder, ffermwyr annibynnol, Ymgyrch dros yr Amgylchedd wedi'i Ffermio, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Woodland Trust, y Comisiwn Coedwigaeth, Hwb Gwledig Swydd Warwig a Chyngor Sir Swydd Warwig.

Y materion rheoli basn afon blaenoriaethol yn y dalgylch yw adnabod a lleihau llygredd trefol a gwledig, meithrin cysylltiadau â chymunedau i'w helpu i gysylltu â'u hamgylchedd dŵr lleol, a dwyn coridorau dŵr yn ôl i gyflwr sy'n agos iawn at fod yn naturiol.

Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar 3 ardal flaenoriaethol: dalgylch Lean, Coventry a Nant Badsey a'r isafonydd.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Bydd dau brosiect yn 2015-16, a fydd yn canolbwyntio ar Brookstray yn Coventry a Nant Blacksoils ger Redditch, yn lleihau effaith adeileddau o waith dyn ac yn gwasgaru mewnbynnau llygredd drwy ailosod sianel sy'n ddim ond olion; dadsiltio pwll i roi lloches i bysgod, aildroelli sianelau sydd wedi'u sythu a chynnwys y gymuned yn y gwaith o fonitro infertebratau. Bydd y mesurau'n gofyn am tua £40,000 o gostau cyfalaf a £17,000 o gostau gweithredu, gyda 60% o gyfanswm y cyllid yn dod drwy gymorth grant gan y llywodraeth.
- Prosiect Partneriaeth Dyffryn Evesham – bydd y bartneriaeth yn cyfrannu at y prosiect hwn, sydd wedi'i gynnal gan Bartneriaeth Natur Leol Swydd Gaerwrangon, i gyflawni amrywiaeth o amcanion amgylcheddol, er enghraifft lleihau gwaddodion o ardaloedd dyfrol a risg llifogydd.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Cwblhau'r gwaith o adfer Nant Blacksoils – lleihau'r briglif ac erydiad ar Afon Arrow sydd wedi'i thro'i'n gamlas a chynyddu cynefinoedd glannau afon.
- Adfer Afon Sherbourne; afon drefol sydd wedi'i haddasu'n helaeth.
- Ffensio strided byffro 5 metr ar hyd Afon Sherbourne ac ail-adfer banciau i hwyluso'r broses o ail-gytrefu llygod y dŵr a chynyddu ardaloedd lloches i bysgod.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Adfer Nant Canley, Coventry sydd wedi cael ei sythu.
- Gwella nodweddion glan afon Nant Smite i leihau'r nitreiddiad i bwl Coombe.
- Galluogi creu llwybr i bysgod i'r gored yn Stoneythorpe, Southam.
- Prosiect Tirweddau Byw ar isafonydd eraill Afon Avon - gan gynnwys digwyddiadau ffermwyr, cynlluniau draenio cynaliadwy gwledig, gosod malurion coed a chreu llochesi pysgod.
- Ailbroffilio glannau'r afon ar Afon Arrow ger Alcester.
- Cynnig llwybr pasio i bysgod ar y gored ar Afon Alne ger Alcester.
- Creu 6 i 8 o lwybrau pasio i bysgod ar Afon Avon i leihau rhwystrau i symudiadau pysgod.
- Cynnal gwaith monitro pryfed afon ar draws gwahanol afonydd o fewn Avon Swydd Warwig.

I gael gwybodaeth gyfredol am bartneriaeth dalgylch Avon Swydd Warwig, gweler gwefan y dull gweithredu yn seiliedig ar ddalgylch: <http://www.catchmentbasedapproach.org/severn>

Mesurau lleol partneriaethau dalgylch

Mesurau yn nalgylch Hafren Ganol Swydd Gaerwrangon

Partneriaeth(au) dalgylch: Mae partneriaeth Hafren Ganol Swydd Gaerwrangon yn cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Gaerwrangon ac Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys y rhai sy'n cynnal y bartneriaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Swydd Amwythig, Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon, Canal & Rivers Trust, Severn Trent Water a South Staffs Water.

Dyma'r materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgylch hwn:

- lleihau llygredd gwasgaredig gwledig
- lleihau llygredd gwasgaredig trefol
- chwilio am gyfleoedd am ddatrysiadau naturiol fel coetiroedd ar gyfer dŵr

Ymhlith yr ardaloedd blaenoriaethol a ddynodwyd drwy'r bartneriaeth a gweithdai, mae Nentydd Bromsgrove, dalgylch Stour a Nant Dowles (Coedwig Wyre).

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Cafodd y bartneriaeth ei chreu o'r newydd ac i ddechrau, roedd yn canolbwyntio ar ddynodi materion, rhanddeiliaid a thirfeddianwyr i gydweithio â nhw a datblygu prosiectau.
- Yn 2015/16, mae'r prosiect 'Love Your River Bromsgrove' ar waith. Mae ei ffocws ar adnabod a lleihau ffynonellau o lygredd gwasgaredig trefol a gwledig. Bydd yn ymdrechu i leihau effeithiau adeileddau o waith dyn o fewn y dalgylch. At hynny, bydd meithrin cysylltiadau â chymunedau, gwaith monitro a phrosiectau yn cael eu cyflawni.
- Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol Swydd Amwythig. Mae hwn yn rhan o brosiect mwy o faint yn Swydd Amwythig yn cydweithio â thirfeddianwyr yn ardal Much Wenlock i ddatblygu datrysiadau naturiol i leihau effeithiau llifogydd.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Ehangu cwmplas y prosiect 'Love Your River Bromsgrove' i gynnwys mwy o waith llygredd gwasgaredig gwledig. Bydd hyn yn cynnwys swyddogion dalgylch Severn Trent Water.
- Meithrin cysylltiadau â chymunedau ychwanegol i gymryd perchnogaeth o'u hamgylchedd dŵr lleol a gwneud yr amgylchedd dŵr yn fwy hygyrch drwy'r templed 'Love your Rivers'. Cymunedau o fewn dalgylch Stour a Chaerwrangon fydd y rhai nesaf i ddod yn rhan o'r prosiect.
- Adnabod ffynonellau llygredd yn nalgylch Dowles (Coedwig Wyre) a cheisio dangos datrysiadau naturiol i ddarparu nifer o fuddion (lliniaru llifogydd, gwella cynefinoedd, rheoli erydiad) a chyd-fynd â'r gwaith o reoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol.
- Cynorthwyo yng ngwaith blaenorol a pharhaus y Gronfa Adfer Dalgylchoedd (CRF) o fewn dalgylch Afon Worfe.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Dychwelyd Nant Battlefield o fewn Parc Sanders, Bromsgrove i sianel naturiol. Byddai hyn yn cynnwys astudiaethau hygyredd ac yna tynnu'r leinin concrit o'i hamgylch.
- Dwyn y coridorau dŵr yn nalgylch Dowles yn ôl i gyflwr sy'n agos iawn at fod yn naturiol drwy leihau siltio o ddŵr ffo o'r caeau.
- Datblygu rhaglen o waith gwella i'r Afon Stour, gan adnabod a lleihau llygredd, a meithrin cysylltiadau â'r gymuned i gyd-daro â hynny.
- Datblygu dull gweithredu dalgylch-eang i liniaru llifogydd a siltio dŵr ffo drwy brosesau naturiol gan gynnwys rhaglen 'Coetiroedd ar gyfer dŵr'.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <http://catchmentbasedapproach.org/severn>

Mesurau lleol partneriaethau dalgylch

Mesurau yn nalgylch Gwy

Partneriaeth(au) dalgylch: Mae partneriaeth dalgylch Gwy yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac yn cael ei chynnal ar y cyd gan Sefydliad Gwy ac Wysg a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Ar hyn o bryd, mae 129 o sefydliadau a rhanddeiliaid yn rhan o'r bartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth, hamdden, mwyngloddio, busnes, cwmnïau dŵr, cyrff statudol a llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae'n gweithredu fel porth i nifer o grwpiau eraill a gwaith ar y cyd â'r Partneriaethau Natur Lleol.

Mae'r bartneriaeth yn dangos beth sy'n gallu cael ei gyflawni drwy feddwl yn yr hirdymor, gan ymgymryd â dull cyfunol (ystyried canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), cydweithio a chynnwys eraill yn y gwaith o ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy.

Y materion rheoli basn afon blaenoriaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dalgylch hwn yw ffosffad, rheolaeth wael o'r pridd (sy'n arwain at ormod o lif dros y tir/colli gwaddod i ddŵr) a cholli bioamrywiaeth.

Cyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer 2021

- Mae gan y sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth gofnod wedi'i brofi o gyflawni gwelliannau rheoli basn afon, er enghraifft newidiodd y prosiect LIFE + ISAC statws elfennol pysgod yn y 9 ardal ddyfrol a aseswyd yn y dalgylch hwnnw o 5 da, 1 canolig, 3 gwael yn 2009 i 4 uchel a 5 da yn 2014. Mae partneriaeth dalgylch Gwy yn cynnwys pob un o'r rheini sy'n gweithio i wella'r amgylchedd dŵr, gan gydlynu ymdrechion rhwng cyrff statudol, llywodraeth leol a chyrrff anllywodraethol (NGOs). Mae'r NGOs yn y bartneriaeth yn disgwyl codi mwy na £1,000,000 y flwyddyn i'w wario ar reoli basn afon ar draws yr 16 o brosiectau sydd eisoes ar waith neu ar fin dechrau. Mae 12 prosiect arall yn cael eu cyflawni gan gyrff statudol, cwmnïau dŵr a busnesau lleol, ac mae'r rhain yn cynrychioli buddsoddiad o fwy na £5,000,000 y flwyddyn. Mae 24 o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar y 3 mater uchaf, mae 4 hefyd yn ymdrin â dyfroedd asid, echdynnu dŵr cyhoeddus, addysg gymunedol a meithrin cysylltiadau â chymunedau.
- Ar hyn o bryd, mae 75 o ardaloedd dyfrol wedi'u cyfyngu gan ffosffad ffynonellau gwasgaredig neu elfennau pysgod ac mae'r bartneriaeth yn gobeithio dod â 40 o'r ardaloedd dyfrol hyn i statws da erbyn 2021. Bydd hyn yn adlewyrchu gwaith blaenorol o ganlyniad i oediad amser ecolegol.

Nodau yn y dyfodol

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £100,000 y flwyddyn:

- Gwell cydweithio rhwng Natural England, NGOs, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr i wneud y mwyaf o'r defnydd o'r cyllid presennol. Datrys materion ffosffad yn is-dalgylch lthon, sydd ar hyn o bryd yn achosi methiant ardaloedd dyfrol.

Syniadau am fesurau ychwanegol gyda £1,000,000 y flwyddyn (fel uchod a'r canlynol):

- Cyllid cyfatebol ar gyfer y cynnig LIFE+, a fydd yn cyflawni statws cyflwr ffafriol i Ardal Gadwraeth Arbennig Gwy yng Nghymru.
- Cyflawni amcanion cynllun rheoli maetholion Gwy.
- Cydweithio ar sail un i un â'r holl ffermwyr yn y dalgylch i ddatrys materion yn ymwneud ag adeiledd pridd a'r ffaith bod cynefinoedd glannau afon wedi'u hisraddio. Bydd yn sicrhau bod Glastir a Stiwardiaeth Gefn Gwlad yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn rheoli basn afon lle mae hyn yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan helpu i normaleiddio llifoedd, cynyddu bioamrywiaeth a datrys materion llygredd dŵr gwasgaredig.
- Cyflwyno graean i Elan isaf, gan roi potensial ecolegol da iddo.

Mae rhagor o wybodaeth ar y bartneriaeth ar gael yn: www.wyecatchment.org

3.5 Edrych ar fesurau tu hwnt i 2021

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r mesurau a ragwelir fel rhai angenrheidiol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig ac ardaloedd dyfrol er mwyn iddynt gyflawni eu hamcanion ar gyfer 2027 a thu hwnt. Mae hefyd yn disgrifio cyfleoedd a fyddai'n galluogi gweithredu mesurau ychwanegol erbyn 2021.

Mesurau hyd at 2027

Mae Tabl 22 yn cynnwys crynodeb o'r mathau o fesurau a ragwelir fel rhai angenrheidiol i fynd i'r afael â phob mater rheolaeth dŵr sylweddol hyd at 2027. Nid yw hwn yn gynhwysfawr ac yn anochel bydd yn debygol o newid. Gall newid ddigwydd oherwydd amryw o resymau gan gynnwys, tystiolaeth newydd, newid mewn statws ardal ddyfrol, argaeledd cyllid, newidiadau mewn polisïau llywodraeth, effeithiau datblygiadau a newid hinsawdd.

Mae'r mesurau yn nhabl 22 yn ofynnol ac yn ychwanegol at y mesurau i fynd i'r afael â materion rheolaeth dŵr arwyddocol fel y'u disgrifiwyd yn adran 3.2.

Bydd y rhaglenni mesurau a'r amcanion amgylcheddol yn y cynllun hwn yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn 2021. Nid yw'r WFD yn gyffredinol yn caniatáu i amserlen ar gyfer cyflawni'r amcanion amgylcheddol gael ei hymestyn tu hwnt i 2027. Felly fel rhan o ddiwygio'r cynllun yn 2021, bydd rhaid gwneud dewisiadau ynghylch y defnydd mwyaf priodol o amcanion llai caeth.

Tabl 22: Crynodeb o'r mathau o fesurau a ragwelir yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion ar gyfer pob mater rheolaeth dŵr arwyddocaol

Mathau o fesurau a ragwelir yn yr ardal basn afon	Prif sectorau ynghlwm â gweithredu'r mesurau
Mesurau i fynd i'r afael â newidiadau ffisgegol	
<ul style="list-style-type: none">Gwelliannau i gyflwr sianel/gwely a/neu glannau/traethlinGwaredu neu liniaru rhwystrau i symudiad pysgodGwaredu neu addasu strwythur peirianegGwelliannau i gyflwr glannau afon a/neu gynefinoedd gwlyptirRheolaeth llystyfiantNewidiadau i weithrediadau a chynnal a chadw	<ul style="list-style-type: none">Llywodraeth (canolog a llywodraeth leol)Diwydiant, gwasanaethau ac isadeiledd (sefydliadau anllywodraethol, byrddau draenio mewnol, mordwyaeth, diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill)Rheoli tir gwledigDiwydiant dŵr

Mathau o fesurau a ragwelir yn yr ardal basn afon		Prif sectorau ynghlwm â gweithredu'r mesurau	
Mesurau i fynd i'r afael â llygredd o ddŵr gwastraff			
<ul style="list-style-type: none"> Lliniaru/adfer effaith tarddleodd ar dderbynnnydd Lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle Lleihau effaith tarddleodd llwybrau (h.y rheoli mynediad i amgylchedd dŵr) 	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau diwydiant ac isadeiledd (diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill, trefol a thrafnidiaeth, trin gwastraff, storio a gwaredu, mwynloddio a chwareli) Diwydiant Dŵr 		
Mesurau i reoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth			
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau llwybrau llygredd gwasgaredig (h.y. rheoli mynediad i amgylchedd dŵr) Lliniaru/adfer effeithiau llygredd gwasgaredig ar dderbynnnydd 	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau diwydiant ac isadeiledd (sefydliadau anllywodraethol, trefol a thrafnidiaeth, diwydiant gweithgynhyrchu a busnesau eraill , mordwyaeth) 		
Mesurau i fynd i'r afael â newidiadau i lif naturiol a lefel dŵr			
<ul style="list-style-type: none"> Gwelliannau i gyflwr sianel/gwely ac/neu glannau/traethlin 	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraeth (llywodraeth leol) 		
Mesurau i fynd i'r afael â llygredd o ardaloedd gwledig			
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle 	<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth tir gwledig 		
Mesurau i reoli rhywogaethau estron goresgynnol			
<ul style="list-style-type: none"> Lliniaru, rheoli a gwaredu (i leihau lledaeniad) Darganfod yn gynnar, monitro ac ymateb yn gyflym (i leihau risg sefydlu) 	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Diwydiannau Llywodraeth ac isadeiledd (sefydliadau anllywodraethol) 		

Mae Adran 3.6 yn cynnwys gwybodaeth bellach ar fesurau i gyflawni amcanion ardaloedd gwarchoddedig, gan gynnwys y rhai gyda therfynnau amser wedi eu hymestyn.

Mae cost y rhaglen o fesurau yn rhoi arwydd da o'r ystod ac amser cyflwyno'r gweithredu. Dengys Tabl 23 yr asesiad cyfredol o gost potensial y mesurau i gyflawni amcanion yr ardal ddyfrol a'r ardal warchoddedig ar gyfer Lloegr yn y cynllun hwn. Mae costau'r mesurau yn cael eu dyrannu yn eang i'r sectorau sydd, trwy eu gweithgareddau yn achosi problemau yn unol ag egwyddor "yr un sy'n llygru sy'n talu". Y tu hwnt i'r ariannu sydd wedi ei bennu hyd at 2021, nid oes penderfyniad wedi ei wneud ar lle fydd y costau hyn yn syrthio. Mewn rhai achosion, ni fydd y sectorau yn talu eu costau eu hunain. Noder bod y ffigurau wedi eu talgrynnu i'r £10 miliwn agosaf.

Tabl 23 Crynodeb o amcangyfrif costau ac amser cyflwyno'r gweithredu yn Lloegr

Sectorau	Cyfanswm cost o'r mesurau dros 37 o flynyddoedd (nas disgowntwyd) i gyflawni amcanion (£m)	Amser cyflwyno hyd at 2021 (% o gyfanswm cost a ragwelir hyd at 2021)	Amser cyflwyno ar ôl 2021 (% o gyfanswm cost a ragwelir ar ôl 2021)
Llywodraeth	100	<10%	>90%
Rheolaeth Tir Gwledig*	1040	<10%	>90%
Diwydiant, gwasanaethau ac isadeiledd	60	<10%	>90%
Diwydiant Dŵr	560	30-40%	60-70%

*Mae costau'r rheolaeth tir gwledig wedi eu seilio ar amrywiaeth oherwydd senarios gwahanol o ddyraniad cost. Y pwynt canolog a gyflwynir yma i fod yn gyson â chostau eraill.

Cyfleoedd ar gyfer mesurau ychwanegol

Bydd mwy o sicrwydd ar y mesurau fydd eu hangen rhwng 2021 a 2027 pan fydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio yn 2021. Cyn hynny felly, bydd nifer o adolygiadau strategol a ffrydiau ariannu yn galluogi bod mesurau ychwanegol yn gallu cael eu cadarnhau a/neu eu gweithredu cyn 2021. Disgrifir rhai o'r cyfleoedd hyn yn Lloegr a Chymru isod.

Ffynonellau ariannu allanol

Gall y ffynonellau ariannu canlynol gael eu defnyddio i weithredu mesurau.

- Mae Rheoliad LIFE, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2013, yn gosod cyllideb ar gyfer 2014 i 2020 o €3.4 biliwn ar gyfer prosiectau buddsoddi yn yr amgylchedd a newid hinsawdd. Ceisiadau blynyddol ydynt ar gyfer blaenoriaethau gan gynnwys natur, bioamrywiaeth, dŵr, llifogydd a sychder.
- Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn buddsoddi £375 miliwn yn flynyddol, gyda rhan o hwn ar gael ar gyfer prosiectau gwella amgylcheddol trwy'r 'Parks for People' (£100,000 i £5 miliwn), Grantiau Treftadaeth (dros £100,000) a rhaglenni 'Partneriaethau Tirlunio' (£100,000 i £3 miliwn). Gellir gwneud ceisiadau unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, ac yn aml maent yn broses 2 gam.
- Yn Lloegr, mae'r llywodraeth wedi gofyn i Fentrau Partneriaethau Lleol i baratoi strategaethau economaidd i roi gwybodaeth am ddyraniad o 'gronfeydd twf' Ewropeaidd, er enghraifft y SLGF a'r ESIF. Mae meini prawf ar gyfer dyraniad yr arian hwn yn cynnwys diogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy, sy'n rhoi cyfle i isadeiledd dŵr sy'n cefnogi defnydd effeithiol a chynaliadwy o ddŵr.

Adolygiad o ddynodiadau Cyfarwyddeb Rheoli Dŵr Gwastraff Trefol

Mae'r Gyfarwyddeb Rheoli Dŵr Gwastraff Trefol yn amcanu i warchod yr amgylchedd dŵr rhag effeithiau adweithiol gollyngiadau o ddŵr gwastraff trefol a rhai gollyngiadau diwydiannol. Gwneir hyn trwy ddynodi isafbwynt anghenion triniaeth yn ogystal â thriniaeth trydyddol mwy caeth pan fo angen gwarchod dyfroedd derbyn sensitif penodedig.

Adolygir ardaloedd sensitif penodedig pob 4 mlynedd yn Lloegr ar hyn o bryd, gyda'r adolygiad diweddaraf wedi ei gwblhau yn Rhagfyr 2015. Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn dymuno gweld symudiad tuag at gylchoedd o 6 mlynedd er mwyn alinio gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ond byddai hyn yn galw am newid mewn deddfwriaeth.

Cyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth yr UE

Mae'r adolygiadau i'r Gyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth wedi ei drawsodi i ddeddfwriaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion newydd, erbyn 22 Rhagfyr 2018, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflwyno rhaglen fonitro atodol a rhaglen ragarweiniol o fesurau i'r Comisiwn Ewropeaidd, gyda'r nod o gyrraedd statws cemegol da erbyn 2027. Yn Lloegr, bydd angen i'r mesurau gofynnol gael eu hystyried yng nghynlluniau buddsoddi y Cwmni Dŵr, fel rhan o Adolygiad Pris 2019, ac fe fydd yn cael ei gwblhau yn adolgiad 2021 o gynlluniau rheolaeth basn afon. Bydd yr holl fesurau yn cael eu gwneud yn weithredol erbyn 2024.

Yn Lloegr, mae archwiliadau rhagarweiniol o gemegion gyda safonau Ewropeaidd newydd yn nodi y byddant yn medru cael effaith sylweddol ar statws da yn y dyfodol. Carthion yw'r tarddle allweddol mae'n debyg ar gyfer rhai o'r cemegion hyn. Tra bo trin carthion yn effeithiol yn gyffredinol wrth leihau mewnlifoedd, efallai nad ydyw bob amser yn ddigonol. Mae cyfyngiadau neu rwystradau ar ddefnyddio rhai sylweddau, ond gall gymryd blynyddoedd lawer i weld crynodiadau amgylcheddol is.

Adolygiad o brisio cyfyngol Cwmnïau Dŵr

Bydd disgwyl i Ofwat adolygu'r prisiau y gall cwmnïau dŵr eu codi ar eu cwsmeriaid yn 2019. Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i gwmnïau dŵr ddiweddarau eu cynlluniau busnes i gynnwys (ymysg pethau eraill) y gwelliannau amgylcheddol ychwanegol a gytunwyd ganddynt â'u cwsmeriaid ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Strategaeth Dŵr ar gyfer Cymru

Mae'r strategaeth hon yn gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf yng nghyd destun Bil yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ynghyd â'r strategaeth mae cynllun gweithredu gyda cerrig milltir hyd at 2025 (a thu hwnt)

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2015-18 yn cynnwys rhoi mwy o ffocws i ddulliau rheoli carthffosiaeth a draenio a datblygiad a gweithrediad deddfwriaeth i gefnogi datrysiad i ddraeniad mwy cynaliadwy, diwygio system trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau dŵr nawr ac yn y dyfodol, ac adolygiad, a, lle bo'n addas, newidiadau i arferion presennol a dulliau rheoli i ymdrin â llygredd gwasgaredig.

Polisi Amaethyddol Cyffredin

Mae'r cytundeb presenol ar gyfer ariannu o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn cynnwys y cynllun taliad sylfaenol a rhaglen ddatblygu gwledig sy'n cwmpasu Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn dod i ben yn Rhagfyr 2020. Nid yw trafodaethau ar gyfer ariannu ar gyfer y cyfnod 2021 i 2027 wedi cychwyn eto.

Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Bydd y Cwmnïau Dŵr yn cyhoeddi eu cynlluniau newydd yn 2019. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos sut y byddant yn cydbwysu'r galw am a chyflenwi dŵr dros gyfnod o 25 mlynedd. Bydd y cynlluniau newydd yn eu galluogi i ystyried y newidiadau a ddisgwylir mewn galw, ac mewn argaeledd cyflenwad o ganlyniad i newid hinsawdd, twf poblogaeth yn ogystal ag unrhyw fesurau angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol.

Adologiad o barthau perygl nitradau dynodedig a chynlluniau gweithredu

Pob 4 mlynedd mae disgwyl i'r DU adolygu tystiolaeth mewn perthynas â hyd a lled Parthau Perygl Nitradau (NVZ), ac effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a gyflwynwyd gan y Rheoliadau ac i weithredu newidiadau lle bo'r angen. Mae NVZs yn ffordd o leihau neu atal llygredd dŵr o ganlyniad i nitradau o ffynonellau amaethyddol. Mae'r adolygiad nesaf ar y gweill ac unrhyw newidiadau yn debygol o gael eu gweithredu yn Ionawr 2017.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ynghylch y mesurau arfaethedig i osgoi dirywiad ar gyfer pob un o'r materion rheoli dŵr arwyddocaol yn adran 3.2

Gwybodaeth mewn llyfdd eraill yn y cynllun rheoli basn afon

- Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y Gwerthusiad economaidd dalgychol yn adran 5.5 o [Part 2: RBMP overview \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).

Gwybodaeth ategol

- Gallwch ddarganfod rhestr o'r mesurau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd amcanion bwrdd dŵr ar gyfer 2027 a thu hwnt ar wasanaeth rhannu ffeiliau Asiantaeth yr Amgylchedd [ShareFile service \(https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9\)](https://ea.sharefile.com/d-sabbd14301a44d5e9).
- Gallwch ddarganfod yr asesiad effaith ar gynllun rheoli basn afon [ar dudalenau gwe \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).

3.6 Mesurau ychwanegol er mwyn cyflawni amcanion ardaloedd gwarchoddedig

Datblygwyd mesurau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig sydd mewn perygl neu nad ydynt yn cyfarfod yr amcanion ar hyn o bryd. Mae Tabl 24 yn crynhoi proses y cynllun gweithredu.

Tabl 24: Crynodeb o fesurau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig

Ardal Warchoddedig	Rhaglen
Ardaloedd Gwarchod Dŵr Yfed – dŵr wyneb a dŵr daear	Mae parthau diogelu wedi eu sefydlu ar gyfer ffynonellau dŵr mewn ardaloedd gwarchod dŵr yfed, lle bo triniaeth ychwanegol yn debygol o fod yn angenrheidiol yn y dyfodol. Mae cynlluniau gweithredu parthau diogelu wedi cael eu datblygu yn ogystal â mesurau angenrheidiol ar gyfer rheoli digwyddiadau a fyddai'n gallu peryglu ansawdd dŵr amrwd ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear.
Dyfroedd hamdden (dŵr ymdrochi)	Mae proffiliau dyfroedd ymdrochi wedi eu cynhyrchu ar gyfer pob ardal ddynodedig. Maent yn cynnwys manylion o'r mesurau angenrheidiol i allu cydymffurfio â'r safonau diwygiedig a ddaeth i rym yn 2015. Ceir gwybodaeth bellach ar y mesurau angenrheidiol ar gyfer y dyfroedd ymdrochi sydd mewn perygl o fethu a chyrraedd safon derbynol yn 2015 yn y cynlluniau gweithredu dŵr ymdrochi (parhau mewn perygl).
Ardaloedd maetholion sensitif (Cyfarwyddeb Rheoli Dŵr Gwastraff Trefol)	Mae mesurau wedi eu hadnabod i sicrhau bod yr holl ollyngiadau perthnasol o weithfeydd trin o fewn ardal sensitif yn cyrraedd safonau allyriadau ffosffadau neu nitrogen.
Ardaloedd maetholion sensitif (parthau perygl nitradau)	Amcanion y Gyfarwyddeb Nitradau yw lleihau llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol ac i atal llygru pellach. Mae Parthau Perygl Nitradau (NVZ's) yn cael eu dynodi lle bo crynodiadau mewn dŵr wyneb a/neu dŵr daear yn uchel neu yn cynyddu, neu lle bo dŵr yn, neu yn debygol o fynd yn ewtroffig, o ganlyniad i lygredd nitradau amaethyddol. Rhaid i ffermwyr o fewn Parthau Perygl Nitradau gydymffurfio â rhaglen weithredu orfodol i leihau colledion nitradau amaethyddol. Yn ychwanegol mae cod ymarfer amaethyddol da wedi ei sefydlu ac yn wirfoddol i bob ffermwr ei weithredu.
Natura 2000: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n ddibynol ar Ddŵr (SACs) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Adar Gwyllt (SPAs)	Yn Lloegr, Mae Natural England wedi datblygu cynlluniau gwella safle (SIPs) ar gyfer ardaloedd sy'n ddibynol ar ddŵr. Mae SIPs yn rhoi trosolwg o faterion sy'n effeithio ar gyflwr ardal; adnabod blaenoriaethau i'w gweithredu, amserlenni ar gyfer gweithrediadau a ffynonellau ariannu posib. Mae Natural England yn monitro, adolygu ac yn diweddarau'r SIPs lle bo angen. Yng Nghymru, Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu cynlluniau blaenoriaethu gwelliannau ar gyfer holl ardaloedd Natura 2000 sydd ddim wedi cyrraedd statws ffafriol ar hyn o bryd. Bydd y cynlluniau hyn ynghyd â chynlluniau thematig yn mynd i'r afael â materion strategol allweddol, gan gyfrannu i gyflawni'r amcanion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ar gyfer ardaloedd trawsffiniol, bydd un cynllun yn cael ei gynhyrchu. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r Cynlluniau Rheolaeth Craidd ar gyfer ardaloedd Natura 2000 er mwyn sicrhau bod y targedau yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwybodaeth ategol:

- Gallwch ddarganfod mwy o wybodath am y mesurau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig yn Lloegr yn y lleoliadau canlynol:
 - Ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed [dŵr wyneb \(https://ea.sharefile.com/d-scac3ff7da4a424eb\)](https://ea.sharefile.com/d-scac3ff7da4a424eb) ac ar gyfer [dŵr daear \(https://ea.sharefile.com/d-sa22fd79de304532a\)](https://ea.sharefile.com/d-sa22fd79de304532a)
 - Gallwch gael mynediad i fwy o wybodaeth ar ddyfroedd hamdden ar [Bathing Water Explorer \(http://environment.data.gov.uk/bwq/profiles/\)](http://environment.data.gov.uk/bwq/profiles/) ac yn y cynlluniau gweithredu dŵr ymdrochi (parhau mewn perygl) ar wasanaeth rhannu ffeiliau Asiantaeth yr Amgylchedd [ShareFile service https://ea.sharefile.com/d-s2c9919e38f04798b](https://ea.sharefile.com/d-s2c9919e38f04798b)
 - Ar gyfer Parthau Perygl Nitradau ewch i dudalenau [gwe NVZ web \(https://www.gov.uk/nitrate-vulnerable-zones\)](https://www.gov.uk/nitrate-vulnerable-zones)
 - Mae cynlluniau gwella ardal Natura 2000 ar gael ar wefan Natural England [gwefan \(http://publications.naturalengland.org.uk/category/4878851540779008\)](http://publications.naturalengland.org.uk/category/4878851540779008)
- Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y mesurau ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig yng Nghymru yn y lleoliadau canlynol
 - Gallwch gael mynediad i fwy o wybodaeth ar [gynlluniau gweithredu dŵr ymdrochi ar \(https://naturalresources.wales/water/quality/bathing-water-quality/?lang=en\)](https://naturalresources.wales/water/quality/bathing-water-quality/?lang=en)
 - Ar gyfer Parthau Perygl Nitradau ewch i [dydalenau gwe NVZ \(https://naturalresources.wales/water/quality/nitrate-vulnerable-zones/?lang=en\)](https://naturalresources.wales/water/quality/nitrate-vulnerable-zones/?lang=en)
 - Mae cynlluniau gwella Natura 2000 ar gael trwy gytundeb trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Cysylltwch gydag tim Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru ar: WFDWales@naturalresourceswales.gov.uk.

4. Newidiadau rhwng 2009 a 2015

Mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni a'r hyn sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r cynllun rheoli basn afon cyntaf yn 2009.

Mae'n cynnwys crynodeb o'r gwelliannau a wnaed i'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth gynllunio rheoli basn afon, adroddiad ar weithredu mesurau, a chrynodeb o'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion amgylcheddol yng nghynllun 2009 a ble nad oes cynnydd wedi'i wneud.

Mae manylion pellach am Gymru ar gyfer yr adran hon i'w gweld yn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon i Gymru 2009-2015 ar wahân.

4.1 Tystiolaeth well

Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud llawer i wella dealltwriaeth o'r amgylchedd dŵr. Mae maint ac ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael wedi tyfu yn sgil buddsoddiad sylweddol.

- Yn Lloegr, mae £4.7 miliwn ychwanegol wedi'i fuddsoddi mewn rhaglen monitro ecolegol newydd ar gyfer afonydd a £1.5 miliwn ychwanegol wedi'i fuddsoddi mewn technoleg monitro gemegol. Mae hyn yn golygu bod nifer y canlyniadau dosbarthu yn yr ardal basn afon wedi cynyddu o 7,352 yn 2009 i 7,486 yn 2015.
- Yn yr ardal basn afon, mae mwy na 1,600 o ymchwiliadau wedi'u cynnal i adnabod y rhesymau (pwysau, a ffynonellau'r pwysau) pam nad yw statws da ac amcanion ardal warchoddedig wedi'u cyflawni.
- Mae'r camau a fyddai'n ofynnol i gyflawni statws da ac amcanion ardal warchoddedig wedi'u hadnabod.
- Trwy werthusiad economaidd manwl, mae gwell dealltwriaeth o'r buddion y gall yr amgylchedd dŵr eu darparu a chost y mesurau sy'n ofynnol i wireddu'r buddion.
- Mae'r genhedlaeth ddiweddaraf o feini prawf asesiad amgylcheddol wedi'u cyflwyno ar y cyd gydag ystod o bartneriaid a gwyddonwyr blaenllaw. Mae'r gwelliannau hyn i'r dulliau yn golygu bod y canlyniadau dosbarthu bellach yn ddehongliad gwell o iechyd cyffredinol yr amgylchedd dŵr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:
 - safonau newydd ar gyfer sylweddau cemegol ychwanegol
 - safonau wedi'u diweddarau ar gyfer elfennau ffisio-gemegol cyffredol
 - offer asesu biolegol newydd a gwell a gwerthoedd ffin dosbarthu biolegol rhyng-galibredig newydd.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud wrth fapio'r rhwydwaith ardal ddyfrol.
- Mae asesiadau risg gwell wedi'u cyflwyno i helpu i dargedu rhaglenni monitro yn y dyfodol, ac yn rhagfynegi ac yn helpu i atal dirywiad posibl yn yr amgylchedd dŵr.

Defnyddiwyd y dystiolaeth newydd hon wrth adolygu a diweddarau'r amcanion amgylcheddol yng nghynllun 2009.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Gallwch weld crynodebau o'r canlyniadau dosbarthu ardaloedd dyfrol diweddaraf a'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da yn adran 5.
- Gallwch weld rhagor o wybodaeth ar asesiadau risg yn adran 1.4.

Gwybodaeth mewn man arall yn y cynllun rheoli basn afon

- Mae rhagor o wybodaeth yn [Rhan 2: Trosolwg RBMP](#) sydd ar gael ar dudalennau gwe cynllun rheoli basn afon (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) i weld:
 - y broses a ddefnyddir i adolygu a diweddarau'r amcanion amgylcheddol yng nghynllun 2009, yn adran 5.2
 - mesurau adnabod yn adran 5.2
 - gwerthusiadau economaidd yn adran 5.3
 - adolygu'r rhwydwaith ardaloedd dyfrol yn adran 4.1
 - adolygu a diweddarau dynodiadau ardaloedd dyfrol a addaswyd yn sylweddol yn adran 4.1
 - asesiadau risg diwygiedig yn adran 4.4
- Mae mapiau GeoPDF yn dangos y canlyniadau dosbarthu diweddaraf ar gyfer ardal basn afon Hafren gyfan i'w gweld ar [wasanaeth Rhannu Ffeiliau](#) (<https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818>) Asiantaeth yr Amgylchedd
- Gallwch weld taenlen yn cynnwys y rhesymau dros beidio â chyflawni statws da ar gyfer adran Basn Afon Hafren ar [wasanaeth Rhannu Ffeiliau](#) (<https://ea.sharefile.com/d-s0faa355450243538>) Asiantaeth yr Amgylchedd

Gwybodaeth ategol

- Gallwch ganfod disgrifiad llawn o'r newidiadau i'r safonau amgylcheddol ar [wefan UKTAG](#) (<http://www.wfduk.org/>).
- Mae disgrifiad llawn o'r newidiadau i'r dulliau biolegol i'w gweld ar [wefan UKTAG](#) (<http://www.wfduk.org/>).
- Mae gwybodaeth fanylach ar gynnydd yng Nghymru ar weithredu Cynlluniau 2009 yn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon i Gymru 2009-2015 (<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en>).

4.2 Mesurau a weithredwyd

Mesurau bwriadol a weithredwyd ers 2009

Mae rhan fwyaf y mesurau (dros 95%) a grynhoir yng nghynlluniau 2009 wedi'u cwblhau.

Mae rhai mesurau heb eu cwblhau yn yr ardal basn afon am y rhesymau a ganlyn:

- 18 o fesurau wedi'u hailasesu ac nid oes eu hangen mwyach neu nid ydynt yn cael eu hystyried yn effeithiol
- ni chafodd 2 eu hariannu (ariannu wedi'i dynnu yn ôl)
- ni chafwyd dull i weithredu 5 o'r mesurau

Mesurau ychwanegol a weithredwyd ers 2009

Ynghyd â'r mesurau yng nghynlluniau 2009, mae nifer sylweddol o fesurau eraill wedi'u gweithredu. Er enghraifft yn Lloegr, darparodd y llywodraeth £90 miliwn ychwanegol rhwng 2010 a 2015 ar gyfer mesurau ychwanegol i wella'r amgylchedd dŵr ffisegol, gostwng llygredd, a gostwng effaith rhywogaethau estron goresgynnol.

Amcangyfrifir bod y mesurau ychwanegol yn yr ardal basn afon yn cynrychioli buddsoddiad pellach o £11.5 miliwn o leiaf. Mae Tabl 25 yn rhoi crynodeb o'r materion y mae mesurau ychwanegol yn Lloegr yn ardal basn afon Hafren yn mynd i'r afael â hwy ac arwydd o raddfa'r mesurau ychwanegol.

Mae gwybodaeth bellach o'r mesurau ychwanegol yng Nghymru yn ardal basn afon Hafren wedi'u cynnwys yn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon i Gymru 2009-2015 ar wahân.

Tabl 25 – Crynodeb o'r mesurau ychwanegol yn Lloegr yn ardal basn afon Hafren

Mater rheoleiddio dŵr arwyddocaol	Nifer y mesurau	Cost (£Miliwn)	Nifer yr ardaloedd dyfrol sy'n elwa
Addasiadau ffisegol	75	5.8	141
Llygredd o ardaloedd gwledig	20	4.0	94
Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth	9	0.84	36
Llygredd o fwyngloddiau segur	0	0.0	0
Rhywogaethau estron goresgynnol	2	0.1	10
Arall	3	0.69	7
Cyfanswm	109	11.5	288

Gwybodaeth ategol

- Gallwch lawrlwytho taenlen o'r mesurau lleol ychwanegol a weithredwyd o 2009 o [wasanaeth Rhannu Ffeiliau \(https://ea.sharefile.com/d-s13e5e39caef432d9\)](https://ea.sharefile.com/d-s13e5e39caef432d9) Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Mae gwybodaeth fanylach ar fesurau ychwanegol yng Nghymru yn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Ardal Basn Afon i Gymru 2009-2015 (<https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en>).

Effeithiolrwydd mesurau a weithredwyd ers 2009

Mae rhan fwyaf y mesurau a weithredwyd rhwng 2009 a 2015 wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr amgylchedd dŵr, gan ddarparu buddion ychwanegol sylweddol. Serch hynny, nid yw graddfa'r gwelliannau wedi bod yn ddigon bob amser i sicrhau cydymffuriad llawn ag amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (amcanion statws ardal warchoddedig ac ardaloedd dyfrol) a osodwyd yng nghynllun 2009. Mae Adran 4.3 yn adnabod rhai o'r rhesymau dros hyn.

Ar gyfer Cymru mae gwybodaeth fanwl ar gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr gan gynnwys gwybodaeth ar effeithiolrwydd y mesurau a weithredwyd wedi'i chynnwys mewn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon i Gymru 2009-2015 ar wahân.

Ar gyfer Lloegr, mae Tabl 26 yn cynnwys crynodeb ar ba mor effeithiol oedd y mesurau a weithredwyd ers 2009 wrth gyflawni amcanion amgylcheddol WFD. Mae mesurau wedi'u grwpio gan bob mater rheoleiddio dŵr arwyddocaol. Mae'r asesiad wedi'i seilio ar y mesurau a weithredwyd ar draws Lloegr yn gyffredinol, ac nid dim ond yn rhan Lloegr o ardal basn afon Hafren.

Tabl 26: Asesiad cryno o effeithiolrwydd mesurau ar gyfer pob mater rheoleiddio dŵr arwyddocaol (asesiad lefel Lloegr gyfan)

Addasiadau ffisegol

Rhwystrau

Yn gyffredinol mae tynnu neu ostwng coredu ac adeiladu ysgolion pysgod wedi bod yn effeithiol. Mewn rhai achosion, nid yw wedi bod yn bosibl tynnu'r pwysau yn llwyr oherwydd gwerth hanesyddol y rhwystr neu'r angen i atal erydiad neu symud gwaddodion wedi'u halogi. Mewn rhai achosion nid yw cydymffuriad llawn ag amcanion amgylcheddol WFD wedi'i gyflawni hyd yma oherwydd bod rhwystrau eraill mewn man arall yn parhau yn bresennol yn y dalgylch.

Gwella cynefin

Yn gyffredinol mae gwelliannau i gynefinoedd, o adfer afon ar raddfa fawr i gynlluniau gweddol fach ar gyrsiau dŵr bach, wedi bod yn effeithiol. Maen nhw wedi arwain at welliannau mewn poblogaethau pysgod a bywyd gwyllt arall. Ni fydd effeithiolrwydd y cynlluniau hyn wrth gyflawni cydymffuriad ag amcanion amgylcheddol WFD yn dod i'r amlwg hyd nes y bydd y cynefin newydd a'r bywyd gwyllt cysylltiedig wedi aeddfedu. Mewn rhai achosion, disgwylir y bydd angen gwaith adfer ychwanegol mewn man arall yn y dalgylch i gefnogi ecosystem sy'n gweithio'n llawn.

Llygredd o ddŵr gwastraff

Gweithredwyd dros 300 o gynlluniau gwella mewn gweithiau trin carthion ers 2009. Mae'r rhain wedi bod yn effeithiol wrth helpu i gyflawni cydymffuriad ag amcanion amgylcheddol WFD.

Llygredd o ardaloedd gwledig

Cyngor llywodraeth

Roedd Ffermio Sensitif i'r Dalgylch yn effeithiol wrth annog ffermwyr i fabwysiadu mesurau i helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol WFD (yn bennaf ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig). O fewn ardaloedd ble'r oedd Ffermio Sensitif i'r Dalgylch wedi'i dargedu, rhwng 2006 a 2013, amcangyfrifir bod maint y llygredd (gan gynnwys ffosforws, nitrad, gwaddod ac organebau

sy'n arwydd o ysgarthion) a ryddhawyd o ffynonellau amaethyddol wedi gostwng gan rhwng 4% a 12% (ar gyfartaledd).

Rheoliad

Mae rheoliad wedi gostwng effaith digwyddiadau llygredd ac wedi helpu i atal dirywiad. Ceir peth tystiolaeth bod cynlluniau gweithredu ar gyfer parthau dan fygythiad nitrad wedi helpu i ostwng llygredd o faetholion. Dim ond dros gyfnod hwy y gellir asesu'r effeithiolrwydd cyffredinol.

Mentrau diwydiant

Mae nifer o gynlluniau wedi hyrwyddo camau gwirfoddol gan gynnwys, cyngor a grantiau trwy grwpiau dalgyrch lleol, cyngor trwy'r Ymgyrch dros yr Amgylchedd a Ffermir, a gwaith wedi'i arwain gan gwmnïau dŵr i wella ansawdd y dŵr maen nhw'n ei dynnu i gyflenwi dŵr i'r cyhoedd. Mae cyngor yn effeithiol wrth hyrwyddo mabwysiadu arfer ffermio da. Mae mesurau sydd yn mynd y tu hwnt i arfer da yn cynyddu'n sylweddol ble y mae grantiau wedi'u darparu. Arweiniodd llawer o'r cynlluniau hyn at welliannau i'r amgylchedd dŵr yn lleol.

Stiwardiaeth amgylcheddol (2006 i 2014)

Cafwyd defnydd da ar fesurau i warchod yr amgylchedd dŵr. Ni chafodd mesurau eu gosod bob amser ble oedd modd sicrhau'r budd mwyaf na'r defnydd wedi'i ganolbwyntio'n ddigonol o fewn dalgyrch i ostwng pwysau digon i gyflawni cydymffurfiad ag amcanion amgylcheddol WFD.

Trawsgydymffurfio

Roedd cydymffurfiad ag amodau amgylcheddol ynghlwm wrth y Taliad Sengl yn uchel. Cryfhawyd yr amodau amgylcheddol yn 2010 a 2015. Cafodd y mesurau cysylltiedig effaith fechan ar ansawdd yr amgylchedd dŵr.

Newidiadau i lif a lefel naturiol y dŵr

Newidiadau yn nhrwyddedau tynnu dŵr

Mae'r rhaglen Adfer Tynnu Dŵr Cynaliadwy wedi bod yn effeithiol wrth wella cynefin ar gyfer pysgod a bywyd gwylt arall. Mae camau gwirfoddol a gorfodol wedi arwain at newidiadau i dros 200 o drwyddedau tynnu dŵr (gan Asiantaeth yr Amgylchedd a llywodraeth). O ganlyniad i hyn, mae 27 biliwn litr o ddŵr wedi'u dychwelyd i'r amgylchedd.

Yn genedlaethol mae'r rhaglen hon wedi bod yn effeithiol wrth helpu i gyflawni cydymffurfiad gydag amcanion amgylcheddol WFD, yn arbennig y rheini ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000

Rheoli galw

Mae rheoli galw a thechnegau arbed dŵr wedi'u gweithredu gan lawer o sectorau gan gynnwys llywodraeth, diwydiant dŵr, cyrff annibynnol a chymdeithasau masnach.

Mae Cynlluniau/Fframweithiau Datblygu Lleol wedi'u cyflwyno sy'n amlinellu polisiau cynllunio lleol sy'n gofyn i gartrefi newydd fodloni safon arbed dŵr llymach o 110 litr y person y dydd fel y disgrifir yn Rhan G Atodlen 1 y Rheoliadau Adeiladu 2010.

Mae cwmnïau dŵr wedi gostwng gollyngiadau o'u rhwydweithiau cyflenwi ac wedi cynyddu nifer y cartrefi gyda mesuryddion ar draws ardaloedd dan straen dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi bod yn effeithiol ar raddfa leol.

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth

Mae amrywiaeth o fesurau wedi'u gweithredu i ostwng llygredd o ardaloedd trefol. Mae'r rhain yn cynnwys adfer tir wedi'i halogi; gosod systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd a chyfredol; triniaethau i gywiro dŵr ffo ar ffyrdd; camau rheoleiddio yn dilyn digwyddiadau o lygredd; mentrau i ddatrys systemau draenio brwnt sydd wedi'u cam-gysylltu; a chyngor ar atal llygredd i ddeiliaid stadau diwydiannol.

Mae rhan fwyaf o'r mesurau hyn wedi bod yn effeithiol ar raddfa leol. Serch hynny, mewn rhai achosion mae'r effeithiolrwydd yn isel, gan fod angen mwy o fesurau o fewn ardal os bydd gwelliannau yn cael eu cynnal dros dymor hir. Oherwydd graddfa, cost a chymhlethdod y mater hwn, nid yw'r mesurau wedi bod yn effeithiol wrth ostwng y pwysau ddigon i gyflawni cydymffuriad ag amcanion amgylcheddol WFD.

Rhywogaethau estron goresgynnol

Mae amrywiaeth o fesurau wedi'u gweithredu i atal cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r rhain wedi bod yn gymedrol effeithiol ac wedi arafu'r dirywiad ym mioamrywiaeth y dyfroedd sydd wedi'u heffeithio a'r lledaeniad i ddyfroedd heb eu heffeithio. Nid yw mesurau i dynnu rhywogaethau estron goresgynnol o ddyfroedd wedi'u heffeithio dim ond yn effeithiol ar gyfer lleiafrif o rywogaethau ble y mae ymateb cyflym i'w presenoldeb yn bosibl. Mae tystiolaeth a gasglwyd yng nghylch 1 wedi cadarnhau ei bod hi'n anymarferol yn dechnegol i dynnu'r rhan fwyaf o rywogaethau unwaith y maen nhw wedi'u sefydlu. Mewn lleoliadau fel safleoedd Natura 2000, gall camau dwys (a pharhaus) liniaru ar y pwysau, ond nid ei waredu.

4.3 Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion amgylcheddol yng nghynllun 2009

Atal dirywiad

Er mwyn asesu cydymffurfiad ag amcan WFD o atal dirywiad, cymharwyd canlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014) gan ddefnyddio'r safonau a'r offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009, gyda gwaelodlin dosbarthu 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd yr ardal ddyfrol wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Cafodd hyn ei gymhwyso i statws cyffredinol yr ardal ddyfrol ac i statws pob elfen a ddefnyddiwyd wrth ddsbarthu.

Crynoir canlyniadau'r asesiad hwn ar gyfer ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon yn Nhabl 27. Mae Tabl 34 yn adran 5 yn rhoi dadansoddiad fesul elfen.

Tabl 27: Ardaloedd dyfrol sydd wedi dirywio (ar >75% o hyder)

Ardaloedd dyfrol	Nifer	Canran
Statws ecolegol dŵr wyneb	16	2
Statws cemegol dŵr wyneb	0	0
Statws meintiol dŵr daear	0	0
Statws cemegol dŵr daear	0	0

Ble mae'r statws wedi dirywio, rhaid adnabod yr achos a rhaid sefydlu mesurau i adfer yr ardal ddyfrol i'w statws blaenorol cyn gynted â phosibl.

Mewn rhai achosion, gallai adrodd ar ddirywiad fod o ganlyniad i newidiadau i raglenni monitro neu o ganlyniad i brosesau monitro ac asesu (gwall samplu). Gall gwahaniaethu'r newidiadau hyn oddi wrth ddirywiad gwirioneddol yn ansawdd yr amgylchedd sydd wedi'i achosi gan weithgaredd newydd neu newid i bwysau cyffredol o fewn dalgylch fod yn anodd.

Mae Tabl 34 yn adran 5 yn cynnwys crynodeb o achosion dirywiad sydd eisoes wedi'u hadnabod. Mae'r crynodeb hwn ar gyfer pob elfen yn ôl pwysau a sector. Gallwch hefyd lawrlwytho taenlen yn cynnwys yr elfennau ardal ddyfrol sydd wedi dirywio mewn statws ers 2009 (gweler y blwch gwybodaeth bellach ar ddiwedd yr adran hon).

O dan rai amgylchiadau a rhai penodol, caniateir dirywiad mewn statws. Disgrifir yr amgylchiadau hyn yn Erthygl 4.6 (dirywiad dros dro) ac Erthygl 4.7 (addasiadau newydd) o'r WFD. Nid oes unrhyw achosion sy'n bodloni'r gofynion hyn wedi'u hadnabod yn yr ardal basn afon hon.

Amcanion ardal warchoddedig

Ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r awdurdod cymwys ar gyfer y gyfarwyddeb dŵr yfed. Maen nhw'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cydymffurfiad â gofynion ansawdd dŵr y gyfarwyddeb.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi sefydlu parthau diogelu ac wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer pob ardal warchoddedig dŵr yfed perthnasol i reoli'r risg o ansawdd dŵr yn dirywio.

Yn dilyn gwelliannau yn y wybodaeth o'r pwysau o fewn dalgylchoedd, rhaglenni monitro gwell ar gyfer cemegion ac echdyniadau newydd sydd wedi digwydd, mae nifer yr ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed sydd wedi'u dosbarthu wrth risg o ddirywiad ansawdd dŵr neu ar statws cemegol gwael (ar gyfer dŵr daear yn unig) wedi cynyddu. Mae mesurau fel darparu cyngor ac arweiniad i randdeiliaid, grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau isadeiledd (er enghraifft gwelyau bio) a thaliad ar gyfer gwasanaethau ecosystem oll wedi'u defnyddio i ddiogelu ansawdd dŵr o fewn ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (pysgod dŵr croyw)

Cafodd y gyfarwyddeb pysgod dŵr croyw ei diddymu ym mis Rhagfyr 2013. Daeth effaith yr amcanion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig pysgod dŵr croyw i ben o'r dyddiad hwnnw. Darperir lefel gyfwerth o amddiffyniad gan yr amcanion ardal ddyfrol yn y cynllun hwn.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Cyflwynodd gyfarwyddeb dŵr ymdrochi ddiwygiedig amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr ymdrochi o 2015. Ceir crynodeb o ddisbarthiad arfaethedig o ddyfroedd ymdrochi yn erbyn y safonau newydd yn adran 2.4. Aseswyd cydymffurfiaid â safonau ansawdd dŵr yr hen gyfarwyddeb dŵr ymdrochi am y tro olaf yn 2014. Crynhoir y canlyniadau hyn yn Nhabl 28. Mae hyn yn dangos cynnydd yn y cydymffurfiaid ers 2009.

Tabl 28: Cydymffurfiaid dŵr ymdrochi gyda'r hen amcanion Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (1876):

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% sy'n cydymffurfio â safonau gorfodol	% sy'n cydymffurfio â'r safonau canllaw
2009	4	100	50
2014	5	100	40

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr

Yn 2009 roedd 11 o ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000 yn Lloegr yn ardal basn afon Hafren ag amcan o gynnal neu gyflawni eu hamcanion cadwraeth sy'n dibynnu ar ddŵr erbyn 2015 (wedi'i asesu ar sail mesurau ar waith/wedi'u cwblhau, pwysau hysbys, mesurau a rhagwelir a gwelliannau tebygol yn y cyflwr). O blith y rhain, roedd y mesurau i gyd wedi'u cwblhau gyda 6 o'r rhain (h.y. nid oes angen unrhyw ymyrraeth bellach) i alluogi i'w amcanion sy'n dibynnu ar ddŵr i gael eu cyflawni erbyn 2015, wedi'i seilio ar wybodaeth ar bwysau cyfredol ar y safleoedd.

Mae manylion cynnydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000 yng Nghymru yn ardal basn afon Hafren wedi'u cynnwys mewn Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon i Gymru 2009-2015 ar wahân.

Amcanion statws ardal ddyfrol

O ganlyniad i'r gwelliannau yn y monitro, safonau ac offer dosbarthu a ddisgrifir yn adran 4.1, nid yw'n bosibl adnabod newid amgylcheddol yn syml trwy gymharu gwaelodlinau dosbarthu 2009 a 2015. Yn lle hynny, mae set o ganlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014) wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio'r safonau a'r offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009. Mae hyn yn helpu i adnabod ble y gallai fod newid amgylcheddol gwirioneddol ers 2009.

Mae Tabl 29 yn dangos canran yr ardaloedd dyfrol ar statws da ar gyfer:

- gwaelodlin 2009
- canlyniadau rhagamcanol 2015 yng nghynlluniau 2009
- canlyniadau dosbarthu 2015 a gynhyrchwyd gan ddefnyddio dulliau 2009

Tabl 29: Cymharu gwaelodlin 2009 gyda chanlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol yn 2015 (gan ddefnyddio'r rhwydwaith ardal ddyfrol, safonau ac offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009)

Canran yr ardaloedd dyfrol ar statws da neu well	2009	2015 rhagamcanol	2015 gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	29	34	27
Statws cemegol dŵr wyneb	8	8	14
Statws meintiol dŵr daear	74	74	74
Statws cemegol dŵr daear	77	77	67
Statws cyffredinol	30	35	28

Er bod llawer o'r mesurau a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd diwethaf yn darparu buddion i'r amgylchedd lleol, mae'r gymhariaeth yn dangos gostyngiad yn nifer yr ardaloedd dyfrol ar statws da. Ar ôl 2009 sefydlwyd monitro biolegol ychwanegol ac mae cynllun y rhwydwaith monitro wedi gwella. Mae'r monitro newydd wedi datgelu mwy o symptomau o faterion amgylcheddol. Nid yw'r newid rhwng 2009 a 2015 a adroddir yn y tabl uchod o reidrwydd yn dangos dirywiad amgylcheddol gwirioneddol. Dros y cyfnod hwn, fe wnaeth 584 o elfennau ardal ddyfrol unigol wella gan un dosbarth neu'n fwy.

Mae'r rhesymau pam nad yw'r gwelliant a ragfynebwyd mewn statws wedi'i weld hyd yma yn cynnwys:

- nid yw'r mesurau wedi bod mor effeithiol wrth ostwng pwysau ar raddfa'r ardal ddyfrol yn ôl y disgwyl
- nid oedd y safonau amgylcheddol yr oedd y mesurau wedi'u cynllunio i'w cyflawni yn ddigon tynn i amddiffyn yr elfennau biolegol yn llawn
- mae pwysau yn gweithredu ar yr ardaloedd dyfrol nad oeddynt yn hysbys yn 2009
- gwelliannau yn y rhwydwaith monitro yn adnabod bod pwysau yn cael mwy o effaith na ddatgelwyd yn flaenorol, mae'r pwysau wedi gostwng ond nid yw'r fioleg wedi gwella'n llawn hyd yma
- mae rhai elfennau dosbarthu wedi gwella yn eu statws, ond nid oes unrhyw welliant yn statws yr ardal ddyfrol wedi'i adrodd oherwydd defnydd o'r rheol dosbarthu 'un allan y cyfan allan'

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon

- Gallwch ganfod crynodeb o achosion y dirywiad sydd eisoes wedi'u hadnabod yn adran 5.

Gwybodaeth mewn man arall yn y cynllun rheoli basn afon

- Mae esboniad fanylach o'r ymdriniaeth i atal dirywiad i'w cael yn adran 2.2 o [Ran 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) a'r [Atodiad Trosolwg Cynllun Rheoli Basn Afon \(https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en\)](https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=en).
- Mae manylion ar yr amgylchiadau ble y gallai dirywiad gael ei ganiatáu (dirywiad dros dro neu addasiadau newydd) yn adran 3.1.4 [Rhan 2: Trosolwg RBMP \(www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015\)](http://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015) a'r [Atodiad Trosolwg Cynllun Rheoli Basn Afon](#).
- Gallwch lawrlwytho taenlenni ar gyfer ardal basn afon Hafren yn cynnwys:
 - taenlen yn cynnwys y gwaelodlin dosbarthu 2009, canlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol ar gyfer 2015 gan ddefnyddio'r safonau a'r offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009
 - map o ganlyniadau dosbarthu 2015 gan ddefnyddio'r safonau a'r offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009
 - taenlen yn cynnwys yr elfennau ardal dyfrol sydd wedi dirywio yn eu statws ers 2009 o [wasanaeth Rhannu Ffeiliau \(https://ea.sharefile.com/d-s13e5e39caef432d9\)](https://ea.sharefile.com/d-s13e5e39caef432d9) Asiantaeth yr Amgylchedd).

5. Crynodeb o'r Ystadegau

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ystadegau allweddol i'r ardal basn afon ar lefel ardal ddyfrol ac elfen ansawdd.

Tablau crynhoi ystadegau

Mae'r tablau yn yr adran hon yn rhoi crynodeb o ddata'r cynllun ar gyfer yr ardal basn afon a gellir eu defnyddio fel cyfeirnod cyflym. I ddeall diben y data a sut y'u crëwyd gweler yr adrannau perthnasol yn y ddogfen hon. Gellir cyrchu'r data manwl tu ôl y crynodebau hefyd drwy ddilyn y dolenni yn yr adrannau perthnasol.

Mae'r disgrifiadau canlynol yn egluro cynnwys y tablau ac mae'r bocs gwybodaeth bellach yn dangos ble gellir cael rhagor o wybodaeth.

- **Tabl 30: Crynodeb o ystadegau ar gyfer ardal basn afon Hafren: Ardaloedd dyfrol:** dangos statws, yn ôl canran, y gwahanol fathau o ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon. Mae hefyd yn dangos yr amcan hirdymor ac ar gyfer ardaloedd dyfrol yn Lloegr, y canlyniad disgwylidig erbyn 2021 ac ar gyfer ardaloedd dyfrol yng Nghymru, yr amcan erbyn 2021.
- **Tabl 31: Crynodeb o ystadegau ar gyfer ardal basn afon Hafren: Elfennau:** dangos statws, yn ôl canran, yr elfennau ardaloedd dyfrol yn yr ardal basn afon. Mae hefyd yn dangos y canlyniad disgwylidig erbyn 2021 a'r amcan. Yn ychwanegol, mae'n dangos yr amcan hirdymor ac ar gyfer ardaloedd dyfrol yn Lloegr, y canlyniad disgwylidig erbyn 2021 ac ar gyfer ardaloedd dyfrol yng Nghymru, yr amcan erbyn 2021.
- **Tabl 32: Y pwysau sy'n atal dyfroedd rhag cael statws da a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith (rhesymau dros fethu â chael statws da):** dangos nifer y rhesymau pam nad yw ardaloedd dyfrol yn cael statws da ar gyfer pob pwysedd a pha sector sy'n cyfrannu at hyn. Mae'r tabl yn dangos cyfrifau unigol ac efallai bod mwy nag un rheswm mewn ardal ddyfrol unigol.
- **Tabl 33: Materion Rheoleiddio Dŵr Arwyddocaol (SWMIs) sy'n atal dyfroedd rhag cael statws da a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith (rhesymau dros fethu â chael statws da):** dangos nifer y rhesymau pam nad yw ardaloedd dyfrol yn cael statws da oherwydd pob mater rheoleiddio dŵr arwyddocaol a pha sector sy'n cyfrannu at hyn. Mae'r tabl yn dangos cyfrifau unigol ac efallai bod mwy nag un rheswm mewn ardal ddyfrol unigol.
- **Tabl 34: Rhesymau dros ddirywiad mewn un neu fwy dosbarth statws rhwng 2009 a 2015 a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith:** dangos nifer y rhesymau dros ddirywiad yr elfennau ardaloedd dyfrol mewn un neu fwy dosbarth statws, gyda hyder 75%, i'r pwysedd hwnnw a pha sector sy'n cyfrannu at y dirywiad. Mae'r tabl yn dangos cyfrifau unigol, os bydd mwyn nag un elfen yn dirywio mewn ardal ddyfrol, yna rhoddir mwy nag un rheswm iddo.

Gwybodaeth bellach yn y ddogfen hon:

- Gallwch gael y manylion tu ôl i Dabl 30 a Thabl 31 ar y statws cyfredol, canlyniadau disgwylidig ac amcanion ar gyfer ardaloedd dyfrol ac elfennau yn adran 2.
- Mae manylion Tabl 33 ar faterion rheoleiddio dŵr arwyddocaol yn adran 1.4.
- Mae rhagor o wybodaeth ar Dabl 34 a'r rhesymau dros ddirywiad yn adran 4.3.

Tabl 30: Crynodeb o ystadegau ar gyfer ardal basn afon Hafren: Ardaloedd dyfrol

	Afonydd, Camlesi a SWTs*	Llynnoedd	Aberoedd	Arfordirol	Dŵr wyneb cyfunol	Dŵr daear	Pob categori dŵr
% ardaloedd dyfrol â statws ecolegol/potensial da neu well nawr	21%	13%	0%		20%		
% ardaloedd dyfrol y rhagwelir y byddant â statws ecolegol/potensial da neu well erbyn 2021	46%	40%	67%		46%		
% ardaloedd dyfrol gydag amcan o gael statws ecolegol/potensial da neu well	88%	85%	100%		88%		
% ardaloedd dyfrol â statws cemegol da nawr							
% ardaloedd dyfrol y rhagwelir y byddant â statws cemegol da erbyn 2021	98%	100%	100%		98%		
% ardaloedd dyfrol gydag amcan o gael statws cemegol da	100%	100%	100%		100%		
% ardaloedd dyfrol â statws cemegol (dŵr daear) da nawr							
% ardaloedd dyfrol y rhagwelir y byddant â statws cemegol (dŵr daear) da erbyn 2021						69%	
% ardaloedd dyfrol gydag amcan o gael statws cemegol (dŵr daear) da						90%	
% ardaloedd dyfrol gyda statws meintiol da nawr						79%	
% ardaloedd dyfrol y rhagwelir y byddant â statws meintiol da erbyn 2021						81%	
% ardaloedd dyfrol gydag amcan o gael statws meintiol da						81%	
% ardaloedd dyfrol â statws cyffredinol da neu well nawr							
% ardaloedd dyfrol y rhagwelir y byddant â statws cyffredinol da neu well erbyn 2021	46%	40%	67%		45%	60%	46%
% ardaloedd dyfrol gydag amcan o gael statws cyffredinol da neu well	88%	85%	100%		88%	71%	87%

*SWTs yw trosglwyddiadau dŵr wyneb

Tabl 31: Crynodeb o ystadegau ar gyfer ardal basn afon Hafren: Elfennau

	Afonydd, camlesi a SWTs*	Llynnoedd	Aberoedd	Arfordirol	Dŵr wyneb cyfunol	Dŵr daear	Pob categori dŵr
% elfennau ecolegol â statws da neu well nawr (llygryddion biolegol, ffisegol-gemegol a phenodol)	81%	65%	84%		80%		
% elfennau ecolegol y rhagwelir y byddant â statws da neu well erbyn 2021 (llygryddion biolegol, ffisegol-gemegol a phenodol)	87%	71%	91%		86%		
% elfennau ecolegol gydag amcan o gael statws da neu well (llygryddion biolegol, ffisegol-gemegol a phenodol)	98%	94%	100%		98%		
% elfennau cemegol â statws da nawr							
% elfennau cemegol y rhagwelir y byddant â statws da erbyn 2021	98%	100%	100%		98%		
% elfennau cemegol gydag amcan o gael statws da	100%	100%	100%		100%		
% elfennau cemegol (dŵr daear) â statws da nawr							
% elfennau cemegol (dŵr daear) y rhagwelir y byddant â statws da erbyn 2021						91%	
% elfennau cemegol (dŵr daear) gydag amcan o gael statws da						98%	
% elfennau meintiol â statws da nawr							
% elfennau meintiol y rhagwelir y byddant â statws da erbyn 2021						92%	
% elfennau meintiol gydag amcan o gael statws da						95%	
% elfennau â statws da neu well nawr							
% elfennau y rhagwelir y byddant â statws da neu well erbyn 2021	83%	73%	88%		82%	91%	83%
% elfennau gydag amcan o gael statws da neu well	89%	77%	95%		88%	92%	88%
% elfennau gydag amcan o gael statws da neu well	98%	96%	100%		98%	97%	98%

*Trosglwyddiadau dŵr wyneb

Tabl 32: Y pwysau sy'n atal dyfroedd rhag cael statws da a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith (rhesymau dros fethu â chael statws da) yn ardal basn afon Hafren:

Pwysau	Amaethydd- iaeth a rheoli tir gwledig	Diwydiant	Mwynglo- ddio a chwarela	Mordwyo	Trefol a thrafnid- iaeth	Diwydiant Dŵr	Llywodraeth leol a chanolog	Domestig cyhoedd cyffredinol	Hamdden	Trin gwastraff a gwaredu	Arall	Dim sector yn gyfrifol	Sector dan ymchwiliad	Cyfan- swm
Tynnu dŵr a llif	10	5	0	4	0	44	0	0	0	0	6	3	15	87
Cemegion	14	5	66	0	1	2	0	0	0	0	7	0	80	175
Galw am ocsigen biocemegol	1	1	0	0	2	5	0	0	0	0	0	0	1	10
Ocsigen toddedig	21	2	0	0	4	5	0	0	0	0	4	6	9	51
Amonia	9	2	0	0	5	18	0	2	0	1	0	0	6	43
Gwaddod mân	67	0	0	0	6	1	0	0	0	0	1	1	1	77
Rhywogaethau estron goresgynnol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	0	2
Nitrad	4	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	1	6
Ffosffad	637	17	0	0	103	301	0	28	0	0	3	18	40	1147
Addasiad ffisegol	31	13	0	1	22	5	8	0	0	0	19	207	40	346

Tabl 33: Materion Rheoleiddio Dŵr Arwyddocaol (SWMIs) sy'n atal dyfroedd rhag cael statws da a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith (rhesymau dros fethu â chael statws da) yn ardal basn afon Hafren

Mater rheoleiddio dŵr arwyddocaol	Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig	Diwydiant	Mwyngloddio a chwarela	Mordwyo	Trefol a thrafnidiaeth	Diwydiant Dŵr	Llywodraeth leol a chanolog	Domestig cyhoedd cyffredinol	Hamdden	Trin gwastraff a gwaredu	Arall	Dim sector yn gyfrifol	Sector dan ymchwiliad	Cyfan-sw m
Addasiadau ffisegol	39	10	0	3	22	3	8	0	0	0	23	205	41	354
Llygredd o ddŵr gwastraff	3	20	0	0	14	345	0	30	0	0	2	2	5	421
Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth	0	7	0	0	143	6	0	0	0	0	2	0	2	160
Newidiadau i lif naturiol a lefel y dŵr	16	9	0	3	0	45	0	0	0	0	7	0	5	85
Rhywogaethau estron goresgynnol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	0	2
Llygredd o ardaloedd gwledig	742	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	742
Llygredd o fwyngloddiau segur	0	0	71	0	0	0	0	0	0	0	6	0	0	77

Tabl 34: Rhesymau dros ddirywiad mewn un neu fwy dosbarth statws rhwng 2009 a 2015 a'r sectorau a nodwyd oedd yn cyfrannu at yr effaith yn ardal basn afon Hafren

Pwysau sy'n achosi'r dirywiad	Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig	Diwydiant	Mwyngloddio a chwarela	Mordwyo	Trefol a thrafnidiaeth	Diwydiant Dŵr	Llywodraeth leol a chanolog	Domestig cyhoedd cyffredinol	Hamdden	Trin gwastraff a gwaredu	Arall	Dim sector yn gyfrifol	Sector dan ymchwiliad	Cyfan-sw m
Tynnu dŵr a llif	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	1
Cemegion	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	21	21
Galw am ocsigen biocemegol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ocsigen toddedig	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	3
Amonia	0	0	0	0	0	4	0	0	0	0	0	0	2	6
Gwaddod mân	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Rhywogaethau estron goresgynnol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Nitrad	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ffosffad	8	0	0	0	0	4	0	0	0	0	0	0	6	18
Addasiad ffisegol	1	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	3	5

**Ydych chi am ddarganfod mwy
amdanom ni neu am eich
amgylchedd?**

Yna ffoniwch ni ar

03708 506 506 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)

e-bost

enquiries@environment-agency.gov.uk

www.gov.uk/environment-agency

Llinell Frys: 0800 807 060 (24 awr)

Llinell Llifogydd: 0345 988 1188 (24 awr)

Darganfyddwch gostau ffonio ar www.gov.uk/call-charges

Yr amgylchedd gyntaf: A ydych chi'n darllen hwn ar sgrin?
Ystyriwch yr amgylchedd ac argraffu os bydd rhaid yn unig.
Os ydych chi'n darllen ar bapur, cofiwch ailgylchu os yn
bosibl.